Pecyn Dogfennau

Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru
Uned Gwasanaethau Democrataidd
Adran y Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gar
Neuadd y Sir
Caerfyrddin SA31 1JP.

**DYDD MERCHER, 2 RHAGFYR 2020**

**AT: HOLL AELODAU'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **CYFARFOD RHITHWIR** O'R **CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** A GYNHELIR AM **10.00 YB, DYDD IAU, 10FED RHAGFYR, 2020** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**CYNGOR SIR GAR**

**SYLWCH:** BYDD Y CYFARFOD HWN YN CAEL EI FFILMIO I'W DDARLLEDU'N FYW NEU AR ÔL I'R CYFARFOD ORFFEN. GALLAI'R LLUNIAU A'R SAIN A RECORDIR GAEL EU DEFNYDDIO AT DDIBENION HYFFORDDI YN GYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Jessica Laimann** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224178** |
| **E-bost:** | **JMLaimann@sirgar.gov.uk** |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**
**8 AELOD**
(1 Aelod etholedig o bod Awdurdod Cyfansoddol

**<u>CYNGOR SIR GAR</u>**

**CYNGHORYDD ELWYN WILLIAMS**

**<u>DINAS A SIR ABERTAWE</u>**

**CYNGHORYDD CLIVE LLOYD**

**<u>CYNGOR DINAS CAERDYDD</u>**

**CYNGHORYDD CHRISTOPHER WEAVER**

**<u>CYNGOR SIR Y FFLINT</u>**

**CYNGHORYDD TED PALMER**

**<u>CYNGOR SIR GWYNEDD</u>**

**CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

**<u>CYNGOR SIR POWYS</u>**

**CYNGHORYDD PETER LEWIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF</u>**

**CYNGHORYDD MARK NORRIS**

**<u>CYNGOR BWRDEISDREF SIROL TORFAEN.</u>**

**CYNGHORYDD GLYN CARON**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUNDDIANT** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 MEDI 2020** | 5 - 8 |
| **4.** | **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** | 9 - 20 |
| **5.** | **COFRESTR RISG CH4 ADOLYGIAD 2020** | 21 - 32 |
| **6.** | **ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL** | 33 - 40 |
| **7.** | **ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD** | 41 - 66 |
| **8.** | **POLISI HYFFORDDIANT** | 67 - 76 |
| **9.** | **POLISI PLEIDLEISIO** | 77 - 94 |
| **10.** | **CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN** | 95 - 98 |
| **11.** | **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** | 99 - 110 |
| **12.** | **ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEDI 2020** | 111 - 132 |
| **13.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**<br>NI DDYLID CYHOEDDI’R ADRODDIAD SY’N YMWNEUD Â’R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y’I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y’I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â’R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I’R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O’R FATH. | |
| **14.** | **ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AT 30 MEDI 2020** | 133 - 156 |
| **15.** | **DARPARWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL** | 157 - 168 |
| **16.** | **ADRODDIAD DADANSODDIAD ÔL-BONTIO - INCWM SEFYDLOG** | 169 - 206 |


Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Gwener, 11 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Caron (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:**
P. Lewis, C. Lloyd, M. Norris, J. Pughe Roberts, C. Weaver a D.E. Williams.

**Roedd y swyddogion a ganlyn yn bresennol:**
C. Moore, Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
L.R. Jones, Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor (Cyngor Sir Gâr)
N. Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adnoddau (Cyngor Sir Torfaen)
B. Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (Rhondda Cynon Taf)
J. Dong, Prif Swyddog Trysorlys a Thechnegol (Dinas a Sir Abertawe)
D. Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi (Cyngor Gwynedd)
P. Latham, Rheolwr y Gronfa Bensiynau (Cyngor Sir y Fflint)
C. Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Cyngor Dinas Caerdydd)
A. Parnell, Rheolwr Trysorlys a Buddsoddi Pensiwn (Cyngor Sir Gâr)
J. Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Powys)
T. Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Sir Gâr)
J. Laimann, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol (Cyngor Sir Gâr).

**Hefyd wrth law fel sylwedyddion:**
C. Hurst, Rheolwr y Gronfa Bensiynau (Cyngor Sir Powys)
K. Cobb, Uwch Gyfrifydd (Dinas a Sir Abertawe)
G. Watkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Ariannol (Cyngor Dinas Caerdydd)
D. Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
B. Owen, Swyddog Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Gâr)
A. Bull, Rheolwr Buddsoddiadau Pensiwn (Cyngor Sir Torfaen).

**Hefyd yn bresennol:**
A. Tookey, Link Fund Solutions
D. Lowman, Link Fund Solutions
R. Thornton, Link Fund Solutions
K. Midl, Link Fund Solutions
J. Leggate, Russell Investments
S. Mandich, Russell Investments
A. Quinn, Russell Investments
F. Hope, Hymans Robertson
J. Wright, Hymans Robertson
A. Johnstown, Hymans Robertson
D. Armstrong, Northern Trust
N. Round, Northern Trust
R. Smith, Northern Trust.

**Cyfarfod Rhithiol - 10.00 - 11.25 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Hysbyswyd y Cydbwyllgor Llywodraethu y penodwyd y Cynghorydd Ted Palmer yn lle'r Cynghorydd Aaron Shotton. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Shotton am ei gyfraniad ar ran y Cydbwyllgor Llywodraethu.

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ted Palmer a Mr Dafydd Edwards am eu bod yn absennol, ac roedd Delyth Jones-Thomas yn bresennol fel dirprwy ar ran Mr Edwards.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| | |
|---|---|
| G. Caron | Aelod o Gronfa Bensiynau Gwent Fwyaf;<br>Ei wraig yn aelod gohiriedig o Gronfa Bensiynau Gwent Fwyaf;<br>Ei fab yng nghyfraith yn aelod o Gronfa Bensiynau Gwent Fwyaf; |
| P. Lewis | Aelod o Gronfa Bensiynau Powys; |
| C. Lloyd | Aelod o Gronfa Bensiynau Dinas a Sir Abertawe; |
| M. Norris | Aelod o Gronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf; |
| E. Williams | Aelod o Gronfa Bensiynau Dyfed. |

[Noder: Mae eithriad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau sy'n galluogi aelod sydd wedi'i benodi neu'i enwebu i gorff perthnasol gan ei awdurdod i ddatgan y buddiant hwnnw gan aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

## 3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 GORFFENNAF 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.**

## 4. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

*[Noder: Oherwydd trafferthion technegol, y Cynghorydd Clive Lloyd a gadeiriodd y cyfarfod o'r eitem hon ymlaen.]*

Derbyniodd y Cydbwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn y meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

Hysbyswyd y Cydbwyllgor fod y cynnig ynghylch cynrychioli aelodau'r cynllun yn dal yn cael ei ddatblygu ac y byddai'n dod gerbron y Cydbwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad, hysbyswyd y Cydbwyllgor y rhoddid ystyriaeth i lunio holiadur asesu gwybodaeth yn debyg i'r holiadur Gofynion ac Uchelgeisiau oedd wrthi'n cael ei ddrafftio.

Gofynnwyd pa ganran o gyfanswm asedau'r gronfa bensiynau a oedd wedi'i throsglwyddo i Bartneriaeth Pensiynau Cymru. Hysbyswyd y Cydbwyllgor y trosglwyddwyd oddeutu 65% o'r holl asedau a bod y ffigwr yn amrywio o un Gronfa Bensiynau i'r llall.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Awdurdod Lletya.**

## 5. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

Derbyniodd y Cydbwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Duncan Lowman a Richard Thornton o Link Fund Solutions a Sasha Mandich o Russell Investments ynglŷn â chynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru yn y meysydd allweddol canlynol:

- Daliannau Presennol y Gronfa;
- Lansio'r Gronfa;
- Ymgysylltu Corfforaethol a Rhannu'r Wybodaeth Ddiweddaraf

Hysbyswyd y Cydbwyllgor y penodwyd Richard Thornton yn Bennaeth Rheoli Cysylltiadau gyda Link.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.**

## 6. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30 MEHEFIN 2020

Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad ar yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang, y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a Chronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol fel yr oedd hi ar 30 Mehefin 2020.

Nodwyd fod gwerth y tair cronfa ar y farchnad wedi cynyddu yn y tri mis diwethaf. Cynyddodd Cronfa Twf Byd-eang y Bartneriaeth o £1,961,972,648 i £2,373,367,154; cododd Cronfa Cyfleoedd Byd-eang y Bartneriaeth o £1,881,872,223 i £2,230,646,643; ac fe gynyddodd Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol o £480,052,962 i £545,585,824. Ers y cychwyn roedd y cronfeydd Twf Byd-eang a Chyfleoedd Byd-eang wedi perfformio 0.42% (gros) yn well na'u meincnodau / (0.01% yn waeth na'u meincnodau) (net), a 0.93% (gros) / 0.57% (net). Perfformiodd Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol 1.11% (gros) / 1.39% (net) yn waeth na'i meincnodau.

Wrth ateb ymholiad ynglŷn â phwysoli targedau, hysbyswyd y Cydbwyllgor mai'r pwysoliadau hyn a gytunwyd pan lansiwyd y cronfeydd, ac y gellid eu haddasu yn sgîl trafodaeth a chytundeb drachefn gan y Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Twf Byd-eang, y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a Chronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol fel yr oedd hi ar 30 Mehefin 2020.**

## 7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem a ganlyn gan fod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.**

## 8. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG FEL YR OEDD AR 30 MEHEFIN 2020

**Ar sail prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng Nghofnod 7 uchod, y dylid ystyried y mater hwn yn breifat gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i Bartneriaeth Pensiynau Cymru drwy amharu ar drafodaethau.**

Bu'r Cydbwyllgor yn ystyried adroddiad ar yr Adolygiad Benthyca Cyfranddaliadau fel yr oedd hi ar 30 Mehefin 2020.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad Benthyca Cyfranddaliadau fel yr oedd hi ar 30 Mehefin 2020.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**
**PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**10 RHAGFYR 2020**

| |
|---|
| **DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA** |
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:<br><br>• Llywodraethu<br>• Sefydlu parhaus<br>• Gwasanaethau gweithredwr<br>• Cyfathrebu ac adrodd<br>• Hyfforddiant a chyfarfodydd<br>• Adnoddau, cyllideb a ffioedd |



| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Chris Moore** | **Swydd:**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **Rhif Ffôn: 01267 224160**<br><br>**E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |
|---|---|---|

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 10 RHAGFYR 2020

### DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD LLETYA

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2020/21 ar 12 Mawrth 2020. Atodir diweddariad i Chwarter 3 sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Is-gronfeydd PPC - mae'r 5 is-gronfa Incwm Sefydlog bellach wedi lansio. Mae gwaith wedi parhau gyda'r cyfnodau nesaf o is-gronfeydd.
- Polisi Pleidleisio PPC a Pholisi Hyfforddiant PPC
- Contract Ymgynghorydd Cyfreithiol - mae'r broses gwerthuso tendrau wedi'i chwblhau

Meysydd allweddol eraill:

- Datganiadau i'r wasg - Datganiad Incwm Sefydlog wedi'i rhyddhau
- Adroddiad Blynyddol PPC 2019/20 wedi cael ei gyhoeddi
- Hyfforddiant - mae nifer o sesiynau hyfforddi rhithiol wedi cael eu cynnal ers y CBLl diwethaf ym mis Medi, ac mae'r rhain wedi cael eu hymestyn i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau yn ogystal ag aelodau a swyddogion y CBLl.
- Gwefan - mae'r wefan yn parhau i gael ei ddiweddaru gyda pholisïau sydd wedi'u cymeradwyo, datganiadau i'r wasg a manylion lansio'r is-gronfeydd.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

<table>
<tr><td>Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>OES</td><td>Cyfreithiol<br>DIM</td><td>Cyllid<br>DIM</td><td>Materion Rheoli Risg<br>DIM</td><td>Goblygiadau Staffio<br>DIM</td></tr>
<tr><td colspan="5">Polisi<br>Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.</td></tr>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
</table>

# YMGYNGHORIADAU

| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |
|---|

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**
**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**
**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

| Teitl y Ddogfen | Cyfeirnod Ffeil | Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN |
|---|---|---|
| | | |



# Partneriaeth Pensiwn Cymru

# Cynllun Busnes

# 2020 -2021

# Adolygiad Ch3

## Llywodraethu

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu Polisi Risg Hinsawdd | Do | Amh |
| • Datblygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau | Do | Amh |
| • Datblygu Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Cyflwyno'r papur gerbron CBLl mis Rhagfyr am gymeradwyaeth |
| • Llunio Llawlyfr Llywodraethu'r Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Yn mynd rhagddo, bydd yn cael ei gyflwyno gerbron CBLl mis Mawrth am gymeradwyaeth |
| • Llunio Cofrestr Risg i'r Bartneriaeth | Do | Amh |
| • Cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun Busnes y Bartneriaeth a'i ddiwygio | Yn mynd rhagddo | I gael ei gwblhau Ionawr - Mawrth 2021 a'i gyflwyno gerbron CBLl mis Mawrth am gymeradwyaeth |
| • Adolygiad blynyddol o'r polisi Buddsoddi Cyfrifol | Yn mynd rhagddo | Yr adolygiad wedi'i gwblhau a'r addasiadau wedi'u cyflwyno gerbron CBLl mis Rhagfyr am gymeradwyaeth |

## Sefydlu Parhaus

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Lansio'r gyfran ecwiti Marchnadoedd Datblygol | Yn mynd rhagddo | Dyddiad lansio wedi'i ohirio tan fis Mai 2021 |
| • Lansio'r Is-gronfeydd Incwm Sefydlog | Do | Amh |
| • Lansio'r Is-gronfeydd Marchnadoedd Preifat | | Wedi'i ohirio hyd 2021-2022 |

## Gwasanaethau Gweithredwr

| Gwaith I'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Llunio Fframwaith Trosolwg o'r Gweithredwr i'r Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | |
| • Adolygu contract y Gweithredwr | Yn mynd rhagddo | |
| • Adolygu a datblygu adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithredwr | Yn mynd rhagddo | |

## Cyfathrebu, Hyfforddi ac Adrodd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Datblygu adroddiadau perfformiad y Rheolwr Buddsoddiadau, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a risg newid hinsawdd | Yn mynd rhagddo | Yn mynd rhagddo - Mae'r Is-grŵp BC yn llunio Adroddiad Monitro Buddsoddi Cyfrifol y PPC ar hyn o bryd |
| • Llunio cynllun hyfforddi blynyddol y Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Cynllun hyfforddiant 21/22 i gael ei gyflwyno gerbron CBLl mis Mawrth am gymeradwyaeth |
| • Llunio Newyddlen Flynyddol y Bartneriaeth | Do | Diweddariad Blynyddol wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2020 |
| • Adolygu a Monitro Ffïoedd (gan gynnwys Link a Russell) | Yn mynd rhagddo | |

## Adnoddau, cyllideb a ffioedd

| Gwaith i'w gwblhau | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Penodi ymgynghorydd cyfreithiol | Yn mynd rhagddo | Y papur yn cael ei gyflwyno gerbron CBLl mis Rhagfyr am gymeradwyaeth |
| • Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu | | I gael ei adolygu yn Ch1 2021 |
| • Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth | Yn mynd rhagddo | Cyllideb 2021/22 i gael ei chyflwyno gerbron CBLl mis Mawrth am gymeradwyaeth |

## Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2020-2021 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2020-2021 a'r cynnydd hyd yma.

| | Cwblhawyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| • Rheoli Gwrthdaro Buddiannau | Do - Mehefin 2020 | |
| • Monitro gan y Gweithredwr | | I'w drefnu - mis Ionawr / Mawrth 2021 |
| • Metrigau perfformiad (gan gynnwys metrigau Incwm Gweddilliol) | Do - Hydref 2020 | |
| • Cynnydd Cronfeydd Cyfun Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol eraill | Do - Tachwedd 2020 | |
| • Cyfleoedd i Gydweithio | Do - Tachwedd 2020 | |
| • Risg Hinsawdd | Do - Mehefin 2020 | |
| • Dosbarthu Asedau - Dulliau gwahanol (Marchnadoedd Preifat) | Do - Hydref 2020 | |
| • Cofnodi Penderfyniadau | | I'w drefnu - mis Ionawr / Mawrth 2021 |
| • Adnabod Gwersi i'w Dysgu | | I'w drefnu - mis Ionawr / Mawrth 2021 |
| • Gofynion Tryloywder | | I'w drefnu - mis Ionawr / Mawrth 2021 |
| • Gweithredu Canllawiau a Rheoliadau | | I'w drefnu - mis Ionawr / Mawrth 2021 |

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant Robeco ym mis Medi a mis Hydref 2020 hefyd.

Mae'r holl hyfforddiant uchod sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau ac mae pob sesiwn hyfforddiant wedi cael ei chynnal yn rhithiol.

## Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2020-2021:

| | Cyllideb 2020 - 2021 £000 | Rhagolwg 2020 - 2021 £000 | Amrywiant 2020 - 2021 £000 (Gweler isod) |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lletya * | 181 | 158 | 23 |
| Ymgynghorwyr Allanol * | 580 | 580 | 0 |
| **CYFANSWM i'w ail-godi** | **761** | **738** | **23** |
| | | | |
| Gwasanaethau Gweithredwr ** | 27,557 | 22,901 | 4,656 |
| **CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau** | **27,557** | **22,901** | **4,656** |

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).*

**Amrywiant:**

- Awdurdod Lletya - Swydd Cyfrifydd Cynorthwyol yn wag a thanwariant ar gostau teithio a chynhaliaeth Covid 19
- Gwasanaethau Gweithredwr - Oedi wrth lansio is gronfeydd Marchnadoedd Datblygol a Marchnadoedd Preifat

## Is-gronfeydd Ecwiti

***Cronfa Twf Byd-eang***

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

***Cronfa Cyfleoedd Byd-eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £2 biliwn**

***Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn**

- Lansiad yr is-gronfa Marchnadoedd Datblygol wedi'i ohirio hyd fis Mai 2021

## Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

***Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.4 biliwn**

***Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn**

***Cronfa Credyd Aml-ased***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.6 biliwn**

***Cronfa Credyd Byd-Eang***

**Rheolir gan: Russell Investments**

**Gwerth y Portffolio: £0.8 biliwn**

***Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol***

**Rheolir gan: Link**

**Gwerth y Portffolio: £0.5 biliwn**

Partneriaeth Pensiwn Cymru

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU

## 10 RHAGFYR 2020

## COFRESTR RISG Ch4 ADOLYGIAD 2020

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg y PPC**

**RHESYMAU:**

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych yn bennaf ar yr adran Buddsoddiadau.



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# 10 RHAGFYR 2020

## COFRESTR RISG CH4 ADOLYGIAD 2020

## CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd Cofrestr Risg Cychwynnol Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg y PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad, yn bennaf gyda'r risgiau o fewn adran Buddsoddiadau a Pherfformiad y Gofrestr Risg, risgiau I1 i I9. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r sgorio risg; fodd bynnag, gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r adrannau Camau Gweithredu Angenrheidiol a'r Adroddiadau Cynnydd / Sylwadau.

Mae'r Gofrestr Risg sydd wedi'i diweddaru ynghlwm, ynghyd â thaflen grynhoi, yn crynhoi'r deilliannau a adolygwyd o bob risg.

Mae'r GS wedi sefydlu Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch1 2021 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau G.1 i G.8 yn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio Risgiau.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES** | Cyfreithiol **DIM** | Cyllid **DIM** | Materion Rheoli Risg **DIM** | Goblygiadau Staffio **DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

## Risg Buddsoddi a Pherfformiad

| | Manylion y Risg | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| I.1 | Methiant Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu henillion buddsoddi a dargedwyd. | •Tanberfformiad Rheolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru.<br>•Amodau economaidd a digwyddiadau yn y farchnad niweidiol na ellid eu rhagweld.<br>•Dyraniadau asedau strategol a rhanbarthol amhriodol. | Straen sylweddol ar randdeiliaid allweddol Partneriaeth Pensiwn Cymru, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Gallai hyn arwain at ofyniad am fwy o gyfraniadau gan gyflogwyr neu ostyngiad i'r lefel ariannu. | Cydbwyllgor Llywodraethu | •Monitro yn barhaus berfformiad buddsoddiadau, datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd a adroddir gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr ac a drafodir mewn cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion<br>•Ymgysylltiad y Gweithredwr/ y Rheolwr Buddsoddi â Rheolwyr Buddsoddi ac adolygiadau parhaus o'u proses<br>•Diwrnodau rheolwyr wedi'u cynnal gan y Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi ar gyfer y Gweithgor Swyddogion / Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol | Presennol | 4 | 3 | 12 |  | Mae angen lleihau tebygolrwydd tanberfformiad Rheolwyr Buddsoddi. Gellir gwneud hyn drwy'r mecanweithiau canlynol:<br><br>•Monitro perfformiad buddsoddiadau a datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd yn well<br>•Mwy o ymgysylltiad â chyfathrebiad â Rheolwyr Buddsoddi | Gweithgor Swyddogion | Mae'r GS yn parhau i weithio gyda'r Gweithredwr a'r Rheolwr Buddsoddi i wella mecanweithiau adrodd ar fuddsoddiadau y PPC. Mae'r Is-grŵp Risg yn argymell yn argymell ymgymryd ag ymarfer meincnodi marchnad ar gyfer Is-gronfeydd a Rheolwyr Buddsoddi'r PPC bob dwy flynedd. Mae'r PPC wedi ymgymryd â gwaith arwyddocaol yn ystod y chwarter er mwyn gwella mecanweithiau ymgysylltu PPC gyda Rheolwyr Buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys cael fersiwn derfynol o Atodlen Ymgysylltu Rheolwyr PPC a rhoi mecanweithiau hysbysu ar waith er mwyn adnabod pryd a pham mae ail-gydbwyso o fewn Is-gronfeydd PPC a reolir gan Russell wedi digwydd. |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | 4 | 2 | 8 | | | Ch4 2021 | |
| I.2 | Un o Reolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu / yn gadael y farchnad, gan arwain at golled ariannol i asedau'r bartneriaeth. | •Mae Model busnes y Rheolwr Buddsoddi, rheolaethau mewnol a/neu oruchwyliaeth allanol o'r Rheolwr Buddsoddi yn methu. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi | Mae'r Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi yn hwyluso:<br>•Monitro rheolwyr buddsoddi'n barhaus<br>•Holi rheolwyr am eu rheolaethau mewnol, rheoliadau allanol, polisïau olyniaeth/cadw<br>•Ymgysylltiad â Rheolwyr Buddsoddi a'r diwydiant Rheolwyr Buddsoddi<br>•Cynnal rhestr fer o reolwyr amgen addas | Presennol | 5 | 2 | 10 |  | Mae angen i'r PPC sicrhau bod gweithdrefnau addas ar waith er mwyn goruchwylio Rheolwyr Is-gronfeydd ac er mwyn adnewyddu/penodi neu ail-gydbwyso Is-gronfeydd. Bydd y PPC yn ymgymryd â'r llifau gwaith a ganlyn:<br>•Creu Polisi Penodi, Adnewyddu ac Ail-gydbwyso Rheolwyr Is-gronfeydd<br>•Codeiddio'r modd y mae Rheolwr Buddsoddi'r Is-gronfa yn goruchwylio, monitro a herio Rheolwyr Buddsoddi gwaelodol.<br>Nodwyd bod y llifau gwaith hyn yn benodol berthnasol ar gyfer Is-gronfeydd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Russell. | Gweithgor Swyddogion | Bydd Is-grŵp BC PPC yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu sut mae Rheolwyr Is-gronfeydd yn goruchwylio, monitro a herio rheolwyr gwaelodol ar faterion BC, bydd hyn yn cael ei gwblhau yn Ch1 2021. Bydd y GS yn gyfrifol am sefydlu protocol i oruchwylio is-gronfeydd, yn enwedig is-gronfeydd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Russell. |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | 5 | 2 | 10 | | | Ch4 2021 | |
| I.3 | Gallai methiant y ceidwad a benodwyd arwain at fethu rheoli asedau yn briodol ac yna colled ariannol a/neu wybodaeth o ran asedau buddsoddi. | •Cofnodi prisiadau a thrafodiadau asedau yn anghywir.<br>•Diogelu asedau yn anfoddhaol.<br>•Rheolaethau allanol a mewnol yn methu ag atal twyll neu gamddefnydd.<br>•Ceidwad yn methu ac yn gadael y farchnad, gan arwain o bosibl at asedau sownd. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Y Gweithredwr / Gweithgor Swyddogion / Cynghorydd Goruchwylio | •Proses gaffael gadarn wedi'i goruchwylio gan y Gweithredwr<br>•Adolygiad blynyddol o'r ceidwad wedi'i baratoi gan y Gweithredwr a'i gyflwyno i'r Gweithgor Swyddogion<br>•Dadansoddiad o Gofnodion Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn Cofnodion y Ceidwad<br>•Monitro perfformiad y ceidwad yn flynyddol<br>•Y ceidwad yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br>•Derbyn adroddiadau rheolaethau blynyddol gan Archwilwyr Allanol y Ceidwad | Presennol | 5 | 2 | 10 |  | Bydd y GS yn gweithio gyda'r Gweithredwr a'r Ymgynghorydd Goruchwylio i gytuno ar y weithdrefn er mwyn ffurfiwleiddio a chynnwys Adolygiad Ceidwad Blynyddol PPC. | GS / Ymgynghorydd Arolygiaeth | Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yn Ch1 2021, gyda'r disgwyliad y bydd y Gweithredwr yn creu ei Adolygiad Ceidwad Blynyddol ar 31 Mawrth 2021. |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | 5 | 2 | 10 | | | Ch4 2021 | |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| I.4 | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn nac yn ceisio cyngor buddsoddi arbenigol pan fo'i angen. | •Cynghorydd allanol yn darparu cyngor amhriodol neu anfoddhaol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>•Partneriaeth Pensiwn Cymru yn anwybyddu cyngor priodol a ddarperir gan gynghorwyr arbenigol.<br>•Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â cheisio cyngor arbenigol. | Penderfyniadau amhriodol yn cael eu rhoi ar waith a allai niweidio perfformiad buddsoddiadau. | Gweithgor Swyddogion / Cydbwyllgor Llywodraethu / Cynghorydd Goruchwylio | •Prosesau caffael cadarn<br>•Hyfforddiant parhaus i aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraeth a'r Gweithgor Swyddogion<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio Cyngor Buddsoddi a'r broses o wneud penderfyniadau<br>•Ymgysylltiad â chronfeydd eraill yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i groes-ddilysu addasrwydd cyngor | Presennol | | |  | Mae'r PPC yn credu mai gwrthrychedd ac amrediad yr argymhellion datrysiadau buddsoddi yw'r maes pryder mwyaf mewn perthynas â'r risg hwn. Yn benodol, mae angen i PPC sicrhau ei fod yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau, o safbwynt gwrthrychedd, o'r cynnig a gyflwynwyd gan y Darparwr Datrysiadau Rheolaeth Buddsoddi. Bydd PPC yn gofyn i'w Ymgynghorydd Arolygiaeth godeiddio a ffurfioli'r broses lle dylai PPC ystyried datrysiadau buddsoddi. Mae gan ymgynghorwyr lefel leol swyddogaeth bwysig wrth ystyried addasrwydd datrysiad buddsoddi PPC ar gyfer eu Hawdurdod Cyfansoddol. Bydd yr Ymgynghorydd Arolydigaeth yn adnabod pa agweddau ar ddatrysiad budsoddi y bydd yn cynghori'r GS arno, ac a fydd yn parhau i gael ei ymgymryd gan ymgynghorwyr lefel leol. | GS/ Ymgynghoriaeth Arolygiaeth | Bydd y llif gwaith hwn yn cael ei gynnal yn hanner cyntaf 2021. |
| | | | | | | 4 | 2 | 8 | | | | |
| | | | | | | Targed | | | | | | |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | 4 | 1 | 4 | | | Ch4 2021 | |
| I.5 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â herio ffioedd rheolwyr, gwerth am arian ac amcanion gorfodol. | •Diffyg gwybodaeth a thryloywder gan Reolwyr Buddsoddi.<br>•Analluu i wirio a herio Rheolwyr Buddsoddi a'u meincnodi o'u cymharu â chystadleuwyr yn y farchnad. | Anallu i sicrhau gwerth am arian i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio | •Monitro ffioedd rheolwyr buddsoddi yn barhaus<br>•Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi a Rheolwyr Buddsoddi am eu ffioedd<br>•Mynnu tryloywder gan Reolwyr Buddsoddi, y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr o ran ffioedd | Presennol | | |  | Mae PPC wedi adnabod dwy ffordd newydd o reoli'r risg hwn. Fel y nodwyd yn risg I.1, bydd PPC yn ymgymryd ag ymarferion meincnodi bob dwy flynedd, a bydd hyn yn galluogi i PPC asesu'r gwerth am arian y maent yn ei gael mewn perthyn â chymharwyr y farchnad. Ymhellach at hynny, mae PPC yn cydnabod bod ymarferion tryloywder cost yn amhrisiadwy i adnabod gwerth am arian, dyma'r ail ffordd y bydd PPC yn asesu gwerth am arian. | GS/ Ymgynghoriaeth Arolygiaeth | Bydd PPC yn ystyried canfyddiadau ymarfer Tryloywder Cost SAB, yn dilyn hyn bydd GS yn ystyried pa gamau ychwanegol sydd eu hangen a ph'un a oes angen ymarferion tryloywder cost pellach. |
| | | | | | | 2 | 2 | 4 | | | | |
| | | | | | | Targed | | | | | | |
| | Ariannol | | | Tymor Canolig | | 2 | 1 | 2 | | | Ch4 2021 | |
| I.6 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored i risg parti i gontract | •Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â monitro ei hamlygiad i bartïon i gontractau a'r tebygolrwydd o ddiffygdaliadau partïon i gontractau.<br>•Ni roddir proses uwchgyfeirio addas i ymdrin ag amlygiad gormodol partïon i gontractau ar waith. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru, costau cyfreithiol posibl, risg i enw da. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr/ y Rheolwr Buddsoddi / Y Ceidwad | •Monitro amlygiad partïon i gontractau yn barhaus<br><br>•Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi, Rheolwr Buddsoddi a'r Ceidwad am lefel amlygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i bartïon i gontractau | Presennol | | |  | Bydd y GS yn gofyn i'r Gweithredwr fformwleiddio adroddiad risg gwrth-barti dechreuol erbyn Ch3 2021. | GS | Bydd y GS, gyda chymorth eu Hymynghorydd Arolygiaeth, yn adolygu adroddiad dechreuol y Gweithredwyr ar risg gwrth-barti. |
| | | | | | | 4 | 2 | 8 | | | | |
| | | | | | | Targed | | | | | | |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | 4 | 2 | 8 | | | Ch4 2021 | |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Risg a Natur y Risg | | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| I.7 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithredu is-gronfeydd is-optimaidd. | •Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ddylunio a datblygu is-gronfeydd.<br><br>•Nid yw Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol i ystyriaeth.<br>•Ni roddir ystyriaeth ddigonol i werth am arian a/neu arbedion cost.<br>•Caiff is-gronfeydd â graddfa annigonol i sicrhau arbediad cost eu lansio.<br>•Trafodaethau am ffioedd rheolwyr yn aneffeithiol. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu is-gronfeydd nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian / arbediad cost a/neu ofynion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio | •Defnyddio cynghorwyr niferus i greu is-gronfeydd<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd<br>•Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd<br>•Cynhelir dadansoddiad cost a budd cyn lansio pob is-gronfa<br>•Defnydd o raddfa'r Rheolwr Buddsoddi a graddfa Partneriaeth Pensiwn Cymru i gytuno ar y ffioedd gorau posibl i reolwyr<br>•Ymgynghori mynych gydag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion<br>•Dal ased y tu allan i is-gronfa os na fydd ei gynnwys yn yr is-gronfa yn effeithlon o ran cost | Presennol | | |  | -Bydd creu'r ddwy ddogfen a ganlyn, fel yr amlinellwyd yn Risg 1.2, angen eu cwblhau er mwyn lliniaru'r risg hwn ymhellach:<br><br>•Creu Polisi Penodi, Adnewyddu ac Ail-gydbwyso Rheolwyr Is-gronfeydd<br>•Codeiddio'r modd y mae Rheolwr Buddsoddi'r Is-gronfa yn goruchwylio, monitro a herio Rheolwyr Buddsoddi gwaelodol.<br><br>Bydd y mecanweithiau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod is-gronfeydd presennol yn parhau i fod yn optimaidd ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol. | Y Gweithredwr/ Rheolwr Buddsoddi / Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae creu Holiadur Awdurdodau Cyfansoddol Blynyddol PPC wedi lliniaru'n sylweddol y risg nad yw anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu hadnabod a'u cyfrif amdanynt wrth greu a diwygio Is-gronfeydd PPC. |
| | | | | | | 4 | 2 | 8 | | | | |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | | | | | Ch4 2021 | |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | | |
| I.8 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. | •Diffyg gwybodaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.<br>•Diffyg gwybodaeth am sut y gellir rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.<br>•Presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r posibilrwydd o asedau sownd. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio | •Datblygu metrigau adrodd addas ar y newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu<br>•Penodi darparwr pleidleisio trwy ddirprwy ac ymgysylltu, sy'n ymgysylltu â rheolwyr a chwmnïau ar sut y maent yn rheoli'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu<br>•Cyhoeddi Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Pholisi Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd<br>•Ymgysylltu â rheolwyr a'u herio yn gyson ar sut y maent yn cymryd y newid yn yr hinsawdd / risgiau yn sgil yr hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ystyriaeth<br>•Datblygu is-gronfeydd a fydd yn galluogi Awdurdodau Cyfansoddol i reoli eu hamlygiad i risgiau yn sgil yr hinsawdd<br>•Digwyddiad hyfforddiant blynyddol yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, neu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar Gynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru | Presennol | | |  | Mae Is-grŵp BC PPC yn gweithio gyda'r Ymgynghorydd Arolygiaeth i wella PPC yn adrodd ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg yr Hinsawdd. Derbyniodd PPC hyfforddiant hefyd ar ESG ac adroddd am Risg i'r Hinsawdd yn Ch4 2020, dylai'r hyfforddiant hwn uchafu'r dealltwriaeth ac felly effeithiolrwydd ESG ac Adrodd PPC. Sefydlwyd Is-grŵp BC PPC hefyd yn Ch3 2020, bydd y grŵp hwn yn cymryd perchnogaeth o fontiro, herio ac adrodd sut mae Rheolwyr Buddosddi'r PPC yn cyfrif am faterion BC yn fformwleiddiad is-gronfeydd PPC. | GS/ Ymgynghorydd Arolygiaeth | Bydd Is-grŵp BC PPC yn ystyried drafft pellach ar adrodd ar yr ESG a Risg yr Hinsawdd PPC ym mis Ionawr 2021, y cynllun presennol yw cyflwyno'r adroddiad terfynol ar 31 Mawrth 2021 yn Ch2 2021. Yn ogystal, bydd Is-grŵp BC yn cwrdd â Rheolwyr Buddsoddi yr Is-gronfeydd er mwyn deall, herio ac adolygu sut maent yn cyfrif am faterion BC wrth fformwleiddio is-gronfeydd PPC. |
| | | | | | | 4 | 2 | 8 | | | | |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | | | | | Ch4 2021 | |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | | |

| | Manylion y Risg | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Risg a Natur y Risg** | **Achos y Risg** | **Goblygiadau'r Risg** | **Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith** | **Rheolaethau Risg Presennol** | **Difrifoldeb** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr** | **Statws Presennol** | **Camau Gofynnol** | **Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu** | **Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau** |
| I.9 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â hwyluso atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i fodloni eu strategaeth a'u hamcanion buddsoddi. | •Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ymgysylltu ag anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol a'u deall.<br>•Nid yw Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol i ystyriaeth.<br>•Nid yw is-gronfeydd wedi'u dylunio yn unol â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol.<br><br>•Nid yw is-gronfeydd yn ddigon hyblyg nac yn gallu newid i fodloni gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn well. | Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthod defnyddio'r ateb buddsoddi a ddarperir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. O'r herwydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfuno asedau, a allai arwain at ymyrraeth y llywodraeth a/neu chwalu Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio | •Mae datblygu is-gronfeydd pellach yn eitem sy'n cael blaenoriaeth yng nghynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>• Ymgynghori aml ag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion<br>• Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar addasrwydd parhaus is-gronfeydd presennol<br>•Defnyddio cynghorwyr niferus i greu is-gronfeydd<br><br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd<br>•Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd | **Presennol**<br>**5** | <br>**2** | <br>**10** |  | Mae angen i'r PPC sicrhau bod yr adborth i'r holiadur Awdurdod Cyfansoddol yn cael ei weithredu'n effeithiol i mewn i gynllun gwaith PPC. | Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae holiadur Ymgynghoriad Blynyddol wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r holiadur yn ceisio pennu gofynion buddsoddi Awdurdodau Cyfansoddol unigol, ynghyd â'u dyheadau mwy hirdymor. Rhagwelir y bydd yr holiadur hwn yn lliniaru'r risg y bydd datrysiadau buddsoddi PPC yn methu i gwrdd â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol. Fodd bynnag, mae'r Is-gronfa Risg wedi penderfynu cadw'r sgôr risg cyfredol hyd nes eu bod wedi adolygu pa mor effeithiol y mae'r adborth o'r holiadur wedi hidlo drwodd i gynllun gwaith PPC ar gyfer 2021/2022 a thu hwnt. |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Hirdymor | | **Targed**<br>**5** | <br>**1** | <br>**5** | | | Ch4 2021 | |

## Risg Llywodraethu a Rheoleiddio

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Camau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau |
| G.12 | Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau contractiol neu'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau Gweithredwr oherwydd ymadael â'r farchnad neu gyfyngiadau rheoleiddio. | •Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol.<br>•Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi systemau adrodd ar berfformiad/risg digonol ar waith.<br>•Nid oes gan y Gweithredwr yr adnoddau/arbenigedd i wneud gwaith monitro rheolwyr, i gynnal negodiadau ffioedd, ac i hwyluso cerbydau a gwasanaethau sefydlu.<br>•Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi mesurau cadw cydbwysedd digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiad â'r holl reoliadau perthnasol.<br>•Nid yw'r gallu na'r gymeradwyaeth reoleiddio gan y Gweithredwr i ddarparu gwasanaethau Adneuo a Gwarchodaeth (trwy'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig).<br>•Monitro annigonol o endidau a benodwyd i weinyddu cronfeydd ac asiantaeth drosglwyddo (Northern Trust).<br>•Mae'r Gweithredwr yn methu â gweithredu rheoli risg priodol, gan gynnwys: polisi, gweithdrefnau a strategaethau lliniaru rheoli risg.<br>•Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol i ddarparu gwaith rheoli perthynas a darparu gwasanaeth digonol. | Mae asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru a ddelir yng Nghynllun Contractiol Awdurdodedig y Gweithredwr yn cael eu rhoi mewn perygl. Mae nifer o gontractau'r bartneriaeth yn cael eu torri, gan fod y rhain yn cael eu gorfodi drwy'r Gweithredwr ar hyn o bryd. Nid yw'r bartneriaeth yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau, ni ellir rheoli neu lansio is-gronfeydd. | Cynghorydd Goruchwylio / Awdurdod sy'n Lletya / Gweithgor Swyddogion / Cynghorydd Cyfreithiol | •Cynghorydd Goruchwylio Gweithredwr dynodedig ar gael<br>•Protocolau ymgysylltu dwys gyda'r Gweithredwr<br>•Fframwaith Goruchwylio Gweithredwr wrthi'n cael ei ddatblygu<br>•Ymgysylltiad â'r farchnad Gweithredwyr ehangach (a chyflenwyr addas eraill) yn cael ei gynnwys yng ngynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>•Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio contractau sydd â saib neu bwyntiau ymadael naturiol a ffioedd ymadael isel | Presennol | | |  | Bydd y Gweithgor Swyddogion yn datblygu 'gweithdrefn cyfyngu effaith' a allai gael ei gweithredu pe bai'r Gweithredwr yn gadael y farchnad neu pe bai angen penodi Gweithredwr arall ar unwaith. Mae'r Gweithgor Swyddogion yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau yn deillio o adolygiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o'r farchnad Gweithredwyr sy'n Gyfarwyddwyr Corfforaethol Awdurdodedig. Mae'r Gweithgor Swyddogion yn cydnabod y straen y mae'r adolygiad hwn yn ei roi ar y Gweithredwr o ran adnoddau. | Gweithgor Swyddogion | Bydd y GS yn gofyn i'r Gweithredwr am ddiweddariad ar gynnydd y cais cymryd drosodd y mae ei rhiant-gwmni wedi ei dderbyn. |
| | | | | | | 5 | 3 | 15 | | | | |
| | Ariannol / Gweithredol | | | Byrdymor | | Targed | | | | | Ch2 2021 | |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

| Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr y Risg Cyfredol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| I.1 | 8 | 12 | | GS | Mae'r Is-grŵp Risg yn argymell ymgymryd ag ymarfer meincnodi marchnad ar gyfer Is-gronfeydd a Rheolwyr Buddsoddi'r PPC bob dwy flynedd. Mae'r PPC wedi ymgymryd â gwaith arwyddocaol yn ystod y chwarter er mwyn gwella mecanweithiau ymgysylltu PPC gyda Rheolwyr Buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys cael fersiwn derfynol o Atodlen Ymgysylltu Rheolwyr PPC a rhoi mecanweithiau hysbysu ar waith er mwyn adnabod pryd a pham mae ail-gydbwyso o fewn Is-gronfeydd PPC a reolir gan Russell wedi digwydd. |
| I.2 | 10 | 10 | | GS | Bydd Is-grŵp BC PPC yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu sut mae Rheolwyr Is-gronfeydd yn goruchwylio, monitro a herio rheolwyr gwaelodol ar faterion BC, bydd hyn yn cael ei gwblhau yn Ch1 2021. Bydd y GS yn gyfrifol am sefydlu protocol i oruchwylio is-gronfeydd, yn enwedig is-gronfeydd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Russell. |
| I.3 | 10 | 10 | | GS | Bydd y GS yn gweithio gyda'r Gweithredwr a'r Ymgynghorydd Goruchwylio i gytuno ar y weithdrefn er mwyn fformiwleiddio a chynnwys Adolygiad Ceidwad Blynyddol PPC. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yn Ch1 2021, gyda'r disgwyliad y bydd y Gweithredwr yn creu ei Adolygiad Ceidwad Blynyddol ar 31 Mawrth 2021. |
| I.4 | 4 | 8 | | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae'r PPC yn credu mai gwrthrychedd ac amrediad yr argymhellion datrysiadau buddsoddi yw'r maes pryder mwyaf mewn perthynas â'r risg hwn. Yn benodol, mae angen i PPC sicrhau ei fod yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau, o safbwynt gwrthrychedd, o'r cynnig a gyflwynwyd gan y Darparwr Datrysiadau Rheolaeth Buddsoddi. Bydd PPC yn gofyn i'w Ymgynghorydd Arolygiaeth godeiddio a ffurfioli'r broses lle dylai PPC ystyried datrysiadau buddsoddi. |
| I.5 | 2 | 4 | | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae PPC wedi adnabod dwy ffordd newydd o reoli'r risg hwn. Bydd PPC yn ymgymryd ag ymarferion meincnodi bob dwy flynedd - bydd hyn yn galluogi i PPC asesu'r gwerth am arian y byddant yn ei gael mewn perthynas â chymaryddion y farchnad. Ymhellach at hynny, mae PPC yn cydnabod bod ymarferion tryloywder cost yn amhrisiadwy i adnabod gwerth am arian, dyma'r ail ffordd y bydd PPC yn asesu gwerth am arian. Bydd PPC yn ystyried canfyddiadau ymarfer Tryloywder Cost SAB, yn dilyn hyn bydd GS yn ystyried pa gamau ychwanegol sydd eu hangen a ph'un a oes angen ymarferion tryloywder cost pellach. |
| I.6 | 8 | 8 | | GS | Bydd y GS yn gofyn i'r Gweithredwr greu adroddiad risg gwrth-barti dechreuol erbyn Ch3 2021. Bydd y GS, gyda chymorth gan eu Ymgynghorydd Arolygiaeth, yn adolygu'r adroddiad dechreuol ar y risg gwrth-barti gan y Gweithredwyr. |
| I.7 | 4 | 8 | | Y Gweithredwr/Rheolwr Buddsoddi/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae creu Holiadur Awdurdodau Cyfansoddol Blynyddol PPC wedi lliniaru'n sylweddol y risg nad yw anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu hadnabod a'u cyfrif amdanynt wrth greu a diwygio Is-gronfeydd PPC. Bydd creu'r ddwy ddogfen a ganlyn yn lliniaru'r risg hwn ymhellach:<br>• Creu Polisi Penodi, Adnewyddu ac Ail-gydbwyso Rheolwyr Is-gronfeydd<br>• Codeiddio'r modd y mae Rheolwr Buddsoddi'r Is-gronfa yn goruchwylio, monitro a herio Rheolwyr Buddsoddi gwaelodol. |
| I.8 | 4 | 8 | | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Ar hyn o bryd, mae Is-grŵp BC PPC yn fformiwleiddio Adroddiad Risg Hinsawdd ac ESG y PPC, y cynllun presennol yw cyflwyno'r adroddiad terfynol ar 31 Mawrth 2021 yn Ch2 2021. Yn ogystal, bydd yr Is-grŵp BC yn cwrdd â Rheolwyr Buddsoddi yr Is-gronfeydd PPC er mwyn deall, herio ac adolygu sut maent yn cyfrif am faterion BC yn fformwleiddiad is-gronfeydd PPC. |
| I.9 | 5 | 10 | | Ymgynghorydd Arolygiaeth | Diweddarwyd y Risg er mwyn adlewyrchu bod holiadur Ymgynghoriad Blynyddol wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Is-gronfa Risg wedi penderfynu cadw'r sgôr risg presennol hyd nes eu bod wedi adolygu pa mor effeithiol y mae'r adborth o'r holiadur wedi hidlo drwodd i gynllun gwaith PPC ar gyfer 2021/2022. |
| G.12 | 10 | 15 | | GS | Cytunwyd y byddai'r GS yn gofyn i'r Gweithredwr am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch y cais i gymryd drosodd eu Rhiant-gwmni. |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**10 RHAGFYR 2020**

## ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo diweddariadau'r isod:**

- **Datganiad Credoau**
- **Matrics Llywodraethu**

**RHESYMAU:**

Cymeradwyodd y CBLl y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu presennol ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r ddwy ddogfen yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r ddwy wedi cael eu hadolygu gan y Gweithgor Swyddogion ac mae'r diwygiadau angen eu cymeradwyo gan y CBLl.



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| Chris Moore | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Cyngor Sir Gâr | E-bost:<br>CMoore@carmarthenshire.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# 10 RHAGFYR 2020

## ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun dros y 15 mis diwethaf sydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gellir gweld y rhain ar wefan y Bartneriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd y CBLl y Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Gweithgor Swyddogion (GS) wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r ddwy ddogfen hyn.

Datganiad Credoau – mae'r ddogfen hon wedi cael ei hadolygu gan y GS a gwnaed diwygiad bach i bwynt bwled rhif 4 drwy ychwanegu Risg Hinsawdd at y frawddeg bresennol.

Matrics Llywodraethu – mae'r matrics hwn wedi cael ei adolygu'n drylwyr a gwnaed nifer o ddiwygiadau er mwyn ei alinio ymhellach â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau gyda chamau gweithredu newydd yn cael eu hychwanegu a chamau gweithredu presennol yn cael eu hymestyn, gan gynnwys:

- Diwygio neu Derfynu'r CRhA (newydd)
- Derbyn Awdurdod CPLlC newydd i'r Bartneriaeth (newydd)
- Cymeradwyo cyllideb (gan gynnwys gwariant ychwanegol sy'n fwy na 30% o'r gyllideb gymeradwy) a gofynion adnoddau – fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Busnes y Bartneriaeth (wedi'i ymestyn i gynnwys yr elfen gwariant ychwanegol)
- Penodi, terfynu neu amnewid y Gweithredwr (gan gynnwys gwerthusiad caffael neu feini prawf sgorio, contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth) (wedi'i ymestyn i gynnwys terfynu ac amnewid)
- Llunio Datganiad Blynyddol y Bartneriaeth

Mae sawl newid arall hefyd wedi cael eu gwneud a bydd y rhain yn cael eu harchwilio ymhellach yn y CBLl.

Os cânt eu cymeradwyo, bydd y ddwy ddogfen yn cael eu diweddaru ar wefan y Bartneriaeth.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|

**Polisi**

Mae'r Datganiad Credoau a'r Matrics Llywodraethu yn ddogfennau ffurfiol Partneriaeth Pensiwn Cymru.

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

**Datganiad Credoau Partneriaethau Pensiynau Cymru**

Prif amcan Partneriaeth Pensiynau Cymru ('y Bartneriaeth') yw darparu fframwaith fuddsoddi sy'n llwyddo i gael y deilliannau gorau i'w brif fudd-ddeiliaid; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynllun. Yn ogystal, bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i gael gwerth am arian ac arbedion cost i'w fudd-ddeiliaid.

Mae gan y Bartneriaeth y credoau a ganlyn, a defnyddir y rhain i lywio penderfyniadau, polisïau a chynlluniau busnes y Bartneriaeth. Adolygir y credoau hyn bob blwyddyn.

- Swyddogaeth y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu platfform cyd-fuddsoddi lle gellir gweithredu buddion yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i fudd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdodau Lletya a Chyfansoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gallai cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd wrth ddarparu arbedion cost a gwell deilliannau i fudd-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau lliniaru Risg Hinsawdd effeithiol, ynghyd ac ystyriaeth a rheolaeth dystiolaethol o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu arwain at well deilliannau ar gyfer budd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd cost-effeithiol o wella adnoddau, galluoedd ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo gwneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau budd-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo'r Bartneriaeth a'i Awdurdodau Cyfansoddol i esblygu.
- Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cyd-fuddsoddi a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi cronfa gyd-fuddsoddi’r Bartneriaeth i addasu yn y dyfodol, a pharhau i gwrdd â gofynion ei fudd-ddeiliaid.

Fersiwn 1.0
Rhagfyr 2019

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

| | Gweithrediad | Awdurdod Lletya | GS | Awdurdodau Cyfansoddol (Pwyllgorau Pensiwn) | CBLl | Gweithredwr | Ymgynghorydd Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Credoau ac Amcanion** | Credoau, amcanion a strwythur cronfa PPC | N/A | Llunio ac argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA | Cymeradwyo | Cydymffurfio â | Cynghori |
| **Nodau a Chynllun Strategol** | Cynllun Busnes PPC – gan gynnwys cynllun strategol, amcanion ac amserlenni PPC | N/A | Llunio ac argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA SC2) | Cymeradwyo | Cydymffurfio â | Cynghori |
| **Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau, Polisïau** | Manylu ar wneud penderfyniadau, rolau a chyfrifoldebau, strwythur dirprwyo a llywodraethu | N/A | Llunio ac argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA 34.1) | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| | Diwygio neu Derfynu'r CRhA | N/A | Llunio ac argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA | Argymell i CA | N/A | Cynghori |
| | Datblygu egwyddorion llywodraethu a pholisïau PPC | N/A | Llunio ac argymell | N/A | Cymeradwyo | Cydymffurfio â | Cynghori |
| | Derbyn Awdurdod CPLlC newydd i'r PPC | N/A | N/A | Cymeradwyo | N/A | N/A | N/A |
| **Pennu cyllideb, adnoddau a chynllun gwaith** | Cymeradwyo cyllideb (gan gynnwys gwariant ychwanegol sy'n fwy na 30% o'r gyllideb gymeradwy) a gofynion adnoddau - fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Busnes PPC | Llunio | Argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA, SC2) | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| | Cynnal a chadw a dilyniant cynllun gwaith | Gweithredu (CRhA 7) | Argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| **Gweithredu** | Dyrannu asedau strategol | N/A | N/A | Cymeradwyo | N/A | N/A | Ymgynghorwyr lleol |
| | Cytuno ar ofynion is-gronfeydd gan gynnwys lansiadau a therfyniadau, dosbarthiadau asedau, cerbydau (ACS neu arall), amcanion is-gronfeydd a mandad rheolwyr | N/A | Llunio ac argymell | N/A | Cymeradwyo | Gweithredu | Cynghori |
| | Is-gronfa PPC – dethol rheolwyr buddsoddi | N/A | Adolygu | N/A | Adolygu | Llunio a chymeradwyo | Cynghori |
| | Cytuno ar gynlluniau ar gyfer trawsnewid asedau yn gerbydau pŵl | N/A | Llunio ac argymell (CRhA, SC8) | Adolygu a Chymeradwyo (CRhA, SC2) | Argymell (CRhA, SC3) | Gweithredu | Cynghori a monitro gweithrediad |
| | Cytuno ar ofynion a chylch gwaith cyflenwr (e.e. rheolwyr trawsnewid, asiantiaid benthyg stoc, ymgynghorwyr) | Llunio | Argymell | N/A | Cymeradwyo (CRhA, SC3) | N/A | Cynghori |
| | Penodi, terfynu neu amnewid y Gweithredwr (gan gynnwys gwerthusiad caffael neu feini prawf sgorio, contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth) | Gweithredu (CRhA 7.1h) | Argymell | Cymeradwyaeth Ysgrifenedig (CRhA, SC2) | Argymell i CA | N/A | Cynghori |
| | Penodi, terfynu neu amnewid cyflenwyr eraill (gan gynnwys contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth) | Gweithredu (CRhA 7.1h) | Argymell | N/A | Cymeradwyo | Gweithredu | Cynghori |

| | Gweithrediad | Awdurdod Lletya | GS | Awdurdodau Cyfansoddol (Pwyllgorau Pensiwn) | CBLl | Gweithredwr | Ymgynghorydd Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli gwrthdaro | Monitro | Llunio ac argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| **Monitro** | Monitro'r Gweithredwr, gan gynnwys adrodd ar DPA, cyflenwi gwasanaeth, addasrwydd contractau ac ati | Monitro | Adolygu ac argymell unrhyw gamau gweithredu | Cymeradwyo unrhyw newidiadau perthnasol i gontract Gweithredwr | Cymeradwyo ac Argymell unrhyw newidiadau perthnasol i gontract Gweithredwr i CA | N/A | Monitro a chynghori |
| | Perfformiad cyflenwyr eraill | Monitro | Adolygu ac argymell unrhyw gamau | N/A | Cymeradwyo | N/A | Monitro a chynghori |
| | Rheoli Risg | Llunio a monitro | Adolygu ac argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| | Llunio Datganiad Blynyddol PPC | Llunio (**Archwiliad Mewnol**) | Adolygu | N/A | Cymeradwyo (***Signoff* Archwilio Cymru**) | N/A | N/A |
| | Gofynion Darparu Adnoddau, monitro cyllideb a gwerth am Arian | Gweithredu a monitro (CRhA 11) | Adolygu ac Argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |
| | Cydymffurfio â gofynion rheoleiddio (*Gweithredwr yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ei swyddogaethau rheoleiddio ei hun*) | Llunio (CRhA 7.1f) | Adolygu ac argymell | Cydymffurfio â | Cymeradwyo | Cydymffurfio â | Cynghori |
| | Cydymffurfio â pholisïau cytunedig | N/A | Adolygu | Cydymffurfio â | Cymeradwyo | Cydymffurfio â | Cynghori |
| **Adolygu** | Adolygiad rheolaidd o Gyflenwyr | Adolygu | Argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Adolygu a chynghori |
| | Adnabod a dogfennu gwersi a ddysgwyd | N/A | Llunio ac Argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Adolygu a chynghori |
| **Hyfforddiant** | Sgiliau, Gwybodaeth a Hyfforddiant i Swyddogion a CBLl | Llunio | Argymell | N/A | Cymeradwyo | N/A | Cynghori |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyo** | Ystyried argymhellion a chymeradwyo neu gadarnhau |
| **Adolygu** | Asesu a chynnig diwygiadau |
| **Llunio NEU "Datblygu cynnig"** | Casglu data perthnasol yn drefnus a pharatoi cynnig |
| **Argymell** | Amlinellu'r opsiynau a ystyriwyd ac argymell cynnig i'w gymeradwyo |
| **Cynghori** | Cynghori ar neu adolygu opsiynau, asesu gwerth a chynghori'r sawl sy'n gyfrifol am gynigion, argymhellion a chymeradwyaeth |
| **Monitro** | Arsylwi a gwirio cynnydd ac/neu ansawdd |
| **Cydymffurfio â** | Gweithredu ar a chydymffurfio â chynllun, ffordd o weithredu a pholisïau cymeradwy |
| **Gweithredu** | Cyflawni penderfyniad, cynllun neu gytundeb a diwallu rhwymedigaeth |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**10 RHAGFYR 2020**

| ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD |
|---|
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>• **Cymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol sydd wedi'i ddiweddaru**<br>• **Nodi'r Diweddariad Cynnydd Blynyddol, yn cynnwys sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Cymeradwyodd y CBLl y Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) ym mis Medi 2019. Bydd y polisi'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi adolygu'r Polisi BC ac mae angen i'r newidiadau gael eu cymeradwyo gan y CBLl.<br><br>Mae diweddariad cynnydd blynyddol wedi'i gynnwys hefyd sy'n rhoi asesiad manwl o'r cynnydd mae PPC wedi'i wneud tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn ei Bolisi BC a manylion ynghylch sefydlu'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol newydd i PPC. |



| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif Ffôn: 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 10 RHAGFYR 2020

| ADOLYGU'R POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD |
| --- |
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Mae gan PPC Bolisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) a gafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cydbwyllgor ym mis Medi 2019.  Cafodd y polisi cyffredinol ei ddatblygu ar y cyd gan y Bartneriaeth a'i wyth Awdurdod Unigol a chafodd ei fabwysiadu ganddynt i gyd. Ar yr un pryd, roedd yn gadael i'r Awdurdodau Unigol gynnal a datblygu eu polisïau BC eu hunain.<br><br>Cynhaliwyd Adolygiad blynyddol o'r polisi ac fe wnaed nifer o newidiadau i'r polisi i adlewyrchu'r datblygiadau dros y 12 mis diwethaf, yn benodol gyda'r polisïau newydd a gymeradwywyd, a phenodi'r darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae'r Gweithgor Swyddogion / yr Is-grŵp BC yn ffyddiog fod y polisi BC yn addas i bwrpas ac yn parhau i adlewyrchu credoau a strategaeth BC y Bartneriaeth. Mae Polisi BC diweddaredig ynghlwm i chi ei gymeradwyo.<br><br>Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Unigol wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r gwahanol ymrwymiadau polisi, ac mae hyn wedi'i amlinellu yn y papur Adolygiad Blynyddol, sydd hefyd ynghlwm. Mae Atodiad 1 y papur hwn yn rhoi asesiad manwl o'r cynnydd a wnaeth y Bartneriaeth o ran cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn ei bolisi BC. Mae'r papur yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn sawl maes allweddol: Risg Hinsawdd, Pleidleisio ac Ymgysylltu, Hyfforddiant ac Ymgynghori a'r Is-grŵp BC newydd dros y 12 mis diwethaf, a'r cynllun gwaith BC am y 12 mis nesaf.<br><br>Mae PPC hefyd wedi sefydlu Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth i gynorthwyo i gyflawni dyheadau ac ymrwymiadau Buddsoddi Cyfrifol PPC. Gellir gweld cylch gorchwyl y Grŵp yn Atodiad 2 y papur Adolygiad Blynyddol. |

| ADRODDIAD MANWL YNGHLWM? | OES |
| --- | --- |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb | Cyfreithiol | Cyllid | Materion Rheoli Risg | Goblygiadau Staffio |
|---|---|---|---|---|
| **OES** | **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** |

| |
|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| |
| |
| |
| |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

**Polisi Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru**

## 1 Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("PPC") yw'r trefniant pŵlio ar gyfer asedau'r wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru ("Awdurdodau Cyfansoddol").

1.2 Caiff trefniadau buddsoddi PPC eu goruchwylio gan Gydbwyllgor Llywodraethu ("CBLl") ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion ("GS") a'u gweithredu drwy gronfeydd wedi'u pŵlio a gaiff eu rheoli gan ei "Reolwyr Buddsoddi".

1.3 Mae PPC wedi sefydlu Is-grŵp BC i roi trosolwg a chyngor i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor ar ddatblygiad a gweithrediad y polisi hwn. Mae'r Is-grŵp BC yn gweithredu o dan gylch gorchwyl cytunedig.

1.4 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu polisi PPC ar fuddsoddi cyfrifol ar gyfer yr holl asedau sydd wedi'u buddsoddi yn PPC. Datblygwyd y polisi hwn gan PPC mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

1.5 Amcan PPC wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw gallu:

1.5.1 dangos i'w ran-ddeiliaid fod PPC yn Fuddsoddwr Cyfrifol; a

1.5.2 galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i gynhyrchu eu polisïau Buddsoddi Cyfrifol ac Effaith Gymdeithasol eu hunain yn llwyddiannus drwy PPC.

1.6 Mae PPC yn cydnabod bod ystyriaethau buddsoddi cyfrifol yn creu risgiau ariannol o bwys i asedau'r Awdurdodau Cyfansoddol a ddelir o fewn PPC. Mae ystyriaethau o'r fath yn berthnasol i'r modd y buddsoddir asedau'r Awdurdodau Cyfansoddol a sut bydd cyfrifoldebau stiwardiaeth yn cael eu cyflawni.

1.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan PPC yn flynyddol, a phe bai raid, caiff newidiadau i'r polisi eu cynnig i'r CBLl a'r GS a'u cytuno ganddynt. Er mwyn cyfrannu at yr adolygiad hwn o'r polisi, bydd PPC yn ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol neu'n gofyn am eu barn a'u gofynion.

1.8 Wrth ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn, bydd PPC yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ac unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun ("SAB"), y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ("MHCLG") a Llywodraeth Cymru.

## 2 Uchelgais a chredoau

2.1 Uchelgais hirdymor PPC yw arddangos arweinyddiaeth ar ymarferion BC wrth reoli asedau ar gyfer ac ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol. Ar y cyd â'r GS a'r CBLl, bydd PPC yn diweddaru ei gynllun busnes blynyddol i sicrhau bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu darparu i weithredu gofynion y polisi hwn.

2.2 Mae PPC yn cydnabod bod datblygu credoau yn cynrychioli'r arfer orau ar gyfer perchnogion asedau. Mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae PPC wedi datblygu a chytuno ar y credoau buddsoddi cyfrifol a ganlyn sy'n gweithio i danategu ei brosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu.

2.2.1 Rhaid i'r ymddygiadau BC yr ydym yn dymuno eu gweld gan ein holl ran-ddeiliaid gael eu harwain gan PPC;

2.2.2 Mae integreiddio ffactorau ESG, gan gynnwys newid hinsawdd, mewn prosesau buddsoddi yn rhagofyniad ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y potensial am golled ariannol;

2.2.3 Mae PPC yn fwyaf effeithiol fel buddsoddwr yn ymgysylltu am newid o'r tu mewn, yn enwedig mewn cydweithrediad â buddsoddwyr eraill o'r un meddylfryd, yn hytrach nag fel ymgyrchwr, sy'n lobïo am newid o'r tu allan.

2.2.4 Cawn yr effaith fwyaf ar ymddygiadau corfforaethol pan fyddwn yn siarad ag un llais cytûn;

2.2.5 Mae angen i ddata cynhwysfawr gael ei ddatgelu a'i fesur yn glir er mwyn cael trosolwg effeithiol o arferion BC.

2.3 Bydd PPC yn profi'r ymlyniad at y trefniadau buddsoddi y mae'n eu gweithredu yn y credoau hyn ar sail flynyddol. Bydd PPC hefyd yn profi priodoldeb parhaus ei gredoau o dro i dro.

**3 Strategaeth fuddsoddi**

3.1 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol yn unigol am bennu strategaeth fuddsoddi (a strwythur gwaelodol y strategaethau hynny, e.e. ehangder daearyddol) ar gyfer eu cronfeydd eu hunain sy'n adlewyrchu eu proffil aelodaeth a sefyllfa gyllido. Y strategaeth fuddsoddi yw'r rhaniad lefel uchel rhwng dosbarthiadau o asedau gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ecwiti, dyled, eiddo ac isadeiledd. Rôl PPC yw darparu modd i bob Awdurdod Cyfansoddol weithredu'r strategaeth mae wedi cytuno arni.

3.2 Mae PPC yn annog yr Awdurdodau Cyfansoddol yn agored i ddatblygu eu polisi BC eu hunain fel rhan o'u strategaeth fuddsoddi. Mae PPC wedi datblygu'r polisi BC hwn, ac efallai y bydd yn ei addasu o dro i dro, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisïau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

3.3 Bydd PPC yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hirach. Bydd PPC yn defnyddio’r wybodaeth hon i flaenoriaethu datblygiad a lansiad datrysiadau/cronfeydd buddsoddi yn y dyfodol o fewn PPC.

3.4 Ynghyd â'i ymgynghorwyr, bydd PPC hefyd yn ystyried cyfleoedd a gyfyd o well dealltwriaeth o ffactorau ESG. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys strategaethau ar thema effaith a/neu gynaliadwyedd, yn ogystal â buddsoddiadau manteisiol cymdeithasol. Mae'n bosib y bydd PPC yn cynnig cyfleoedd o'r fath yn uniongyrchol i'w hystyried gan Awdurdodau Cyfansoddol, gan gynnwys strategaethau sydd naill ai'n cwrdd â gofynion buddsoddi cyfrifol Awdurdodau Cyfansoddol neu sydd â'r potensial i gyflwyno manteision i'r rhanbarthau sy'n ffurfio'r Awdurdodau Cyfansoddol.

**4 Newid hinsawdd**

4.1 Mae newid hinsawdd yn creu risg systemig a allai effeithio ar economi, adenillion ariannol a demograffeg. Gallai'r risgiau sy'n deillio o newid hinsawdd godi o ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol, llywodraethu neu ffactorau eraill ac maent yn syrthio i'r categorïau canlynol fel arfer:

4.1.1 Risgiau ffisegol, megis difrod i eiddo oherwydd llifogydd neu wlybaniaeth is yn achosi cynhaeaf gwael;

4.1.2 Risgiau trawsnewid, sef y risgiau ariannol sy'n deillio o newidiadau mewn polisi a thechnoleg i ymaddasu i economi carbon is; a

4.1.3 Risgiau atebolrwydd, sef y costau posib a gyfyd gan bartïon sydd wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd newid hinsawdd sy'n ceisio cael iawndal gan y rhai maent yn eu dal yn gyfrifol.

4.2 Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fwyfwy gan gyrff rheoleiddio a deddfwyr fel mater y mae'n rhaid i berchnogion asedau a rheolwyr asedau roi sylw pendant iddo. Mae'r ansicrwydd sy'n codi o newid hinsawdd yn golygu bod goblygiadau i Awdurdodau Cyfansoddol drwy'r buddsoddiadau a wneir o fewn PPC.

4.3 Bydd PPC yn ymgysylltu â'i ddarparwyr i sicrhau bod modd datblygu mecanwaith cyffredin i fonitro risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC. Drwy hyn, mae PPC yn bwriadu darparu cefnogaeth i Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu a gweithredu eu polisïau rheoli risgiau hinsawdd eu hunain.

4.4 Drwy ei ddirprwyon, bydd PPC yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Ymwneud â Hinsawdd.

4.5 Mae ymagwedd mwy cyffredinol PPC at ymdrin â'r risg hinsawdd i'w weld yn ei bolisi risg hinsawdd.

**5 Eithriadau**

5.1 Nid yw PPC wedi mabwysiadu polisi o arferion gwaharddol o fewn ei bortffolios rheolwr gweithredol gwaelodol. Fodd bynnag, mae PPC yn cydnabod y gallai'r Awdurdodau Cyfansoddol fabwysiadu polisi gwaharddol yn unigol.

5.2 Mae PPC yn cydnabod bod rheolaeth fuddsoddi actif yn ei hanfod yn waharddol ac felly, mae'n disgwyl y bydd pob rheolwr buddsoddi a gyflogir o fewn PPC yn rhoi ystyriaeth briodol i risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau o fewn eu portffolios unigol.

5.3 Mae'r gallu gan Awdurdodau Cyfansoddol i fuddsoddi mewn strategaethau goddefol neu rai eraill sy'n seiliedig ar reolau drwy Reolwr Buddsoddi goddefol PPC fydd efallai'n dilyn dull gwaharddol.

**6 Gweithredu'r strategaeth**

6.1 Mae PPC yn disgwyl i'r Rheolwyr Buddsoddi a gaiff eu cyflogi i reoli asedau PPC, ystyried risgiau ESG fel rhan o'u proses ddadansoddi a gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau. Mae PPC hefyd yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi allu arddangos a thystiolaethu safonau uchel yn y modd maent yn integreiddio ystyriaethau buddsoddi cyfrifol. Os bydd raid, bydd PPC neu ei ddirprwyon yn ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi sy'n methu â bodloni disgwyliadau PPC i gytuno ar gynllun i ymdrin ag unrhyw ddiffygion.

6.2 Ym mhob amgylchiad perthnasol, mae PPC yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol ("PRI") a Chod Stiwardiaeth y DU gan y Cyngor Adrodd Ariannol ("FRC").

6.3 Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwyr Buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a bod modd tystiolaethu'n briodol y dull a ddefnyddiwyd i reoli ffactorau ESG. Mae PPC yn disgwyl i brosesau o'r fath ymestyn tu hwnt i ddibyniaeth lwyr ar raddau/data trydydd parti.

6.4 Mae PPC yn cydnabod dylanwad meincnodau ar y dewis o asedau o fewn mandadau yn seiliedig ar reolau neu fandadau tracio mynegai a reolir. Lle bo'n briodol, bydd PPC yn gweithio gyda'i Reolwyr Buddsoddi ac Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod goblygiadau posib ac effaith ffactorau ESG ar wahanol agweddau wedi'u deall yn briodol.

## 7 Stiwardiaeth

7.1 Mae PPC yn credu y gallai methu ag arfer hawliau pleidleisio neu hawliau eraill sydd ynghlwm ag asedau fod yn groes i fuddion buddiolwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC hefyd yn credu bod ymgysylltu'n llwyddiannus â chwmnïau sy'n buddsoddi yn gallu diogelu ac ehangu gwerth hirdymor buddsoddiadau Awdurdodau Cyfansoddol o fewn PPC.

7.2 Mae PPC wedi penodi darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ("y darparwr PacY") i gynnal proses bleidleisio trwy ddirprwy ar yr holl gyfranddaliadau a ddelir yn is-gronfeydd PPC, ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau ar ran PPC.

### Pleidleisio

7.3 Mae PPC wedi cytuno ar bolisi pleidleisio gyda'r darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am fwrw pleidleisiau ar ran PPC. Mae Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth ynghlwm yn Atodiad 1.

7.4 Mae PPC yn cydnabod y gall ei Reolwr Buddsoddi goddefol fabwysiadu polisi pleidleisio sengl ar draws eu cronfeydd wedi'u pŵlio a bydd PPC yn adolygu priodoldeb polisi o'r fath bob hyn a hyn. Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwr Buddsoddi goddefol a'r Darparwr PacY i ystyried sut y gellir ymestyn polisi pleidleisio PPC i asedau a reolir gan ei Reolwr Buddsoddi goddefol.

7.5 Bydd PPC yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy’n achosi pryder gyda’i Ddarparwr PacY, Rheolwyr Buddsoddi neu ddirprwyon eraill, yn ôl y gofyn.

7.6 Bydd PPC yn adolygu'r polisi pleidleisio ar y cyd â'i Ddarparwr PacY, ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol.

7.7 Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn aelodau o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol ("LAPFF"). Fel aelodau, bydd Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn Rhybuddion LAPFF pan fydd ymgyrch i bleidleisio mewn ffordd benodol. Mae PPC a'i Awdurdodau Cyfansoddol wedi rhoi cyfarwyddyd i'w Ddarparwr PacY roi ystyriaeth i bob Rhybudd LAPFF o'r fath, ac i bleidleisio yn unol â'r Rhybudd LAPFF, os yw'r Darparwr yn ystyried bod hynny'n briodol.

**Benthyca stoc**

7.8 Mae PPC wedi cytuno y bydd benthyca stoc yn cael ei ganiatáu o fewn cronfeydd pŵl PPC sy'n cael eu rheoli'n actif, yn amodol ar ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol yng nghyswllt pob is-gronfa waelodol ar adeg eu sefydlu. Fodd bynnag, ni fydd PPC yn benthyca 100% o'r daliad mewn unrhyw stoc sengl felly gall PPC fynegi ei farn a gwneud safbwynt polisi ar unrhyw bwnc mae'n ei ystyried yn deilwng drwy ei hawl i bleidleisio.

7.9 Mae PPC yn cydnabod y gallai benthyca stoc atal ei bolisi pleidleisio rhag cael ei gymhwyso'n llawn gan na fydd pleidleisiau efallai'n cael eu bwrw ar stoc wedi'i fenthyca. Bydd PPC yn parhau i fonitro effaith y safbwynt polisi hwn dros amser ac yn adolygu ei bolisi os oes angen. Mae PPC hefyd yn cadw'r hawl i ad-alw stoc, petai angen, fel rhan o'i drefniadau benthyca stoc.

**Ymgysylltu â chyfranddalwyr**

7.10 Mae PPC yn cydnabod y manteision ehangach o ymgysylltu ar amrywiaeth o faterion thematig, ac mae wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i wneud yr ymgysylltu ar ei ran. Mae PPC wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion ymgysylltu gyda'r Darparwr PacY a chaiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol.

7.11 Mae PPC yn mabwysiadu dull ar sail tystiolaeth o asesu gweithgarwch ymgysylltu. Bydd PPC yn derbyn adroddiad chwarterol ar y gweithgarwch ymgysylltu a wnaed gan y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy’n achosi pryder gyda’r Darparwr PacY.

7.12 Mae PPC hefyd yn ystyried, mewn rhai achosion, bod ei Reolwyr Buddsoddi mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â rheolwyr cwmnïau sy'n buddsoddi oherwydd bodolaeth perthnasau ymchwil rhwng y rheolwyr a'r cwmnïau buddsoddi tu ôl iddynt. Mewn achosion o'r fath, mae PPC yn disgwyl y bydd gweithgarwch ymgysylltu yn digwydd trwy'r berthynas hon ac y dylai ei reolwyr allu dangos, pan gânt eu herio, y rheswm am unrhyw weithgarwch ymgysylltu ac amcanion yr ymgysylltu hwnnw. Bydd PPC yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar unrhyw ymgysylltu a wnaed gan ei Reolwyr Buddsoddi.

## 8 Cydweithio

8.1 Mae PPC yn credu bod gan gydweithio rôl bwysig i helpu'r PPC gyflawni ei amcanion BC. Ar y cyd â'i Ddarparwr PacY, bydd PPC yn asesu cyfleoedd cydweithio posib yn barhaus a bydd yn hysbysu ac yn gofyn am fewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n tybio sy'n berthnasol.

8.2 Mae PPC ynghyd â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn aelodau o'r Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol ("LAPFF"). Mae LAPFF yn ymgysylltu â chwmnïau ar ran ei holl aelodau.

8.3 Mae gan PPC uchelgais i gydweithio gyda buddsoddwyr a chyrff cynrychioladol eraill sydd o'r un meddylfryd er mwyn gwneud y mwyaf o ddylanwad asedau PPC ar gwmnïau sy'n buddsoddi. Ynghyd â'i Ddarparwr PacY, bydd PPC yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediad buddsoddi cyfrifol, a arweinir gan fuddsoddwyr, y gall eu cefnogi'n frwd.

8.4 Bydd PPC yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu cydweithredol neu eu cefnogi pan ystyrir eu bod er budd ariannol cyffredinol gorau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

8.5 Pan geir unrhyw gyfle addas, bydd PPC yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio BC traws-gronfa.

**9 Monitro, Adrodd a Mesur**

9.1 Nod PPC yw bod yn ymwybodol o risgiau a materion ariannol o bwys sy'n ymwneud ag ESG mewn asedau PPC, a'u monitro. Drwy ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a'r Rheolwyr Buddsoddi, bydd PPC yn datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer portffolios presennol ac yn cytuno ar fetrigau priodol yng nghyswllt pob portffolio newydd. Disgwylir i fetrigau o'r fath gynnwys elfennau risg sy'n ymwneud â hinsawdd. Bydd PPC angen i reolwyr gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadroddiadau chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol.

9.2 Mae'n ofynnol gan PPC bod cymwysterau buddsoddi cyfrifol pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd PPC yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi.

9.3 Bob blwyddyn bydd PPC yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn cyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.

**10 Arall**

10.1 Mae PPC yn cydnabod yr angen am addysg barhaus i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar ystod eang o faterion buddsoddi, gan gynnwys buddsoddi cyfrifol. Fel rhan o'i Gynllun Hyfforddiant Blynyddol, bydd PPC yn sicrhau bod o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.

10.2 Mae PPC yn ymchwilio, a bydd yn gofyn am arweiniad gan Awdurdodau Cyfansoddol, ar p'un a ddylai fod yn llofnodwr i'r PRI a Chod Stiwardiaeth y DU wedi'i ddiweddaru gan FRC. Bydd PPC hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei gredoau BC a'i fecanweithiau monitro a mesur.

10.3 Mae PPC yn disgwyl i bob rheolwr buddsoddi a gyflogir ar ran PPC ddatgelu costau yn unol â Chod Tryloywder SAB.

10.4 Bydd PPC yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus.

**11 Gwybodaeth Bellach**

11.1 Os oes arnoch angen rhagor o fanylion ar y Polisi BC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk ac ewch ar wefan PPC.

Tachwedd 2020

**Geirfa**

Ymgysylltu yn cyfeirio at y broses o ryngweithio rhwng buddsoddwr (neu ei ddirprwy) a rheolwyr cwmni sy'n buddsoddi gyda'r nod o greu newid yn y modd y mae'r cwmni gwaelodol yn cael ei reoli neu ei lywodraethu.

ESG yn cael ei ddefnyddio'n gyfunol i ddisgrifio cyfres o wahanol ffactorau risg sy'n codi o faterion Amgylcheddol (e.e. prinder adnoddau, rheoli gwastraff, llygredd, effeithlonrwydd ynni), Cymdeithasol (e.e. iechyd a diogelwch, amrywiaeth yn y gweithlu, amodau gwaith, diogelu data) a Llywodraethu (e.e. strwythur y bwrdd, moeseg busnes, hawliau cyfranddalwyr, iawndal gweithredol).

Effaith yn derm a ddefnyddir yn gyffredinol i ddisgrifio'r deilliant cymdeithasol neu amgylcheddol sy'n codi o fuddsoddiad neu benderfyniad buddsoddi penodol, sy'n wahanol i'r deilliant ariannol cysylltiedig.

Rheolwyr Buddsoddi yn cyfeirio at y rheolwyr buddsoddi hynny a benodir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan PPC er dibenion rheoli asedau ar ran PPC.

Gweithredwr yn golygu Link Fund Solutions fel gweithredwr penodedig y Cynllun Cytundebol wedi'i Awdurdodi a ddefnyddir i weithredu is-gronfeydd i PPC.

Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol sef rhwydwaith byd-eang o berchnogion asedau, rheolwyr asedau a darparwyr gwasanaeth sydd â'r nod o ymestyn arferion buddsoddi cyfrifol.

Asiant Pleidleisio drwy Ddirprwy yn golygu endid a gyfarwyddir i gynghori ar ddatrysiadau a/neu i fwrw pleidleisiau arnynt ar ran perchennog ased.

Buddsoddi cyfrifol yn cyfeirio at arferion buddsoddi sy'n integreiddio'r ystyriaeth o ffactorau ESG mewn prosesau rheoli buddsoddiadau ac arferion perchnogaeth, gan gydnabod y gallai'r ffactorau hyn gael effaith o bwys ar berfformiad ariannol.

Stiwardiaeth yn disgrifio gweithgareddau buddsoddwyr wrth arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â pherchnogaeth asedau. Gallai'r arferion hyn gynnwys pleidleisio ar gyfranddaliadau ac ymgysylltu â rheolwyr cwmni ond maent hefyd yn cynnwys goruchwylio'r rhai y dirprwyir cyfrifoldebau o'r fath iddynt.

Cod Stiwardiaeth y DU – cyfres o egwyddorion a darpariaethau a gynhyrchir gan *y Financial Reporting Council* sy'n amlinellu'r arfer gorau mewn gweithgarwch stiwardiaeth gan Berchnogion Asedau a Rheolwyr Asedau.

Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r CU – cyfres o 17 amcan byd-eang ar gyfer 2030 a sefydlwyd gan Gynulliad Cyffredinol y CU yn 2015.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Partneriaeth Pensiwn Cymru: Polisi Buddsoddi Cyfrifol - Adolygiad Blynyddol

### Trosolwg

Pwrpas y papur hwn yw amnellu'r ymrwymiadau y mae'r Bartneriaeth wedi'u gwneud yn ei Bolisi Buddsoddi Cyfrifol a sut mae'r Bartneriaeth wedi bwrw ymlaen at gyflawni'r ymrwymiadau hyn. Mae'r polisi hefyd yn ymdrin ag adolygiad blynyddol Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth ac yn trafod addasrwydd parhaus y polisi.

Ddylid ystyried y papur hwn fel "Haen 3 - Gweithredu" & "Haen 4 - Monitro ac Adolygu" o ran fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth. Y bwriad yw adolygu cynnydd Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth dros y 12 mis diwethaf ac ystyried y camau gweithredu y gallai bod angen amdanynt yn y dyfodol i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gweithredu ac yn glynu at ei ymrwymiadau Buddsoddi Cyfrifol yn llawn.

Ni ddylid rhyddhau'r papur hwn na'i ddatgelu fel arall i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym ni, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu oblygiad rheoleiddio. Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall oni bai ein bod wedi derbyn atebolrwydd o'r fath yn ysgrifenedig yn benodol.

### Cefndir

Ym mis Medi 2019, bu i Gydbwyllgor Llywodraethu ('CBLl') Partneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'/'y Bartneriaeth') gymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol ('BC') PPC yn ffurfiol. Cafodd y polisi cyffredinol ei ddatblygu ar y cyd gan y Bartneriaeth a'i wyth Awdurdod Cyfansoddol a chafodd ei fabwysiadu ganddynt i gyd.  Ar yr un pryd, roedd yn gadael i Awdurdodau Cyfansoddol unigol gynnal a datblygu eu polisïau BC eu hunain. Mae'r Polisi yn cynrychioli'r amrediad eang o gredoau buddsoddi o fewn y Pŵl. Mae'r Polisi yn uchelgeisiol ei natur ac yn adlewyrchu dyhead y Bartneriaeth i fod yn arweinydd BC. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r ymrwymiadau polisi amrywiol.

### Cynnydd yn Erbyn Ymrwymiadau

Mae Atodiad 1 yn rhoi asesiad manwl o gynnydd y Bartneriaeth o ran cyflawni ymrwymiadau ei bolisi BC. Fel y gwelwch, mae'r Bartneriaeth wedi sicrhau bod cynnydd wedi cael ei wneud ar yr holl ymrwymiadau a'u bod wedi'u gweithredu yn ystod y flwyddyn. Yn benodol, dymunai'r Bartneriaeth dynnu sylw at y cynnydd y mae wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf yn y meysydd a ganlyn:

### Polisi Risg Hinsawdd

Nododd Polisi BC y Bartneriaeth y byddai'r Bartneriaeth yn ymgynghori ymhellach gydag Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o ddatblygu polisi risgiau hinsawdd yn benodol ar gyfer PPC. Bu i'r Bartneriaeth fwrw ymlaen i ymgynghori ym mis Ionawr 2020, a bu iddo ymgysylltu â phob Awdurdod Cyfansawdd i ddeall credoau ac amcanion Risg Hinsawdd lleol. Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol hwn, bu i Weithgor Swyddogion ('GS') y Bartneriaeth lunio Polisi Risg Hinsawdd PPC a oedd yn amlinellu credoau cysylltiedig â hinsawdd y Bartneriaeth a'r strategaeth fyddai'n cael ei mabwysiadu a'i gweithredu i reoli'r risg hinsawdd.  Roedd hefyd yn amlinellu sut y bydd y Bartneriaeth yn monitro ac yn adrodd ar y Risg Hinsawdd. Bu i'r CBLl ystyried a chymeradwyo Polisi Risg Hinsawdd PPC yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2020.

### Pleidleisio ac Ymgysylltu

Cred y Bartneriaeth y dylai stiwardiaeth effeithiol, ynghyd ag ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'u rheoli ar sail tystiolaeth, arwain at well canlyniadau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. Felly, roedd y Bartneriaeth wedi adnabod yr ymarferiad caffael ac wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu fel eitem

cynllun gwaith hanfodol i fwrw ymlaen ag ef yn ystod 2020. Ar 12 Mawrth 2020, bu i'r CBLl gymeradwyo penodiad Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC.

Mae Robeco wedi cael y dasg o helpu'r Bartneriaeth i lunio'i Bolisi Pleidleisio, gan gymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol y Bartneriaeth ac yn adrodd i'r Bartneriaeth a'r Cronfeydd sylfaenol. Yn ogystal, mae Robeco yn cynorthwyo'r Bartneriaeth gyda'i Egwyddorion Ymgysylltu ac mae'n ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth. Mae penodiad Robeco yn darparu tystiolaeth o gyflawniad parhaus y Bartneriaeth mewn perthynas â'i ymrwymiadau yn ei Bolisi Buddsoddi Cyfrifol a'i addewid i weithredu ei hawliau pleidleisio yn unol â buddion ei ran-ddeiliaid ac ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi i gyfoethogi gwerth hirdymor buddsoddiadau'r Awdurdodau Cyfansoddol yn y Bartneriaeth.

### Hyfforddiant ac Ymgynghori

Mae PPC yn cydnabod bod hyfforddi ac ymgysylltu yn hanfodol i gyflawni deilliannau da i'w ran-ddeiliaid ac mae wedi dyrannu adnoddau i sicrhau ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant ac ymgysylltu rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â BC. Ym mis Mawrth 2020, bu i'r Bartneriaeth lunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol PPC a oedd yn seiliedig ar ofynion hyfforddi'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fel rhan o'i gynllun hyfforddi ar gyfer 2020/21, mae'r Bartneriaeth wedi cynnal sesiynau hyfforddi ar fetricsau perfformiad BC ac ar gyfleoedd cydweithio. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Bartneriaeth ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol yn ymwneud â'r risg hinsawdd ar gyfer ei holl ran-ddeiliaid ac fe hwylusodd dri sesiwn hyfforddi penodol ar Bleidleisio ac Ymgysylltu.

Yn ychwanegol, roedd y Bartneriaeth wedi ymrwymo i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf bob blwyddyn i bennu ei ofynion buddsoddi unigol a'i ddyheadau mwy hirdymor ar BC a'r Risg Hinsawdd. Yn Ch3 2020, bu i'r Bartneriaeth fynd ati i lunio mecanwaith y gallai ei ddefnyddio i asesu gofynion a dyheadau'r Awdurdodau Cyfansoddol - cyflwynwyd 'Holiadur Dyheadau a Gofynion Blynyddol PPC' i'r CBLl, GS, Pwyllgorau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol a Chadeiryddion Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol ym mis Hydref 2020.

### Is-Grŵp BC

Yn Ch3 2020, bu i PPC gynnig bod Is-Grŵp PPC penodol yn cael ei ffurfio. Bydd yr Is-grŵp BC yn cymryd perchnogaeth o ffrydiau gwaith cysylltiedig â BC a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym Mholisïau BC a Risg Hinsawdd PPC - bydd hyn yn cynnwys;

- Gweithio gyda rheolwyr buddsoddi penodedig PPC, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth eraill i sicrhau bod polisïau buddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd yn cael eu gweithredu'n effeithiol;
- Datblygu arferion i fonitro ac adrodd am faterion buddsoddi cyfrifol i gyflawni ymrwymiadau PPC tuag at ei ran-ddeiliaid;
- Monitro gweithgarwch buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys metricsau ESG a chofnodion pleidleisio ac ymgysylltu a darparu neu gyfarwyddo her fel bo'r angen;
- Ystyried datblygiadau'r farchnad a rheoleiddio i sicrhau bod modd i'r Bartneriaeth ystyried yr arferion gorau sy'n esblygu; ac
- Ymgysylltu â Chronfeydd CPLIL, Pŵl CPLIL, Perchnogion Ased a phartïon eraill fel bo angen er mwyn cyflawni nodau PPC ar gydweithio.

Bydd y Grŵp yn adrodd i'r GS a'r CBLl ac yn eu cynghori ar unrhyw newidiadau i bolisïau PPC neu i'r dull gweithredu a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau y gellir bodloni nodau PPC. Gweler 'Cylch Gorchwyl' llawn y grŵp yn Atodiad 2.

### Meysydd ffocws i'r dyfodol

Yn dilyn adolygiad o'r Polisi BC a'r adborth gan Awdurdodau Cyfansoddol, mae GS PPC / Is-Grŵp BC wedi adnabod y meysydd ffocws a ganlyn;

1. Cwblhau'n derfynol a chynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd
2. Bwrw ymlaen â'r *FRC UK Stewardship Code Signatory Status*
3. Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau lleiaf ESG / BC
   - 3.1. Ystyried a llunio dull sy'n seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad - a allai gynnwys eithriadau, mandadau neu fynegai sy'n canolbwyntio ar ESG / Ecwiti Cynaliadwy / Ymwybyddiaeth o'r Hinsawdd
4. Gweithio â Robeco i fireinio gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu PPC a'r gofynion adrodd
5. Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch eu dyheadau hinsawdd gyda'r bwriad o ymchwilio i ddichonolrwydd llunio dyhead sy'n ymestyn ar draws y pŵl

### Cynllun gwaith Buddsoddi Cyfrifol

Yn ystod cwrs cynllun busnes nesaf PPC (2021/2022), argymhellir bod y ffrydiau gwaith Buddsoddi Cyfrifol a ganlyn yn cael eu bwrw ymlaen.

| Eitem Cynllun Gwaith BC | Gwaith i'w gwblhau | Amserlen | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **1** | Cychwyn Adrodd am BC a Risg Hinsawdd PPC | Ch1 2021 | Trafodir adroddiad drafft yn seiliedig ar ffigyrau 30 Medi gyda'r Is-grŵp BC ym mis Ionawr 2021 |
| 2 | Cwblhau'r Gofynion Adrodd ar Bleidleisio ac Ymgysylltu yn derfynol | Ch2 2021 | Bydd yr Is-grŵp BC yn cwrdd â Robeco i drafod y mater ym mis Ebrill/Mai. Bydd yr Is-grŵp BC yn defnyddio'r cyfle hwn i gynnal adolygiad cychwynnol o weithrediad Robeco o Weithgareddau Polisi Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC. |
| 3 | Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch safonau lleiaf ESG / BC | Ch2 2021 | Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn Ch1 2020, a rhagwelir y bydd yn brosiect hirdymor fydd yn gofyn am hyfforddiant a chyfradd gynnydd sefydlog, gan bod yr holl Awdurdodau Cyfansoddol yn cychwyn o fan gwahanol. Eir i'r afael â diweddariad ar y cynnydd cychwynnol a'r camau nesaf posib yn Ch2 2020. |
| 4 | Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol PPC | Ch3 2021 | Bydd hyn yn cael ei ddylunio i fodloni'r Gofynion FRC UK Stewardship. Os bydd yn cael ei gymeradwyo, dylai PPC dderbyn cadarnhad o'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *Stewardship Code Signatory Status* erbyn diwedd 2021. |
| 5 | Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch eu dyheadau hinsawdd | Ch3 2021 | Bydd yr ymgynghoriad yn bwrw ymlaen o ddifri yn Ch3 ac erbyn hynny bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol wedi cael cyfle i ystyried eu sefyllfa yn dilyn cyhoeddiad Adroddiad BC ac AC PPC yn Ch2. Bydd y gwaith o gasglu data cychwynnol yn bwrw ymlaen yn gynnar yn 2021. |

### Adolygiad a Chasgliadau'r Polisi BC

Ers i Bolisi BC PPC ei arwyddo'n derfynol gan y CBLI, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn gweithio'n galed i fodloni a chyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Polisi ac mae wedi gwneud cynnydd arwyddocaol tuag at gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

Mae'r GC / Is-grŵp BC PPC wedi cwblhau adolygiad blynyddol Polisi BC PPC. Mae'r Grŵp wedi adnabod addasiadau gofynnol i'r Polisi - mae'r newidiadau yn adlewyrchu'r cynnydd cysylltiedig â BC y mae'r Bartneriaeth wedi'i wneud dros y flwyddyn a fu, sydd wedi cynnwys;

- Penodiad Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC
- Llunio Polisi Pleidleisio a Pholisi Risg Hinsawdd PPC
- Cychwyn gweithgareddau ymgysylltu unedig PPC
- Sefydlu Is-grŵp BC PPC

Mae’r Gweithgor Swyddogion / yr Is-grŵp BC yn ffyddiog fod y polisi BC yn addas i bwrpas ac yn parhau i adlewyrchu credoau a strategaeth BC y Bartneriaeth. Gweler fersiynau glân a fersiynau marcio newidiadau y Polisi BC PPC diwygiedig ym mhecyn cyfarfod y CBLI.

Mae'r GC / Is-grŵp BC wedi adnabod nifer o feysydd ffocws i'r dyfodol y bydd PPC yn eu hystyried ac yn eu bwrw ymlaen cyn Adolygiad Blynyddol Polisi BC PCC 2021. Mae'r ardaloedd ffocws hyn wedi'u hymgorffori yng Nghynllun Gwaith BC PPC ar gyfer 2021/2022 ac maent yn seiliedig ar yr ymatebion i Ofynion Awdurdod Cyfansoddol Blynyddol PPC a'r holiadur Dyheadau.

Edrychwn ymlaen at drafod hyn â chi,

Paratowyd gan:

Simon Jones, Partner a Phennaeth Buddsoddi Cyfrifol

Andrew Johnston, Partner

Fraser Hope, Dadansoddwr Buddsoddi

Ar gyfer ac ar ran Hymans Robertson LLP

## Atodiad 1: Cynnydd yn Erbyn Ymrwymiadau

### Strategaeth fuddsoddi

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Bydd PPC yn ymgynghori gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hirach. | Datblygu mecanwaith ar gyfer asesu gofynion a dyheadau AC. | - | - | Bu i'r Bartneriaeth ddatblygu holiadur dyheadau a gofynion blynyddol a gyflwynwyd i'r CBLl, GS, Pwyllgorau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol a Chadeiryddion Byrddau Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol. | |
| 2 | Bydd PPC hefyd yn ystyried cyfleoedd a gyfyd o well dealltwriaeth o ffactorau ESG. | Mae angen i PPC adolygu cynaladwyedd cyfleoedd yn rheolaidd, megis effaith ac/neu strategaethau gyda thema cynaliadwyedd iddynt, ynghyd â buddsoddiadau manteisiol yn gymdeithasol. | Ch1 2021 | Link/ Russell | Mae PPC yn ystyried ffactorau ESG a buddsoddiadau effaith fel rhan o'i drafodaethau Marchnadoedd Preifat.<br><br>Bydd PPC yn gofyn i LINK/Russell gynhyrchu 'Papur Cyfleoedd' blynyddol ar gyfer PPC; bydd yn adlewyrchu datblygiadau / cynigion ESG dros y flwyddyn a fu.<br><br>Bydd Is-grŵp BC PPC yn defnyddio'r papur hwn, ynghyd â'r adborth a dderbyniwyd o'r holiadur dyheadau a gofynion, i ystyried cyfleoedd o fewn is-gronfeydd presennol; bydd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys mandadau ychwanegol, EPI ac addasrwydd parhaus meincnodau'r is-gronfeydd. | |

## Newid hinsawdd

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Bydd PPC yn ymgysylltu â'i ddarparwyr i sicrhau bod modd datblygu mecanwaith cyffredin i fonitro risgiau'n gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC. | Mae PPC angen datblygu dull o fonitro'r Risg Hinsawdd. | Ch2 2021 | Is-Grŵp BC | Mae'r GC / Is-grŵp BC wedi adnabod rhestr fer o fetricsau risg hinsawdd y dylid eu monitro. Mae dull a diwyg ar gyfer cyflwyno'r metricsau hyn wedi'i lunio eisoes ac mae PPC yn ceisio adrodd yn gyhoeddus ar y metricsau hyn gydag Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol PPC. | |
| 4 | Drwy ei gyflenwyr, bydd PPC yn annog pob cwmni sy'n buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â Hinsawdd. | Mae PPC angen ymgysylltu â phob cwmni sy'n buddsoddi a'u hannog i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n ymwneud â Hinsawdd. | Ch4 2020 | Robeco | Dylid cynnal y gweithgarwch ymgysylltu hwn drwy Robeco a Russell. Ar hyn o bryd, mae PPC yn gweithio â Robeco i lunio ei egwyddorion ymgysylltu ond dylai hefyd ymgysylltu â Russell ar y pwnc hwn. | |
| 5 | Wrth ddatblygu ei agwedd barhaus at fuddsoddi cyfrifol, bydd PPC yn ymgynghori ymhellach gydag Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o ddatblygu polisi risgiau hinsawdd yn benodol ar gyfer PPC. | Mae PPC angen gweithio â'r Awdurdodau Cyfansoddol i lunio Polisi Risg Hinsawdd. | - | - | Mae'r Polisi wedi'i lunio ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol gan y CBLI ym mis Gorffennaf. | |

## Gweithredu'r strategaeth

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Mae PPC yn disgwyl y bydd pob rheolwr buddsoddi a gyflogir o fewn PPC yn rhoi ystyriaeth briodol i risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau o fewn eu portffolios priodol. | Datblygu a chyfundrefnu cyfres o safonau derbynion a monitro Rheolwyr yn eu herbyn. | Parhaus | Link & Russell | Mae Link/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a risgiau ESG eraill yn eu penderfyniadau.<br><br>Yna, dylid adeiladu elfen o adrodd ar gydymffurfiaeth y Rheolwr at y safonau hyn yn rhan o adroddiadau perfformiad presennol PPC gan Link/Russell.<br><br>Bydd yr Is-grŵp BC PPC a sefydlwyd yn ddiweddar yn gyfrifol am fonitro Russell a rheolwyr buddsoddi gwaelodol i'r graddau y maent wedi integreiddio Risg Hinsawdd ac ystyriaethau ESG i'r portffolios y maent yn eu rhedeg ar ran PPC. | |
| 7 | Ym mhob amgylchiad perthnasol, mae PPC yn disgwyl i'w Reolwyr Buddsoddi fod yn llofnodwyr i'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol ("PRI") a Chod Stiwardiaeth y DU gan y Cyngor Adrodd Ariannol ("FRC"). | Adolygu p'un a yw Rheolwyr PPC yn llofnodwyr. Dylai rheolwyr nad ydynt yn llofnodwyr egluro eu sefyllfa. | Ch1 2021 | Russell & Link | Dylai Lik/Russell ddarparu adroddiad blynyddol ar y rhestr o reolwyr cyffredinol ac adrodd yn ôl i'r GS ynghylch pa reolwyr sydd / sydd ddim yn llofnodwyr a, lle bo'n berthnasol, eu hasesiad o'r graddfeydd.<br><br>Dylid rhoi eglurhad clir am unrhyw reolwyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion. | |

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Mae PPC wedi cytuno i edrych ar y posibilrwydd o gyflogi un darparwr ymgysylltu ar y cyd ag ystyried asiant pleidleisio drwy ddirprwy. | Ystyried y gofyn am Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a chaffael un os oes angen. | Cwblhawyd | GS | Penodwyd Robeco ym mis Mawrth 2020. | |
| 9 | Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwr Buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio PPC i asedau a reolir gan ei Reolwr Buddsoddi goddefol. | Datblygu Polisi Pleidleisio PPC ac ymgysylltu â Robeco a BlackRock ar ei weithrediad. | Cwblhawyd | Robeco | Mae Robeco wedi gweithio ar y cyd â PPC i lunio Polisi Pleidleisio PPC.<br><br>Mae Robeco eisoes wedi mynegi eu parodrwydd i weithredu polisi ymgysylltu PPC mewn perthynas â daliadau goddefol PPC. | |
| 10 | Bydd PPC yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau na chafodd eu bwrw ac esboniadau lle na chafodd pleidleisiau eu bwrw yn unol â'r egwyddorion cytunedig ar sail chwarterol. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'r Rheolwyr Buddsoddi. | Mae angen adroddiad pleidleisio chwarterol ar gyfer y Pŵl a'r AC. | Ch2 2021 | Robeco | Mae adroddiadau pleidleisio chwarterol yn rhan o gylch gwaith Robeco. Dylai'r rhain fod ar gael yn y chwarter yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol Polisi Pleidleisio PPC. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Bydd PPC yn adolygu'r egwyddorion pleidleisio ar y cyd â'i ymgynghorwyr a'i Reolwyr Buddsoddi ar sail flynyddol. | Bydd yn rhaid i PPC gynnal adolygiad blynyddol o'i Bolisi Pleidleisio. | Parhaus | Is-Grŵp BC | Bydd Polisi Pleidleisio PPC yn cael ei gwblhau'n derfynol yn Ch4 2020, gyda'r adolygiad blynyddol cyntaf i'w gynnal yn Ch4 2021. Bydd adolygiad cychwynnol y Polisi Pleidleisio yn cael ei gynnal gan yr Is-grŵp BC ar y cyd â Robeco. | |

### Cydweithio

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Bydd PPC yn adnabod ac asesu cyfleoedd posib i gydweithio yn barhaus, yn cynnwys mentrau buddsoddi cyfrifol sy'n cael eu harwain gan fuddsoddwyr. | Parhau i adnabod ac asesu cyfleoedd cydweithio. | Parhaus | GS | Mae PPC angen ystyried p'un a yw ei fecanwaith presennol ar gyfer adnabod ac asesu cyfleoedd yn effeithiol a sut y gall gofnodi ei weithgareddau cydweithio. Dylai PPC ymgysylltu â Robeco a LAPFF ar gyfleoedd yma.<br><br>Dylai PPC ystyried dod yn llofnodwr i'r FRC UK Stewardship Code fel y'i diweddarwyd. Byddai angen i PPC gwblhau adroddiad erbyn mis Mawrth 2021 ar sut maent wedi gweithredu (neu egluro pam ddim) 12 o Egwyddorion y Cod. Os daw PPC yn llofnodwr yr UNPRI, bydd ei broses BC angen bod yn unol â dyheadau'r UNPRI. Bydd ffioedd oddeutu £3k y flwyddyn.<br><br>Mae'r Is-grŵp BC yn y broses o lunio Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol PPC; mae hwn yn cael ei ddrafftio mewn ffordd sydd wedi'i alinio â gofynion yr UK Stewardship Code ac UNPRI. Yn ogystal, mae PPC yn defnyddio ei sesiynau hyfforddi fel dull o ddysgu mwy ynghylch y cyfleoedd cydleoli sydd ar gael i PPC, fel y tystiolaethir gan Sesiwn Hyfforddi Tachwedd 2020. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Pan geir unrhyw gyfle addas, bydd PPC yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithio BC traws-gronfa. | Cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus â'r prosiect cydweithio BC ar draws y pŵl. | Parhaus | Is-Grŵp BC | Mae dau aelod o Is-grŵp BC PPC yn aelodau o'r grŵp cydweithio BC ar draws y pŵl. Mae'r ddau aelod hyn wedi cael cais i weithredu fel cynrychiolwyr PPC ar y grŵp. Mae'r ddau Aelod hyn hefyd yn adrodd yn ôl ar Is-grŵp BC PPC gydag unrhyw gyfleoedd cydweithio posib sydd wedi'u trafod yn y grŵp BC ar draws y pŵl. Mae Is-grwpiau BC PCC wedi'u hamserlennu'n fwriadol fymryn ar ôl y cyfarfodydd cydweithio BC Traws Pŵl fel bod yr adborth o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu lledaenu'n gyflym i Is-grŵp BC PPC. | |

## Monitro, Adrodd a Mesur

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Mae PPC yn ceisio bod yn ymwybodol o, a monitro, risgiau ariannol perthnasol sy'n ymwneud â ESG a materion o fewn asedau PPC. Mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Cyfansoddol, Ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi, bydd PPC yn datblygu metricsau monitro priodol ar gyfer ei bortffolios. | Mae angen datblygu mecanwaith gyffredin ar gyfer monitro risgiau a materion sy'n ymwneud â ESG (gan gynnwys risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd). | Ch2 2021 | Is-Grŵp BC | Mae'r GC / Is-grŵp BC wedi adnabod rhestr fer o fetricsau ESG y dylid eu monitro. Mae dull a diwyg ar gyfer cyflwyno'r metricsau hyn wedi'i lunio eisoes ac mae PPC yn ceisio adrodd yn gyhoeddus ar y metricsau hyn gydag Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol PPC, sy'n ddyledus yn Ch2 2021 (fel ar 31 Mawrth). | |
| 15 | Mae'n ofynnol gan PPC bod cymwysterau buddsoddi cyfrifol pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd PPC yn datblygu | Mae angen adolygu elfennau BC Rheolwyr bob blwyddyn. | Parhaus | Link & Russell | Mae Link/Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr, eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol yn eu penderfyniadau.<br><br>Bydd yr Is-grŵp BC PPC a sefydlwyd yn ddiweddar yn gyfrifol am fonitro Russell a rheolwyr buddsoddi | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi. | | | | gwaelodol i'r graddau y maent wedi integreiddio BC i'r portffolios y maent yn eu rhedeg ar ran PPC. | |
| 16 | Bydd PPC yn paratoi a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth bob blwyddyn yn manylu ar y camau a gymerwyd er mwyn cyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd. | Mae angen datblygu adroddiad blynyddol. | Ch2 2021 | Is-Grŵp BC | Mae Is-grŵp BC PPC yn gweithio â Robeco i fireinio cynnwys a diwyg Adroddiadau Stiwardiaeth PPC.<br><br>Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod yr adroddiadau stiwardiaeth wedi alinio'n llawn â gofynion yr UK Stewardship Code. Hefyd, bydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC yn ymdrin â gweithgareddau Stiwardiaeth PPC dros y deuddeg mis diwethaf. | |

## Arall

| # | Ymrwymiad / Datganiad Polisi | Gweithrediad | Amserlen | Perchennog | Diweddariad / Sylw | Wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Bydd PPC yn sicrhau bod o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol. | Mae angen cynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi sy'n ymwneud â BC bob blwyddyn. | Parhaus | GS | Mae'r Awdurdod Lletya wedi cynhyrchu cynllun hyfforddi 20/21 sy'n cynnwys yr eitemau BC a ganlyn:<br><br>Metrigau perfformiad<br>Cynnydd Cronfeydd Cyfun Cynlluniau Pensiwn<br>Llywodraeth Leol eraill<br>Cyfleoedd i Gydweithio<br>Risg Hinsawdd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Bydd PPC hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ymgorffori Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn ei gredoau BC a'i fecanweithiau monitro a mesur. | Mae angen canfod dyhead Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfer y ffurf hwn o adrodd. | Cynllun Hyfforddi 2021/22 | GS | Bydd PPC yn ymgorffori sesiwn hyfforddi ar UN SDGs yn ei Gynllun Hyfforddi ar gyfer 2021/22.<br><br>Mae PPC yn ystyried aliniad â'r SDG fel rhan o ddatblygu'r Is-gronfa Marchnadoedd Preifat, gallai hyn gynnwys bwced Effaith benodol. | |
| 19 | Bydd PPC yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad fel rhan o'u hadroddiad stiwardiaeth a llywodraethu blynyddol. | Mae angen datblygu adroddiad blynyddol. | Ch2 2021 | Is-Grŵp BC | Hefyd, bydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC yn gweithredu fel adroddiad stiwardiaeth a llywodraethu BC PPC. Bydd yn ymdrin â'r cynnydd y mae PPC wedi'i wneud o ran cyfarfod yr ymrwymiadau a wnaed yn ei Bolisi BC, gan ymdrin â gweithgareddau BC, pleidleisio a stiwardiaeth. | |

## Atodiad 2: Cylch Gorchwyl yr Is-grŵp BC

**Cylch Gorchwyl Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiynau Cymru ("y Grŵp)**

1. Rôl y Grŵp yw cefnogi datblygiad a gweithrediad polisïau buddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd y Bartneriaeth (PPC). I'r perwyl hwn, bydd y Grŵp yn:

    1.1 Llunio Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol PPC Blynyddol fydd yn gadael i PPC fwrw ymlaen â'i amcanion BC;

    1.2 Gweithio gyda rheolwyr buddsoddi penodedig PPC, y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth eraill i sicrhau y gellir gweithredu polisïau buddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd yn effeithiol;

    1.3 Datblygu arferion i fonitro ac adrodd am faterion buddsoddi cyfrifol i gyflawni ymrwymiadau PPC tuag at ei ran-ddeiliaid;

    1.4 Monitro gweithgarwch buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys metricsau ESG a chofnodion pleidleisio ac ymgysylltu a darparu neu gyfarwyddo her fel bo'r angen;

    1.5 Ystyried datblygiadau'r farchnad a rheoleiddio i sicrhau bod arferion gorau yn medru cael eu hystyried gan PPC; ac

    1.6 Ymgysylltu â Chronfeydd CPLlL, Pŵl CPLlL, Perchnogion Ased a phartïon eraill fel bo angen er mwyn cyflawni nodau PPC ar gydweithio.

    1.7 Cynrychioli PPC ar faterion BC, gan gynnwys gweithredu fel llefarydd mewn fforymau allanol.

2. Bydd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o leiaf tri Awdurdod Cyfansoddol yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Trosolwg.

3. Bydd y Grŵp yn cysylltu â'r Awdurdod Lletya ac yn ei gynorthwyo ar weinyddiaeth, cynnydd a gweithrediad pob mater BC.

4. Bydd y Grŵp yn penodi Cadeirydd o'i aelodaeth, bydd y rôl hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

5. Bydd y Grŵp yn cynnal o leiaf pedwar cyfarfod bob blwyddyn ond bydd yn cwrdd mor aml ag y boangen er mwyn bwrw ymlaen â'i amcanion.

6. Gall y Grŵp wahodd cynrychiolwyr o bartïon eraill i fynychu cyfarfodydd er mwyn cefnogi cyflawniad ei amcanion.

7. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r GS a'r CBLl ac yn eu cynghori ar unrhyw newidiadau i bolisïau PPC neu i'r dull gweithredu a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau y gellir bodloni nodau PPC.

8. Bydd y Grŵp yn cynnal adolygiad blynyddol o'i rôl a'i gylch gorchwyl ac yn cyflwyno unrhyw addasiadau neu ddiwygiadau i'r GC er cymeradwyaeth.

Hydref 2020

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**10 RHAGFYR 2020**

## POLISI HYFFORDDIANT PPC

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo Polisi Hyfforddiant PPC**

**RHESYMAU:**

Mae Polisi Hyfforddiant wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae gofyn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.


| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif Ffôn: 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 10 RHAGFYR 2020

| **POLISI HYFFORDDIANT PPC** |
|---|
| CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD<br><br>Mae polisi hyfforddiant wedi'i ddatblygu ar gyfer PPC sy'n egluro dull PPC o ymdrin â hyfforddiant a gofynion. Mae'r polisi'n amlinellu'r strategaeth mae PPC wedi'i rhoi mewn lle i sicrhau bod gan pob un o'i Staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rolau a gwneud penderfyniadau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i fudd-ddeiliaid PPC.<br><br>Mae'r polisi hwn yn gymwys i Staff PPC sy'n cynnwys yr Awdurdod Lletya, Aelodau o Gydbwyllgor Llywodraethu PPC ('JGC') a'r Gweithgor Swyddogion ('OWG'). Mae PPC yn cydnabod y gall Aelodau Pwyllgorau Pensiwn yr Awdurdodau Unigol, ynghyd â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, gael eu gwahodd i ddigwyddiadau hyfforddiant PPC ac felly y gallent gael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan gynnwys y polisi hwn.<br><br>Mae polisi a chynllun hyfforddiant PPC wedi eu dylunio i ategu dogfennau hyfforddiant presennol yr Awdurdodau Unigol, ac nid ei fwriad yw amnewid neu ddisodli'r angen am/pwysigrwydd polisïau a chynlluniau hyfforddiant ar lefel leol. Bydd anghenion hyfforddiant lleol yn parhau i gael sylw gan yr Awdurdodau Unigol, tra bydd PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth.<br><br>Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol. Hefyd, yn flynyddol, bydd PPC yn paratoi a chyhoeddi Cynllun Hyfforddiant Blynyddol a fydd yn amlinellu'r pynciau hyfforddiant ar gyfer y 12 mis nesaf. |

| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |
|---|---|

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|

**Polisi**

Mae polisi hyfforddiant wedi'i baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

# Polisi Hyfforddiant PPC

## Cyflwyniad

1 Mae'r polisi hwn yn egluro sut bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru ("PPC") yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad. Mae'r polisi'n amlinellu'r strategaeth mae PPC wedi'i rhoi mewn lle i sicrhau bod gan bob un o'i Staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau y wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rolau a gwneud penderfyniadau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i fudd-ddeiliaid PPC.

2 Mae'r polisi hwn yn gymwys i Staff PPC sy'n cynnwys yr Awdurdod Lletya, Aelodau o Gydbwyllgor Llywodraethu PPC ('JGC') a'r Gweithgor Swyddogion ('OWG'). Mae PPC yn cydnabod y gall Aelodau Pwyllgorau Pensiwn yr Awdurdodau Unigol, ynghyd â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, gael eu gwahodd i ddigwyddiadau hyfforddiant PPC ac felly y gallent gael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan gynnwys y polisi hwn.

3 Mae polisi a chynllun hyfforddiant PPC wedi eu dylunio i ategu dogfennau hyfforddiant presennol yr Awdurdodau Unigol, ac nid ei fwriad yw amnewid neu ddisodli'r angen am/pwysigrwydd polisïau a chynlluniau hyfforddiant ar lefel leol. Bydd anghenion hyfforddiant lleol yn parhau i gael sylw gan yr Awdurdodau Unigol, tra bydd PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth.

4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi ger bron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo. Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi hwn, bydd PPC yn cynnal deialog barhaus â'r Awdurdodau Cyfansoddol a'r Awdurdod Lletya. Bydd PPC hefyd yn ceisio mewnbwn gan drydydd partïon lle bo hynny'n briodol ac yn cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddiant esblygol yr Awdurdodau Unigol a datblygiadau o ran hwyluso hyfforddiant.

5 Bydd y polisi hwn yn cadw mewn cof y canllawiau gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (“CIPFA”) a The Pensions Regulator ac unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun (“SAB”) a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ("MHCLG"). Mae'r polisi'n ymgorffori, lle bynnag mae'n gymwys, unrhyw ganllawiau perthnasol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Cymru.

## Credoau

6 Mae PPC wedi sefydlu set o gredoau sy'n tanategu ac yn llywio ei benderfyniadau, polisïau a chynlluniau busnes. Mae'r ddwy gred a amlinellir isod yn arbennig o berthnasol i Bolisi Hyfforddiant PPC:

- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo PPC a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i esblygu.
- Dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i fudd-ddeiliaid y Bartneriaeth.

7 Mae PPC yn cydnabod bod cael polisi hyfforddiant manwl yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr hyn a wna'r Bartneriaeth yn cyd-fynd â'i chredoau. Lluniwyd y polisi hwn gyda'r nod o roi mesurau mewn lle a fydd yn galluogi PPC i fod yn sefydliad sy'n dysgu, yn arloesi ac yn datblygu yn barhaus.

8 Mae PPC yn credu mai un elfen hanfodol o lywodraethu da yw cyflawni gweithdrefnau a strwythurau a fydd yn hyrwyddo trefn o wneud penderfyniadau deallus. Mae Polisi Hyfforddiant PPC wedi'i sefydlu er mwyn ceisio sicrhau bod gwybodaeth a gallu'r Bartneriaeth i wneud penderfyniadau deallus yn cael ei uchafu.

**Amcanion**

9 Amcan PPC wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw:

- Dangos bod PPC wedi sefydlu gweithdrefnau a fydd yn ceisio sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni'r rolau a'r gweithgareddau mae'n ymgymryd â hwy ar ran budd-ddeiliaid;
- Sicrhau bod gan Staff PPC wybodaeth lawn am yr holl faterion perthnasol cyn gwneud penderfyniadau ar ran budd-ddeiliaid PPC; a
- Sicrhau bod gan PPC, fel corff cyfunol, ddigon o wybodaeth i herio a rhoi beirniadaeth ar y cyngor mae'n ei dderbyn gan ei ddarparwyr allanol.

10 Wrth gynnal cynllun a pholisi hyfforddiant, amcan PPC yw lleihau'r tebygolrwydd dros amser y caiff canlyniadau budd-ddeiliaid eu heffeithio'n negyddol oherwydd diffyg arbenigedd neu fylchau gwybodaeth ymysg Staff PPC. Mae Cofrestr Risg y Bartneriaeth yn amlygu bod methu â chynnal a meithrin arbenigedd a gwybodaeth briodol ymysg staff perthnasol yn risg o bwys i'r Bartneriaeth, a phe bai'r risg yn cael ei gadael heb ei rheoli, gallai beri i'r Bartneriaeth gymryd camau aneffeithiol, gwneud penderfyniadau amhriodol neu fethu â chyflawni ei chyfrifoldebau. I reoli'r risg bosib hon, mae PPC wedi rhoi'r mesurau a'r rheolaethau isod mewn grym:

- Sicrhau bod hyfforddiant digonol yn digwydd;
- Cynnal mecanwaith ar gyfer cael mynediad i ofynion hyfforddiant;
- Sicrhau bod staff newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddechrau eu dyletswyddau;
- Cyhoeddi Cynllun Hyfforddiant Blynyddol y Bartneriaeth;
- Prynu hyfforddiant gan arbenigwyr allanol pan fo angen; ac
- Allanoli tasgau i ymgynghorwyr arbenigol pan fo hynny'n briodol.

**Arweiniad a Rheoleiddio**

11 Wrth lunio'r polisi hwn, mae PPC wedi ystyried ac ymgorffori'r canllaw *'Investment Pooling Governance Principles for LGPS Administering Authorities*' gan CIPFA, sy'n nodi'r pwysigrwydd fod gan Aelodau a Swyddogion wybodaeth fanwl ynghylch cronni trefniadau buddsoddi *("Members and Officers having a detailed knowledge of the pooling of investment arrangements")*. Mae Polisi Hyfforddiant PPC a'r Cynllun Hyfforddiant cysylltiedig wedi'u datblygu gyda'r nod o roi i'r Aelodau a Swyddogion y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am gronni buddsoddiadau fel y gallant gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau dan PPC. Bydd polisïau a chynlluniau hyfforddiant lleol yn parhau i roi sylw i'r wybodaeth am gyd-fuddsoddi sydd ei hangen ar Aelodau a Swyddogion i gyflawni eu rolau ar lefel Awdurdod Unigol.

12 Mae PPC yn cydnabod bod yna lawer iawn o ganllawiau a rheoliadau'n gysylltiedig â hyfforddiant sydd wedi'u targedu at Gronfeydd CPLlL a Chynlluniau Pensiwn y Sector Preifat, ac mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddf Pensiynau 2004
- Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013
- Cod Ymarfer a Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA

Mae PPC yn gefnogol o'r ffynonellau hyn fel arweiniad a dull rheoleiddio. Mae PPC wedi ceisio ymgorffori natur a naws y ffynonellau hyn yn ei bolisi a chynlluniau hyfforddiant ei hun. Mae PPC yn

disgwyl i ac yn annog yr Awdurdodau Unigol i lunio a chynnal eu polisïau a chynlluniau hyfforddiant eu hunain. Mae PPC yn disgwyl y bydd yr Awdurdodau Unigol yn sefydlu polisïau a fydd yn ategu'r arweiniad a'r rheoleiddiad y mae'r ffynonellau uchod yn eu gosod ar Gronfeydd CPLlL.

**Strategaeth**

13 Mae PPC yn cydnabod bod hyfforddiant yn hanfodol i gyflawni canlyniadau da i'w fudd-ddeiliaid a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn cynnal hyfforddiant rheolaidd. Mae PPC wedi ymrwymo i gynnal o leiaf bedwar digwyddiad hyfforddiant ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Caiff y digwyddiadau hyfforddiant eu hwyluso gan yr Awdurdod Lletya. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw log hyfforddiant er mwyn cadw cofnod o'r holl hyfforddiant y mae staff PPC wedi'i gwblhau hyd yma a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

14 Mae chwe elfen i Bolisi Hyfforddiant PPC;

- Deall cylch gwaith ac amgylchedd y Bartneriaeth
- Adnabod anghenion hyfforddi
- Hwyluso hyfforddiant
- Dulliau hyfforddiant
- Dyletswyddau a disgwyliadau
- Adolygu a Monitro

15 Wrth lunio'r polisi hwn, mae PPC wedi ystyried natur y gwaith mae'n ei wneud ar ran ei fudd-ddeiliaid a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Mae PPC yn cydnabod bod angen i'r gofynion hyfforddiant, ynghyd â sail gwybodaeth PPC, fod yn hyblyg oherwydd natur gyfnewidiol ac amrywiol gwaith y Bartneriaeth. Mae’r amgylchedd y mae PPC yn gweithredu ynddo hefyd yn newid yn gyson, felly mae'n hanfodol fod Polisi Hyfforddiant PPC yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw ofynion hyfforddiant neu wybodaeth a allai godi o'r newidiadau hyn – mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer newidiadau rheoleiddio.

16 Cyn adnabod anghenion hyfforddiant mae'n bwysig ystyried ffynonellau a gyrwyr yr anghenion hyn. Mae PPC wedi adnabod pedair brif ffynhonnell y gallai anghenion hyfforddiant ddeillio ohonynt:

- Rôl a Chyfrifoldebau Rheolaidd – rolau a chyfrifoldebau dydd i ddydd Staff y Bartneriaeth lle bydd arnynt angen sail wybodaeth a set sgiliau benodol.
- Meysydd Ffocws Targed a Gwaith Prosiect – efallai y bydd ffrydiau gwaith neu brosiectau newydd yn golygu bod gofyn i Staff PPC ddatblygu sgiliau neu wybodaeth nad oedd eu hangen arnynt gynt.
- Datblygiadau Marchnad a Materion Cyfoes – os cyflwynir pynciau poeth yn y farchnad y mae PPC yn gweithredu ynddi, gallai hynny arwain at orfodi newid yng nghynllun gwaith neu arferion presennol PPC ac mae'n naturiol tybio y gallai gofynion hyfforddiant newydd ddeillio o'r newidiadau hyn.
- Newidiadau Rheoleiddiol – bydd angen i PPC weithredu ar frys yn sgil newidiadau i reoliadau cyfredol. Bydd unrhyw weithredu gan PPC yn cynnwys asesu a hwyluso'r anghenion hyfforddiant sy'n codi o'r newidiadau i reoliadau.

17 Bydd PPC yn adnabod beth yw'r gofynion o ran anghenion hyfforddiant drwy ddosbarthu Holiadur Gofynion Hyfforddiant Blynyddol y Bartneriaeth. Caiff yr holiadur ei gyflwyno i Aelodau'r Cydbwyllgor

Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, a bydd yr ymatebion i'r holiadur yn cael eu defnyddio i lunio Cynllun Hyfforddiant Blynyddol PPC – bydd hwn yn adnabod y pynciau y bydd PPC yn derbyn hyfforddiant arnynt yn ystod y 12 mis i ddod. Bydd y pynciau a nodir yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion i'r holiadur, ond cânt hefyd eu llunio gan roi ystyriaeth i Gynllun Busnes Blynyddol PPC a natur y gwaith y bydd PPC yn ymgymryd ag ef yn ystod y flwyddyn.

18 Mae'r modd a'r dulliau o gynnal hyfforddiant yn esblygu drwy'r amser, ac mae PPC yn awyddus i fanteisio ar unrhyw ddatblygiadau newydd a fydd yn gwneud ei hyfforddiant yn fwy effeithiol. Mae PPC ar hyn y bryd yn gwneud defnydd o'r dulliau hyfforddiant isod, nid yw'r rhestr yn gyflawn o bell ffordd ac mae'n debyg y bydd yn newid yn unol â datblygiadau a dulliau newydd perthnasol:

- Digwyddiadau Hyfforddiant Ffurfiol
- Sesiynau Hyfforddiant Rhithiol
- Pyrth Hyfforddiant Ar-lein
- Gweithdai
- Nodiadau Briffio, Papurau Canllaw a deunyddiau darllen eraill sy'n berthnasol
- Seminarau, Gweminarau a Chynadleddau perthnasol
- Sesiynau Hyfforddiant mewn Cyfarfod

19 Mae gan Staff PPC ddyletswydd i chwarae rôl rhagweithiol yn natblygiad eu gwybodaeth a'u set sgiliau eu hunain Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac yn cwblhau hyfforddiant pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodir fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach. Dylai unigolion gofnodi unrhyw weithgaredd hyfforddiant a wnânt sy'n berthnasol i'w rôl gyda PPC a phan fo'n berthnasol, dylent roi gwybod i'r Awdurdod Lletya am fanylion yr hyfforddiant. Gofynnir i Staff PPC ddefnyddio'r Holiadur Gofynion Hyfforddiant PPC fel cyfle i werthuso eu gwybodaeth a'u sgiliau.

20 Mae gofyn i staff newydd y Bartneriaeth gwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a fydd yn galluogi iddynt berfformio eu dyletswyddau a'u rolau newydd. Wrth ymuno â PPC, bydd Staff newydd yn derbyn pecyn cyflwyniad gan yr Awdurdod Lletya. Disgwylir i Staff newydd PPC adolygu'r wybodaeth a ddarperir iddynt yn y pecyn cyflwyniad – bydd y pecyn yn cynnwys manylion ynghylch eu rôl gyda PPC, a Fframwaith Llywodraethu a Pholisïau PPC. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cysylltu â Staff newydd PPC ymhen un mis o anfon y pecyn cyflwyniad i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a chyfrifoldebau newydd a strwythurau a gweithdrefnau PPC. Petai angen, bydd yr Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Goruchwylio ar gael am gyfarfod i roi sylw i unrhyw bwyntiau o eglurhad neu gwestiynau posib sydd gan yr Aelod Staff.

21 Yn dilyn unrhyw hyfforddiant cychwynnol, mae disgwyl i Staff gynnal eu dealltwriaeth gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen. Dylai'r holl Staff fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses gwneud penderfyniadau a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

22 Mae PPC yn cydnabod y pwysigrwydd o fonitro effeithiolrwydd ac addasrwydd y polisi hwn yn barhaus. Bydd y ffynonellau data isod yn cael eu defnyddio i bennu i ba raddau mae'r Polisi hwn wedi cyflawni ei amcanion – bydd unrhyw ganfyddiadau neu wersi yn cael eu hystyried a'u gweithredu yn ystod yr adolygiad blynyddol o Bolisi Hyfforddiant PPC;

- Lefelau presenoldeb yn ystod Digwyddiadau Hyfforddiant PPC
- Yr ymatebion i Holiadur Gofynion Hyfforddiant Blynyddol PPC
- Pan fo'n berthnasol, byddwn yn defnyddio ymarferion meincnodi gwybodaeth

**Tryloywder**

23 Bydd Polisi Hyfforddiant PPC ar gael yn gyhoeddus ar wefan PPC. Bob blwyddyn bydd PPC yn paratoi ac yn cyhoeddi Cynllun Hyfforddiant Blynyddol ar ei gwefan, bydd y Cynllun yn amlinellu'r pynciau hyfforddiant y bydd PPC yn derbyn hyfforddiant arnynt dros y 12 mis nesaf.

24 Bydd Adroddiad Blynyddol PPC yn amlinellu pa hyfforddiant mae PPC wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymhle cynhaliwyd yr hyfforddiant, a phwy a fynychodd.

**Gwybodaeth Bellach**

25 Os hoffech ragor o fanylion am Bolisi Hyfforddiant PPC, cysylltwch â walespensionpartnership@carmarthenshire.gov.uk ac ewch ar wefan PPC.

Fersiwn 1.0

Rhagfyr 2020

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**10 RHAGFYR 2020**

| POLISI PLEIDLEISIO PPC |
|---|
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Cymeradwyo mabwysiadu Polisi Pleidleisio Robeco ar gyfer PPC** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Mae PPC yn ystyried datblygu polisi pleidleisio. Penodwyd Robeco fel darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2020 ac argymhellir bod y Bartneriaeth yn addasu polisi pleidleisio Robeco ar hyn o bryd, tra'n ystyried sut ellir datblygu'r polisi safonol hwn a'i deilwra'n benodol ar gyfer y Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol dros y 12 mis nesaf. Mae angen i'r CBLl gymeradwyo'r polisi hwn. |



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## 10 RHAGFYR 2020

| POLISI PLEIDLEISIO PPC | |
|---|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Mae stiwardiaeth yn elfen o Bolisi Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth (adran 7) a chytunwyd y byddai'r Bartneriaeth yn penodi Darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu i gyflawni swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth, gan gynnwys cynorthwyo wrth lunio Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth. Penodwyd Robeco fel darparwr Gwasanaeth Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth ym mis Mawrth 2020.<br><br>Un agwedd o rôl Robeco yw cynorthwyo wrth lunio Polisi Pleidleisio'r Bartneriaeth. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Swyddogion o fewn y Bartneriaeth a Robeco a daethpwyd i gonsensws mai'r ffordd orau o weithredu pleidleisio ar gyfer y Bartneriaeth yw mabwysiadu polisi safonol Robeco yn y cyfamser ac yna ystyried sut ellir datblygu'r polisi hwn dros y 12 mis nesaf a'i deilwra'n fwy penodol ar gyfer credoau a gofynion y Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol.<br><br>Dros y 12 mis nesaf, bydd y Bartneriaeth yn datblygu ei wybodaeth ac yn llunio ei gredoau Pleidleisio. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â’r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y wybodaeth a ddatblygir a'r credoau a nodwyd yn hidlo i'r adolygiad blynyddol ac addasiad o Bolisi Pleidleisio'r Bartneriaeth.<br><br>Mae polisi safonol Robeco wedi cael ei adolygu gan is-grŵp RI, sy'n cynnwys swyddogion o'r Bartneriaeth a Hymans ac ni nodwyd unrhyw faterion wrth fabwysiadau'r polisi hwn yn y cyfamser. | |
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae polisi pleidleisio wedi cael ei baratoi fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

ROBECO
The Investment Engineers



# Polisi Pleidleisio drwy Ddirprwy

**RHEOLI ASEDAU SEFYDLIADOL ROBECO**

Sustainable Investing Expertise by ROBECOSAM

# Egwyddorion Pleidleisio drwy Ddirprwy

Mae Rheoli Asedau Sefydliadol Robeco (o hyn ymlaen: Robeco) yn siarad o blaid Cynaliadwyedd Buddsoddi ac yn berchnogion gweithredol. Mae Robeco yn annog llywodraethu da ac arferion corfforaethol cynaliadwy, sy'n cyfrannu at greu gwerth hirdymor a grëir gan gyfranddalwyr. Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn rhan o ddull Perchnogaeth Weithredol Robeco. Mae Robeco wedi mabwysiadu gweithdrefnau ysgrifenedig sydd wedi'u dylunio'n rhesymol i sicrhau ein bod yn pleidleisio er lles gorau ein cleientiaid. Mae polisi Robeco ar lywodraethu corfforaethol yn dibynnu ar set o egwyddorion y Rhwydwaith Llywodraethu Corfforaethol Rhyngwladol (ICGN), a dderbynnir yn rhyngwladol. Cafodd egwyddorion ICGN eu hadolygu ym mis Mehefin 2014. Y polisi pleidleisio drwy ddirprwy yw polisi safonol Robeco ac mae'n berthnasol i gronfeydd buddsoddi a bleidleisiodd dros RobecoSAM. Ar gyfer mandadau diamod, gall Robeco weithredu unrhyw bolisi pleidleisio drwy ddirprwy y mae'r cleient yn ei

**Canllawiau Pleidleisio**

### Datganiadau ariannol ac archwilwyr allanol

1. Pleidleisio i gymeradwyo datganiadau ariannol, adroddiadau cyfarwyddwyr ac adroddiadau archwilwyr oni bai:
   - bod pryderon ynghylch dibynadwyedd cyfrifon neu weithdrefnau a ddilynir
   - bod y cwmni ddim yn ymateb i gwestiynau'r cyfranddalwyr i gael gwybodaeth
   - bod pryderon ynglŷn â pherfformiad y cwmni ac nad oes gan gyfranddalwyr gyfle i fynegi eu hanfodlonrwydd drwy bleidleisio yn erbyn cynigion priodol gan nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhaglen.
2. Pleidleisio i benodi archwilwyr (statudol) ac am iawndal cysylltiedig oni bai:
   - bod y cwmni ddim yn ymateb i geisiadau'r cyfranddalwyr am wybodaeth
   - bod yr archwilydd yn cael ei newid yn sydyn a heb reswm da
   - Pleidleisio yn erbyn pan nad yw materion ynghylch cyfnod, ffioedd ac annibyniaeth yr archwiliad yn unol ag arferion gorau'r farchnad

### Bwrdd Cyfarwyddwyr

3. Pleidleisio i ethol cyfarwyddwr a enwebwyd gan reolwyr oni bai:
   - bod perfformiad yr enwebai yn y gorffennol yn amlygu pryderon clir, gan gynnwys absenoldebau niferus yng nghyfarfodydd y bwrdd, ymddygiad troseddol neu achos o dorri cyfrifoldebau ymddiriedol.
   - bod y cyfarwyddwr enwebedig yn rywun o du mewn i'r cwmni neu'n gysylltiedig â'r cwmni ac nad yw'r bwrdd yn ddigon annibynnol yn unol â safonau lleol
   - bod y bwrdd ddim yn ddigon annibynnol yn unol â safonau lleol
   - bod cyfarwyddwr mwy addas wedi'i enwebu gan gyfranddalwyr ar gael ar gyfer yr etholiad
   - bod y bwrdd yn dangos amharodrwydd dro ar ôl tro i weithredu safonau llywodraethu da, megis arferion iawndal annerbyniol parhaus.
- bod yr enwebai yn ychwanegu at gyfansoddiad o safon isel o'i gymharu ag arferion gorau lleol o ran cyfnod swydd, amrywiaeth, sgiliau ac ymrwymiadau allanol.
   - bod y bwrdd yn methu â diwallu gofynion lleol ar amrywiaeth rhywedd. Mewn marchnad lle nad oes rheoleiddio, byddwn yn ymatal rhag cefnogi ethol cyfarwyddwyr os nad yw'r bwrdd wedi gwneud cynnydd rhesymol tuag at amrywiaeth rhywedd yn unol â safonau lleol.
4. Pleidleisio i gyfarwyddwyr bwrdd a enwebwyd i'r Pwyllgor Archwilio oni bai:
   - bod y Pwyllgor Archwilio ddim yn ddigon annibynnol yn unol â safonau lleol
   - bod gan y cyfarwyddwr ddiffyg gwybodaeth cyfrifeg neu ddiffyg profiad archwilio, ac nad oes gan y pwyllgor o leiaf un aelod gyda sgiliau perthnasol o'r fath.
   - bod pryder ynghylch ansawdd yr archwiliad, a lefel ac/neu amseriad gwiriad y cyfrifon archwiliedig.
5. Pleidleisio i ethol cyfarwyddwr a enwebwyd gan gyfranddalwyr oni bai:
   - bod perfformiad yr enwebai yn y gorffennol yn amlygu pryderon clir
   - bod cyfarwyddwr mwy addas wedi'i enwebu gan reolwyr ar gael ar gyfer yr etholiad
   - Mewn achosion lle nad oes digon o wybodaeth yn cael ei datgelu, ymatal rhag pleidleisio
6. Pleidleisio i faint bwrdd sefydlog, oni bai ei fod yn caniatáu nifer gormodol o aelodau.
7. Pleidleisio i israddio'r bwrdd
8. Asesu newidiadau yn strwythur neu faint y bwrdd yn ôl yr achos
9. Pleidleisio i ryddhau'r bwrdd a'r rheolwyr oni bai:
   - bod pryderon clir ynglŷn â pherfformiad y bwrdd a'r rheolwyr yn y cyfnod sy'n cael ei adolygu
   - bod cyfranddalwyr eraill yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y bwrdd
10. Pleidleisio yn erbyn indemniad cyfarwyddwyr gweithredol neu archwilwyr

### Tâl

11. Asesu cynlluniau iawndal ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol fesul achos. Pleidleisio o blaid polisi tâl neu ei weithrediad oni bai:
   - bod y polisi yn methu ag alinio'r tâl gyda pherfformiad
   - bod y strwythur tâl yn rhoi ffocws gormodol ar berfformiad tymor byr
   - bod datgelu arferion tâl yn annigonol a bod yna bryderon am atebolrwydd y bwrdd
   - gormod o dâl yn cael ei bennu ac yn gyfrifol am achosi cost sylweddol i gyfranddalwyr

–

12. Pleidleisio yn erbyn y polisi tâl neu ei weithrediad os digwydd unrhyw un o'r isod:
   - targedau perfformiad yn cael eu newid yn ôl-weithredol
   - taliadau unwaith ac am byth sylweddol yn cael eu gwneud heb feini prawf perfformiad
   - taliadau ymadael
   - Addewid o fuddion sylweddol (golden parachute) os daw cyflogaeth i ben gyda sbardun unigol
   - trefniadau sign-on a phecynnau diswyddo sy'n fwy nag arferion gorau'r farchnad
   - trefniadau pensiwn yn sylweddol anghydnaws gyda'r gweithlu ehangach
   - gwneir taliadau bonws pan nad yw'r cwmni wedi gwneud elw yn y ddwy flynedd ddiwethaf
13. Pleidleisio i iawndal arfaethedig cyfarwyddwyr anweithredol oni bai:
   - bod swm yr iawndal yn ormodol o ran safonau'r wlad neu'r diwydiant
   - bod y cynnig yn cynnwys buddion ymddeol
   - bod tâl yn cynnwys cymhellion amhriodol allai beryglu barn annibynnol cyfarwyddwyr annibynnol

## Rheoli Cyfalaf

14. Pleidleisio i ddyraniad arfaethedig yr incwm, oni bai:
   - nad yw'r taliad yn adlewyrchol o sefyllfa ariannol y cwmni
   - bod pryder nad yw'r polisi dychweliadau er budd cyfranddalwyr
   - bod gan y cwmni hanes o reoli cyfalaf gwael
15. Asesu cynigion i gymeradwyo cyhoeddiad dyledion a sicrhawyd gydag asedau'r cwmni fesul achos
16. Asesu cynigion i gynyddu pwerau dyled neu fenthyca fesul achos
17. Pleidleisio i geisiadau cyhoeddiad cyffredinol, oni bai:
   - bod cyhoeddiad 100% yn fwy na'r cyfalaf a gyhoeddir ar hyn o bryd
   - bod diffyg hawliau rhagbrynol digonol gan gyhoeddiad
   - Cyhoeddiad yn fwy na chanllawiau arfer gorau'r farchnad heb gyfiawnhad priodol
18. Pleidleisio i gynyddu cyfalaf awdurdodedig oni bai:
   - bod awdurdodiad newydd 100% yn fwy na'r awdurdodiad presennol
   - nad oes gan awdurdodiad newydd unrhyw hawliau rhagbrynol sy'n llai na 30% o'r awdurdodiad newydd heb ei dalu
   - bod y cyhoeddiad yn fwy na chanllawiau arfer gorau'r farchnad heb gyfiawnhad priodol
19. Pleidleisio yn erbyn cais cyhoeddiad o stoc dewisol gyda hawliau uwch i gyfranddaliadau cyffredin
20. Pleidleisio i gynlluniau ail-brynu ac ail-gyhoeddi cyfranddaliadau, oni bai:
   - nad yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw ddiogelwch yn erbyn prynu'n ôl neu ail-gyhoeddiad dethol
   - bod pryderon o gamddefnyddio cynlluniau ail-brynu ac ail-gyhoeddi (dethol)
   - bod trafodion yn cael eu gwneud dan amodau anffafriol ar gyfer cyfranddalwyr
21. Pleidleisio i leihau ceisiadau cyfalaf, oni bai:
   - bod telerau yn anffafriol i gyfranddalwyr
22. Pleidleisio i gynigion cyhoeddi dyled, oni bai:
   - bod y cyhoeddiad yn ormodol o ystyried sefyllfa ariannol y cwmni
   - bod gan y cyhoeddiad hawliau uwch i gyfranddaliadau cyffredin wrth gael ei drosi

## Cyfuniadau a chaffaeliadau

23. Pleidleisio i gyfuniadau a chaffaeliadau oni bai:
   - nad oes digon o wybodaeth ar gael ac/neu'n cael ei darparu i wneud penderfyniad deallus
   - bod hawliau pleidleisio, dosbarthiad enillion neu unrhyw hawliau eraill y cyfranddaliwr yn cael eu newid yn anghyfartal
   - nad yw'r strwythur yn dilyn y cyfuniad neu'r caffaeliad yn arddangos llywodraethu da
   - nad yw'r cyfuniad yn ymddangos ei fod er budd cyfranddalwyr
24. Asesu cynigion i aildrefnu ac/neu ailstrwythuro fesul achos

## Hawliau cyfranddaliwr

25. Asesu diwygiadau i erthyglau cysylltiadau neu siarter y cwmni fesul achos
   - Pleidleisio yn erbyn newidiadau arfaethedig nad ydynt er budd gorau cyfranddalwyr lleiafrifol
26. Asesu diwygio gofyniad cworwm fesul achos
27. Pleidleisio i gynigion i newid i strwythur cyfalaf “un cyfranddaliad, un pleidlais"
28. Pleidleisio yn erbyn newid trothwy datgelu perchnogaeth stoc heblaw 5% (safon SEC)
29. Pleidleisio i benderfyniadau i newid cyfnod cyllidol cwmni, oni bai:
   - mai'r cymhelliad yw celu gwybodaeth neu bŵer pleidleisio cyfranddalwyr er enghraifft, drwy ohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
30. Pleidleisio yn erbyn cyflwyno neu adnewyddu'r holl fecanweithiau yn erbyn newid dwylo, oni bai bod yr holl amodau isod yn cael eu diwallu:
   - y mecanwaith wedi'i ddylunio i greu gwerth a pharhad hirdymor i'r holl gyfranddalwyr
   - y mecanwaith ddim yn barhaol ei natur
   - y mecanwaith heb gael ei ddylunio i hwyluso ymsefydliad rheolwyr
   - y mecanwaith ddim yn caniatáu gwanhad sylweddol neu wrthdaro gyda buddion cyfranddalwyr
   - mae gan y cwmni hanes o arferion llywodraethu da tuag at gyfranddalwyr lleiafrifol
   - mae endid annibynnol llwyr yn pennu neu mae ganddo hawl o ran gweithredu'r mecanwaith

- nid oes gan y cwmni unrhyw fecanwaith arall yn ei le yn erbyn newid dwylo

31. Pleidleisio yn erbyn cymeradwyo eitemau a gynigir gan reolwyr lle nad yw gwybodaeth ar eu cyfer wedi cael ei ddatgelu
32. Pleidleisio yn erbyn bwndel o benderfyniadau os yw un neu fwy o'r eitemau yn creu pryder sylweddol i gyfranddalwyr

## Cynigion cyfranddalwyr

33. Asesu cynigion cyfranddalwyr fesul achos:
    - Pleidleisio i gynigion sydd â'r nod o gynyddu tryloywder ar faterion ESG perthnasol
    - Pleidleisio i gynigion sy'n gwella'r gwerth hirdymor a grëir gan gyfranddalwyr
    - Pleidleisio i gynigion sy'n mynd i'r afael â risgiau ESG perthnasol, ac eithrio pan fydd rheolwyr a'r bwrdd wedi arddangos ymdrechion priodol i liniaru risgiau o'r fath mewn ffordd dryloyw

## Pynciau cymdeithasol ac amgylcheddol

### Adrodd ar gynaliadwyedd

Mae datgeliad priodol o ffactorau risg cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol y mae busnes yn agored iddynt yn hanfodol i fuddsoddwyr. Mae'n darparu gwybodaeth ar faterion a allai gael effaith bresennol neu yn y dyfodol ar yrwyr gwerth cwmnïau, gwerth yr hyn a grëir gan gyfranddalwyr ac ar y gymdeithas a'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd. Mae Robeco yn cefnogi penderfyniadau synhwyrol gan gyfranddalwyr sy'n gofyn i gwmnïau adrodd ar bolisïau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'w busnes.

### Rheoli amgylcheddol a newid hinsawdd

I gwmnïau mewn sectorau ag allyriadau uchel nad ydynt yn cydnabod digon ar effaith newid hinsawdd ar eu busnesau, byddwn yn gwrthwynebu'r eitem rhaglen sydd fwyaf priodol ar gyfer y mater hwnnw. I'r perwyl hwnnw, mae enwebu aelod atebol ar y bwrdd yn cymryd blaenoriaeth. Mae Robeco hefyd, fel rheol, yn cefnogi cynigion rhesymol gan gyfranddalwyr sy'n gofyn i gwmnïau baratoi a chynllunio ar gyfer risgiau newid hinsawdd lliniarol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, ddatrysiadau sy'n gofyn i gwmnïau adolygu eu heffeithlonrwydd ynni ac ystyried cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

### Rheoli cyfalaf dynol ac amrywiaeth

Mae amrywiaeth rhywedd yn gwella llywodraethu corfforaethol, yn denu talent ac yn datblygu cyfalaf dynol, sy'n meithrin y gwerth a grëir nid yn unig mewn cwmnïau, ond hefyd i ran-ddeiliaid a chymdeithas. Mae Robeco fel arfer yn cefnogi datrysiadau rhesymol gan gyfranddalwyr sy'n gofyn i dargedau amrywiaeth penodol gael eu datgelu ac i'r bylchau cyflogau rhwng y ddau ryw mewn cwmnïau gael eu datgelu.

### Cyfraniadau gwleidyddol a chyfraniadau lobïo

Mae tryloywder corfforaethol yn allweddol wrth ddeall risgiau buddsoddi cyfreithiol, i enw da a dilynol posib a allai godi o arferion lobïo a chyfraniadau gwleidyddol anhryloyw. Rhaid i'r treuliau hyn fod yn gyson â strategaeth cynaliadwyedd y cwmni a dylent
gael eu halinio â buddion hirdymor buddsoddwyr a rhan-ddeiliaid perthnasol eraill. Fel arfer, mae Robeco yn cefnogi cynigion cadarn gan gyfranddalwyr sy'n gofyn i gwmnïau adolygu eu gwariant gwleidyddol a'u gweithgareddau lobïo.

Mae'r polisi hwn yn darparu arweiniad di-gynhwysfawr ar sut mae ein hegwyddorion pleidleisio yn cael eu gweithredu. Pleidleisir ar gynigion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi hwn fesul achos.

# Egwyddorion Llywodraethu Byd-eang ICGN

Mae'r egwyddorion a nodir isod yn atgynhyrchiad cywir o Egwyddorion Llywodraethu Byd-eang ICGN, a adolygwyd ym mis Mehefin, 2014 (Llundain, DU).

## 1.0 Cyfrifoldebau

### 1.1 Dyletswyddau

Dylai'r bwrdd weithredu ar sail ddeallus ac er budd gorau'r cwmni gydag ewyllys da, gofal a diwydrwydd, er budd cyfranddalwyr tra'n ystyried rhan-ddeiliaid perthnasol.

### 1.2 Cyfrifoldebau

Mae'r bwrdd yn atebol i gyfranddalwyr a rhan-ddeiliaid perthnasol ac yn gyfrifol am ddiogelu a chreu gwerth cynaliadwy dros y tymor hir. Wrth gyflawni eu rôl yn effeithiol, dylai aelodau'r bwrdd:

a) arwain, adolygu a chymeradwyo strategaeth gorfforaethol a chynllunio ariannol, gan gynnwys gwariannau cyfalaf, caffaeliadau a dihatriadau mawr;
b) monitro effeithlonrwydd arferion llywodraethu, arferion amgylcheddol ac arferion cymdeithasol y cwmni, a chydymffurfio â chyfreithiau perthnasol;
c) ymgorffori safonau uchel o foeseg busnes a goruchwylio gweithrediad codau ymddygiad sy'n meithrin diwylliant corfforaethol o uniondeb;
d) goruchwylio'r rheolaeth o wrthdaro buddion posib, megis y rhai allai godi ynghylch trafodion parti perthnasol;
e) goruchwylio uniondeb systemau cyfrifeg ac adrodd y cwmni, ei gydymffurfiad â safonau a dderbynnir yn rhyngwladol, effeithiolrwydd ei systemau o reolaeth fewnol, ac annibyniaeth y broses archwilio allanol;
f) goruchwylio gweithrediad rheoli risg effeithiol ac adolygu'r dull rheoli risg a'r polisïau yn rhagweithiol bob blwyddyn neu gydag unrhyw newid busnes sylweddol;
g) sicrhau proses ffurfiol, deg a thryloyw ar gyfer enwebu, ethol a gwerthuso cyfarwyddwyr;
h) penodi ac, os oes angen, cael gwared ar y prif weithredwr (CEO) a datblygu cynlluniau olynol;
i) alinio tâl CEO ac uwch reolwyr gyda buddion tymor hirach y cwmni a'i gyfranddalwyr; a
j) chynnal gwerthusiad bwrdd gwrthrychol ar sail reolaidd, gan geisio gwella effeithiolrwydd y bwrdd yn gyson.

### 1.3 Deialog

Dylai'r bwrdd sicrhau bod sianelau cyfathrebu ar gael ar gyfer deialog reolaidd ar faterion llywodraethu gyda chyfranddalwyr a rhan-ddeiliaid fel bo'n briodol. Dylai byrddau egluro gweithdrefnau o'r fath yn glir i gyfranddalwyr, gan gynnwys arweiniad sy'n ymwneud â chydymffurfio â datgelu a rheolau perthnasol eraill y farchnad.

### 1.4 Ymrwymiad

Dylai'r bwrdd gyfarfod yn rheolaidd i ryddhau ei ddyletswyddau a dylai cyfarwyddwyr ddyrannu digon o amser i baratoi a bod yn bresennol mewn cyfarfodydd y bwrdd. Dylai aelodau'r bwrdd wybod am y busnes, ei weithrediadau ac uwch reolwyr yn ddigon da i gyfrannu'n effeithiol i drafodaethau a phenderfyniadau'r bwrdd.

### 1.5 Cyfarwyddiaethau

Dylid ystyried nifer, a natur, y penodiadau i fwrdd a ddelir gan gyfarwyddwr unigol (y cadeirydd a chyfarwyddwyr gweithredol yn benodol) yn ofalus a'u hadolygu ar sail reolaidd a dylai graddau'r gallu sydd gan bob cyfarwyddwr unigol i ymgymryd â sawl cyfarwyddiaeth gael ei ddatgelu'n glir.

### 1.6 Anwytho

Dylai'r bwrdd gael proses anwytho ffurfiol yn ei lle ar gyfer pob cyfarwyddwr newydd fel eu bod yn wybodus am y cwmni cyn gynted â phosib ar ôl eu penodiad.
Dylid galluogi cyfarwyddwyr hefyd i loywi eu sgiliau a'u gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

### 1.7 Pwyllgorau

Dylai'r bwrdd sefydlu pwyllgorau i drafod materion megis archwilio, tâl ac enwebu. Pan fydd y bwrdd yn penderfynu peidio â sefydlu'r fath bwyllgorau, dylai'r bwrdd ddatgelu'r ffaith a'r gweithdrefnau a ddefnyddir ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol.

### 1.8 Cyngor

Dylai'r bwrdd dderbyn cyngor ar ei gyfrifoldebau dan gyfraith a rheoliadau perthnasol, fel arfer gan ysgrifennydd y cwmni neu gwnsler cyffredinol mewnol. Yn ogystal, dylai'r bwrdd gael mynediad i gyngor annibynnol fel bo'n briodol ac ar draul y cwmni.

## 2.0 Arweinyddiaeth ac annibyniaeth

### 2.1 Cadeirydd a CEO

Dylai'r bwrdd gael arweinyddiaeth annibynnol. Dylid cael rhaniad clir o gyfrifoldebau rhwng cadeiryddiaeth y bwrdd a rheolaeth weithredol busnes y cwmni.

### **2.2** Prif gyfarwyddwr annibynnol

Dylai'r cadeirydd fod yn annibynnol ar ddyddiad y penodiad. Os nad yw'r cadeirydd yn annibynnol, dylai'r cwmni fabwysiadau strwythur priodol i liniaru unrhyw heriau posib yn codi o hyn, megis penodi prif gyfarwyddwr annibynnol . Dylai'r bwrdd egluro'r rhesymau pam fod y strwythur arweinyddiaeth hwn yn briodol a pharhau i adolygu'r strwythur. Mae prif gyfarwyddwr annibynnol hefyd yn darparu sianel werthfawr o gyfathrebu i gyfranddalwyr a chyfarwyddwyr petaent yn dymuno trafod pryderon yn ymwneud â'r cadeirydd.

### **2.3** Dilyniant

Fel eithriad, os fydd y bwrdd yn penderfynu y dylai CEO olynu i fod yn gadeirydd, dylai'r bwrdd gyfathrebu'n briodol gyda chyfranddalwyr o flaen llaw gan amlinellu rhesymeg sicr a darparu eglurhad manwl yn yr adroddiad blynyddol. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, dylid cael toriad mewn gwasanaeth rhwng y rolau, (e.e. cyfnod o ddwy flynedd).

### **2.4** Effeithiolrwydd

Y cadeirydd sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth y bwrdd a sicrhau ei effeithiolrwydd. Dylai'r cadeirydd sicrhau diwylliant o fod yn agored a thrafodaeth feirniadol sy'n galluogi i amrediad o farn gael ei fynegi. Mae hyn yn cynnwys amlinellu rhaglen briodol ar gyfer y bwrdd a sicrhau bod digon o amser ar gael i drafod pob eitem ar y rhaglen. Dylid cael cyfleoedd hefyd i'r bwrdd wrando ar ystod priodol o uwch reolwyr.

### **2.5** Annibyniaeth

Yn yr adroddiad blynyddol, dylai'r bwrdd nodi enwau'r cyfarwyddwyr a ystyrir gan y bwrdd yn annibynnol ac sy'n gallu arfer barn annibynnol yn glir o unrhyw ddylanwad allanol. Dylai'r bwrdd nodi ei resymau os yw'n penderfynu bod cyfarwyddwr yn annibynnol er gwaethaf bodolaeth perthnasau neu amgylchiadau a allai ymddangos yn berthnasol i'w benderfyniad, gan gynnwys os yw'r cyfarwyddwr:

a) yn gyflogedig, neu wedi cael ei gyflogi, mewn rhinwedd weithredol gan y cwmni neu is-gwmni ac nad oes cyfnod priodol wedi bod rhwng gorffen cyflogaeth o'r fath a gwasanaethu ar y bwrdd;
b) yn, neu wedi bod o fewn cyfnod priodol yn, bartner, cyfarwyddwr neu uwch weithiwr darparwr gwasanaethau proffesiynol neu gytundebol materol i'r cwmni neu unrhyw un o'i is-gwmnïau;
c) yn derbyn neu wedi derbyn tâl ychwanegol gan y cwmni ac eithrio ffi cyfarwyddwr, yn cymryd rhan yng nghynllun rhannu opsiynau'r cwmni neu gynllun cyflog sy'n ymwneud â pherfformiad, neu'n aelod o gynllun pensiwn y cwmni;
d) â, neu wedi bod â, chysylltiadau teuluol agos gydag unrhyw un o ymgynghorwyr, cyfarwyddwyr neu uwch reolwyr y cwmni;
e) â thraws-gyfarwyddiaethau neu â chysylltiadau sylweddol gyda chyfarwyddwyr eraill drwy gysylltiad â chwmnïau neu gyrff eraill;
f) yn gyfranddaliwr sylweddol y cwmni, neu'n swyddog ,neu'n gysylltiedig fel arall â, cyfranddaliwr sylweddol y cwmni;
g) yn, neu wedi bod yn, gyfarwyddwr enwebedig fel cynrychiolydd cyfranddalwyr lleiafrifol neu'r wladwriaeth;
h) wedi bod yn gyfarwyddwr y cwmni am gyfnod o'r fath fel bod ei annibyniaeth ef/hi wedi gallu cael ei danseilio.

### **2.6** Cyfarfodydd annibynnol

Dylai'r cadeirydd gynnal cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'r cyfarwyddwyr anweithredol heb i'r cyfarwyddwyr gweithredol fod yn bresennol. Yn ogystal, dylai'r cyfarwyddwyr anweithredol (dan arweiniad y prif gyfarwyddwr annibynnol) gyfarfod fel bo'n briodol, o leiaf unwaith y flwyddyn, heb i'r cadeirydd fod yn bresennol.

## 3.0 Cyfansoddiad a phenodi

### **3.1** Cyfansoddiad

Dylai'r bwrdd gynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn annibynnol, gan nodi y gallai'r arfer amrywio'n gyfreithlon o'r safon hon mewn cwmnïau rheoledig lle ffafrir i fàs critigol y bwrdd fod yn annibynnol. Dylid cael cymysgedd digonol o unigolion gyda gwybodaeth berthnasol, annibyniaeth, cymhwysedd, profiad o ddiwydiant ac amrywiaeth o bersbectifau er mwyn meithrin herio, trafodaeth a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn effeithiol.

### **3.2** Amrywiaeth

Dylai'r bwrdd ddatgelu polisi'r cwmni ar amrywiaeth a ddylai gynnwys targedau mesuradwy er mwyn cyflawni amrywiaeth briodol ymhlith ei uwch reolwyr a'r bwrdd (gweithredol ac anweithredol) ac adrodd ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni targedau o'r fath.

### **3.3** Cyfnod Swydd

Dylai cyfarwyddwyr anweithredol wasanaethu am gyfnod priodol o amser er mwyn gwasanaethu'r bwrdd yn briodol heb danseilio annibyniaeth y bwrdd. Dylai'r pwyllgor enwebu adolygu hyd cyfnod swydd pob cyfarwyddwr yn rheolaidd er mwyn caniatáu adnewyddiad ac amrywiaeth y bwrdd.

### **3.4** Proses benodi

Dylai'r bwrdd ddatgelu'r broses ar gyfer enwebu ac ethol / ail-ethol cyfarwyddwr ynghyd â'r wybodaeth ynghylch ymgeiswyr y bwrdd sy'n cynnwys:

a) pwy yw aelodau'r bwrdd a'r rhesymeg dros eu penodi;
b) cymwyseddau craidd, cymwysterau a chefndir proffesiynol;
c) mandadau bwrdd a rheoli diweddar a phresennol mewn cwmnïau eraill, yn ogystal â rolau arwyddocaol ar sefydliadau dielw/elusennol;
d) ffactorau sy'n effeithio ar annibyniaeth, gan gynnwys perthynas/perthnasau â chyfranddalwyr sy'n rheoli;
e) hyd cyfnod y swydd;
f) presenoldeb mewn cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau; ac
g) unrhyw gyfranddaliadau yn y cwmni.

### 3.5 Enwebiadau
Dylai'r bwrdd sicrhau bod cyfranddalwyr yn gallu enwebu ymgeiswyr ar gyfer penodiadau ar y bwrdd. Dylid cynnig ymgeisyddiaethau o'r fath i bwyllgor priodol y bwrdd priodol a, yn amodol ar drothwy enwebu priodol, chael eu henwebu'n uniongyrchol ar brocsi'r cwmni.

### 3.6 Etholiadau
Dylai aelodau'r bwrdd fod yn ymwybodol o'u hatebolrwydd i gyfranddalwyr. Efallai y bydd mecanweithiau atebolrwydd yn gofyn i gyfarwyddwyr sefyll mewn etholiad ar sail flynyddol neu sefyll etholiad o leiaf unwaith bob tair blynedd. Dylai cyfranddalwyr gael pleidlais ar wahân ar gyfer etholiad
pob cyfarwyddwr, gyda phob ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo gan fwyafrif syml y cyfranddaliadau a bleidleisiodd.

### 3.7 Gwerthuso
Dylai'r pwyllgor enwebu werthuso'r broses ar gyfer adolygiad trwyadl o berfformiad y bwrdd, ysgrifennydd y cwmni (os oes swydd o'r fath yn bod), pwyllgorau'r bwrdd a chyfarwyddwyr unigol cyn iddynt gael eu cynnig ar gyfer ail-etholiad. Dylai'r bwrdd hefyd ymgysylltu ag ymgynghorydd annibynnol allanol bob hyn a hyn (bob tair blynedd os oes modd) er mwyn cynnal y gwerthusiad. Dylai'r cyfarwyddwyr anweithredol, dan arweiniad y prif gyfarwyddwr annibynnol, fod yn gyfrifol am werthusiad perfformiad y cadeirydd, gan ystyried barn y swyddogion gweithredol. Dylai'r bwrdd ddatgelu'r broses ar gyfer gwerthuso ynghyd ag, cyn belled ag sy'n rhesymol bosib, unrhyw faterion perthnasol o bwys a gyfyd o'r casgliadau ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad.

### 3.8 Pwyllgor enwebu
Dylai'r bwrdd sefydlu pwyllgor enwebu sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn annibynnol. Dylai prif rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor enwebu gael eu disgrifio yng nghylch gorchwyl y pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys:

a) datblygu matrics sgiliau drwy baratoi disgrifiad o'r rolau, y profiad a'r galluoedd dymunol sydd eu hangen ar gyfer pob penodiad, ac yna gwerthuso cyfansoddiad y bwrdd.
b) arwain y broses ar gyfer penodiadau'r bwrdd a chynnig argymhellion i gyfranddalwyr ar gyfarwyddwyr i'w hethol a'u hail-ethol;
c) cynnal yr egwyddor o annibyniaeth cyfarwyddwr drwy fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau (a gwrthdaro buddiannau posib) ymhlith aelodau'r pwyllgor a rhwng y pwyllgor a'i ymgynghorwyr yn ystod y broses enwebu.
d) ystyried a bod yn gyfrifol am benodi ymgynghorwyr annibynnol ar gyfer recriwtio neu werthuso gan gynnwys eu dethol a thelerau ymgysylltu a datgelu'n gyhoeddus pwy ydynt ynghyd â'u ffioedd ymgynghori;
e) cynnal deialog gyda chyfranddalwyr ar y pwnc o enwebiadau'r bwrdd naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r bwrdd; a
f) chynllunio olyniaeth y bwrdd.

## 4.0 Diwylliant corfforaethol

### 4.1 Codau ymddygiad/moeseg
Dylai'r bwrdd fabwysiadu safonau uchel o foeseg busnes drwy godau ymddygiad /moeseg (neu gyfrwng tebyg) a goruchwylio diwylliant o uniondeb, er gwaethaf normau moesegol a safonau cyfreithiol amrywiol mewn gwahanol wledydd. Dylai hyn dreiddio i bob agwedd o weithrediadau'r cwmni, gan sicrhau bod ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i amcanion yn foesegol gadarn ac yn arddangos ei werthoedd. Dylid cyfathrebu ac integreiddio codau'n effeithiol i strategaeth a gweithrediadau'r cwmni, gan gynnwys systemau rheoli risg a strwythurau tâl.

### 4.2 Llwgrwobrwyo a llygredd
Dylai'r bwrdd sicrhau bod rheolwyr wedi gweithredu polisïau a gweithdrefnau caeth yn briodol er mwyn lliniaru'r risg o lwgrwobrwyo a llygredd neu gamymddygiad arall. Dylai polisïau a
gweithdrefnau o'r fath gael eu cyfathrebu i gyfranddalwyr a phartion eraill â diddordeb.

### 4.3 Canu'r Gloch
Dylai'r bwrdd sicrhau bod gan y cwmni fecanwaith annibynnol, cyfrinachol yn ei le lle gall gweithiwr, cyflenwr neu ran-ddeiliad arall (heb ofni cosb) godi materion sy'n achosi pryder penodol o ran achosion posib neu amheus o dorri cod moeseg y cwmni neu gyfraith lleol.

### 4.4 Lobïo gwleidyddol
Dylai'r bwrdd gael polisi ar ymgysylltiad gwleidyddol, sy'n ymdrin â lobïo a chyfraniadau i achosion neu ymgeiswyr gwleidyddol lle caniateir hynny o dan y gyfraith, a sicrhau bod buddion a risgiau'r dull a ddilynir wedi'u deall, yn cael eu monitro, yn dryloyw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

### 4.5 Gweithwyr yn ymdrin â chyfranddaliadau
Dylai'r bwrdd ddatblygu rheolau clir ynglŷn ag unrhyw fasnachu gan gyfarwyddwyr a gweithwyr yn sicrwydd y cwmni ei hun. Ni ddylai unigolion
elwa'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol o wybodaeth nad yw'n gyffredinol ar gael i'r farchnad.

### 4.6 Ymddygiad
Dylai'r bwrdd feithrin diwylliant corfforaethol sy'n sicrhau bod gweithwyr yn deall eu cyfrifoldeb am ymddygiad priodol. Dylid
cael lefel bwrdd priodol a hyfforddiant staff ym mhob agwedd sy'n ymwneud â diwylliant a moeseg corfforaethol. Dylai diwydrwydd dyladwy a rhaglenni monitro fod yn eu lle i alluogi i staff ddeall codau ymddygiad perthnasol a'u gweithredu'n effeithiol i osgoi'r cwmni rhag cael ei gysylltu ag ymddygiad amhriodol.

## 5.0 Goruchwylio risg

### 5.1 Goruchwylio rhagweithiol

Dylai'r bwrdd oruchwylio, adolygu a chymeradwyo'r dull rheoli risg yn rhagweithiol a rheolaidd neu gydag unrhyw newid busnes arwyddocaol a bodloni ei hun fod y dull yn gweithredu'n effeithiol. Ni ellir gwahanu strategaeth a risg a dylent dreiddio i holl drafodaethau'r bwrdd ac felly, dylai'r bwrdd ystyried ystod o ddeilliannau tebygol a allai arwain o'i broses gwneud penderfyniadau a'r gweithrediadau sydd eu hangen i reoli'r deilliannau hynny.

### 5.2 Dull cynhwysfawr

Dylai'r bwrdd fabwysiadu dull cynhwysfawr ar gyfer goruchwylio risg sy'n cynnwys holl agweddau materol o risg gan gynnwys risgiau ariannol, strategol, gweithredol, amgylcheddol a chymdeithasol (gan gynnwys goblygiadau gwleidyddol a chyfreithiol risgiau o'r fath), yn ogystal ag unrhyw ganlyniadau ar enw da.

### 5.3 Diwylliant risg

Dylai'r bwrdd arwain drwy esiampl a meithrin diwylliant risg effeithiol sy'n annog natur agored a herio barnau a thybiaethau yn feirniadol. Dylid gwerthuso diwylliant y cwmni o ran risg a'r broses a ddilynir i godi a datrys materion o fewn y cwmni, ar adegau sy'n briodol i'r sefyllfa.

### 5.4 Proses ddynamig

Dylai'r bwrdd sicrhau bod risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn strategaeth a dyraniad cyfalaf y cwmni. Gan hynny, dylid rheoli risg mewn ffordd resymol, annibynnol briodol, dynamig a blaengar. Dylai'r broses hon o reoli risgiau fod yn barhaus a chynnwys ystyriaeth o ystod o effeithiau tebygol.

### 5.5 Pwyllgor risg

Er mai'r bwrdd llawn sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddull rheoli risg y cwmni, gall sefydlu pwyllgor risg (boed yn bwyllgor risg unigol, yn bwyllgor risg cyfunol gydag enwebu a llywodraethu, strategaeth, archwilio neu arall) fod yn fecanwaith effeithiol i ddod â'r tryloywder, y ffocws a'r farn annibynnol sydd ei angen i oruchwylio dull rheoli risg y cwmni.

## 6.0 Tâl

### 6.1 Aliniad

Dylid dylunio tâl yn effeithiol i alinio buddion y CEO a'r uwch reolwyr gyda buddion y cwmni a'i gyfranddalwyr. Dylai tâl fod yn rhesymol a theg a dylid pennu'r cwantwm yng nghyd-destun y cwmni yn ei gyfanrwydd.

### 6.2 Perfformiad

Dylai mesur perfformiad integreiddio ystyriaethau risg fel nad oes unrhyw wobrau am gymryd risgiau amhriodol ar draul y cwmni a'i gyfranddalwyr. Dylai elfennau sy'n ymwneud â pherfformiad fod yn llym a chael eu mesur dros amserlenni, a chyda methodoleg, sy'n helpu i sicrhau bod tâl perfformiad yn cyfateb yn uniongyrchol gyda'r gwerth parhaus a grëir. Dylai cwmnïau gynnwys darpariaethau yn eu cynlluniau cymhellol sy'n galluogi i'r cwmni wrthod talu unrhyw swm, neu adfer symiau a dalwyd ('adfachu'), yn achos camymddwyn difrifol neu gamddywediad materol yn natganiadau ariannol y cwmni.

### 6.3 Datgeliad

Dylai'r bwrdd ddatgelu polisi tâl clir, dealladwy a chynhwysfawr sydd wedi'i alinio gydag amcanion strategol hirdymor y cwmni. Dylai'r adroddiad tâl hefyd ddisgrifio, ar sail unigol, sut gafodd gwobrwyon a ganiatawyd i uwch reolwyr a'r CEO eu penderfynu a'u pennu'n briodol yng nghyd-destun

perfformiad sylfaenol y cwmni mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae hyn yn cynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod megis yswiriant cyfarwyddwr a swyddog, manteision ymylol a thelerau pecynnau diswyddo os o gwbl.

### 6.4 Perchnogaeth cyfranddaliad

Dylai'r bwrdd ddatgelu polisi'r cwmni ynghylch perchnogaeth cyfranddaliadau gan y CEO ac uwch reolwyr. Dylai hyn gynnwys polisi'r cwmni ynglŷn â sut ellir cyflawni gofynion perchnogaeth cyfranddaliadau

a pha mor hir y dylent gael eu cadw. Dylid dwyn perswâd i beidio â defnyddio deilliadau neu strwythurau eraill sy'n galluogi i amlygiad unigolyn i gyfranddaliadau'r cwmni gael ei warchod.

### 6.5 Cymeradwyo cyfranddaliwr

Dylai cyfranddalwyr gael y cyfle i bleidleisio ar bolisïau tâl, yn enwedig pan fydd newid sylweddol i strwythurau tâl yn cael ei gynnig neu pan fydd nifer sylweddol o gyfranddalwyr wedi gwrthwynebu datrysiad tâl. Yn benodol, dylai cynlluniau tâl sy'n seiliedig ar gyfranddaliadau fod yn amodol i gymeradwyaeth cyfranddalwyr cyn cael eu gweithredu.

### 6.6 Cymhelliad gweithwyr

Dylai'r bwrdd sicrhau bod datblygu strwythurau tâl ar gyfer gweithwyr y cwmni yn atgyfnerthu, ac nid yn tanseilio, y gwerth a grëir yn barhaus. Dylai tâl yn seiliedig ar berfformiad i staff ymgorffori risg, gan gynnwys mesur dychweliadau wedi'u haddasu ar gyfer risg, i helpu i sicrhau nad oes unrhyw risgiau amhriodol nac anfwriadol yn cael eu darparu fel cymhelliant.

Er bod elfen fwyaf y mwyafrif o dâl cymhelliad i weithwyr yn debygol o fod yn seiliedig ar arian parod, dylai'r rhaglenni hyn gael eu dylunio a'u gweithredu mewn modd sy'n gyson â gyrwyr perfformiad hirdymor y cwmni.

### 6.7 Cyflog cyfarwyddwr anweithredol

Dylai'r bwrdd sicrhau bod tâl ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol a/neu gadeirydd anweithredol yn cael ei strwythuro mewn ffordd sy'n sicrhau annibyniaeth, gwrthrychedd ac aliniad gyda buddion cyfranddalwyr. Ni ddylai cyflog yn seiliedig ar berfformiad

gael ei ganiatáu i gyfarwyddwyr anweithredol a chadeiryddion anweithredol.

### 6.8 Pwyllgor tâl

Dylai'r bwrdd sefydlu pwyllgor tâl sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn annibynnol. Dylai prif rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor tâl gael eu disgrifio yng nghylch gorchwyl y pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys:

a) penderfynu ar ac argymell athroniaeth a pholisi tâl y cwmni i'r bwrdd;
b) dylunio, gweithredu, monitro a gwerthuso cymhelliad yn seiliedig ar gyfranddaliadau byrdymor a hirdymor a chynlluniau buddion eraill, gan gynnwys trefniadau pensiwn, i'r CEO ac uwch reolwyr;
c) sicrhau bod gwrthdaro buddiannau ymhlith aelodau'r pwyllgor a rhwng y pwyllgor a'i ymgynghorwyr yn cael ei osgoi;
d) penodi unrhyw ymgynghorydd tâl annibynnol gan gynnwys eu dethol a thelerau ymgysylltu a datgelu pwy ydynt a'u ffioedd ymgynghori; a
e) chynnal cyfathrebu priodol gyda chyfranddalwyr ar y pwnc o dâl naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r bwrdd.

## 7.0 Adrodd ac archwilio

### 7.1 Datgeliad cynhwysfawr

Dylai'r bwrdd gyflwyno asesiad cytbwys a dealladwy o sefyllfa a rhagolygon y cwmni yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol er mwyn i gyfranddalwyr allu asesu perfformiad, model busnes, strategaeth a rhagolygon hirdymor y cwmni.

### 7.2 Materoldeb

Dylai'r bwrdd ddatgelu gwybodaeth berthnasol a materol yn amserol er mwyn caniatáu i gyfranddalwyr ystyried gwybodaeth sy'n cynorthwyo i adnabod risgiau a ffynonellau creu cyfoeth. Dylai materion sy'n berthnasol i'r cyfranddaliwr gael eu hamlinellu'n gryno yn yr adroddiad blynyddol, neu ddatgeliadau cyfwerth, a'u cymeradwyo gan y bwrdd ei hun.

### 7.3 Cadarnhad

Dylai'r bwrdd gadarnhau bod adroddiad a chyfrifon blynyddol y cwmni yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa a rhagolygon y cwmni. Fel bo'n briodol, gan ystyried rhwymedigaethau statudol a rheoleiddio ym mhob awdurdodaeth, dylai'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol:

a) fod yn berthnasol i benderfyniadau buddsoddi, gan alluogi i gyfranddalwyr werthuso risgiau, perfformiad yn y gorffennol a'r presennol, ac i ddod i gasgliadau ynglŷn â pherfformiad yn y dyfodol;
b) alluogi i gyfranddalwyr, sy'n rhoi'r cyfalaf risg, gyflawni eu cyfrifoldebau fel perchnogion i asesu rheolaeth y cwmni a'r strategaethau a fabwysiadwyd;
c) fod yn bortread cywir o'r digwyddiadau y mae'n honni i fod yn eu cynrychioli;
d) yn gyffredinol, fod yn niwtral ac adrodd am weithgarwch mewn ffordd deg a diduedd ac eithrio lle ceir ansicrwydd. Dylai doethineb orchfygu mewn modd fel nad yw asedau ac incwm yn cael eu gorbwysleisio ac nad yw rhwymedigaethau a threuliau yn cael eu tanddatgan. Dylai sylwedd fod yn gryfach na'r ffurf. Dylai unrhyw eitemau oddi ar y fantolen gael eu datgelu'n briodol;
e) fod yn brofadwy fel bod dull a methodoleg systematig yn cael eu defnyddio'r un pryd â phan ddeuir i gasgliad;
f) gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi i rywun gymharu perfformiad yr endid dros amser ac yn erbyn endidau eraill; ac
g) adnabod yr 'egwyddor cydweddu' sy'n gofyn i dreuliau gydweddu â refeniw.

### 7.4 Risg diddyledrwydd

Dylai'r bwrdd gadarnhau yn yr adroddiad blynyddol ei fod wedi gwneud asesiad cadarn o sefyllfa'r cwmni ac unrhyw risgiau materol, gan gynnwys ei ddiddyledrwydd a hylifedd fyddai'n bygwth ei hyfywdra. Dylai'r bwrdd ddatgan p'un a, yn ei farn ef, fyddai'r cwmni'n gallu diwallu ei rwymedigaethau fel maent yn ddyledus a pharhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy, gan egluro unrhyw dybiaethau cefnogol a

risgiau neu ansicrwydd sy'n berthnasol i hynny a sut maent yn cael eu rheoli. Yn benodol, dylai datgeliad ar risg gynnwys disgrifiad o:

a) risg yng nghyd-destun strategaeth y cwmni;
b) risg i'r dychweliadau a ddisgwylir gan gyfranddalwyr gyda ffocws ar ganlyniadau allweddol;
c) goruchwylio, dull a phrosesau risg;
d) sut mae gwersi a ddysgwyd wedi cael eu defnyddio i wella deilliannau yn y dyfodol; a
e) prif risgiau i fodel busnes y cwmni a chyflawniad ei amcanion strategol, gan gynnwys risgiau allai fygwth ei hyfywdra.

### 7.5 Gwybodaeth anariannol

Dylai'r bwrdd ddarparu adroddiad integredig sy'n rhoi perfformiad hanesyddol yn ei gyd-destun, a darlunio'r risgiau, y cyfleoedd a'r rhagolygon ar gyfer y cwmni yn y dyfodol, gan gynorthwyo cyfranddalwyr i ddeall amcanion strategol y cwmni a'i gynnydd tuag at eu diwallu. Dylai datgeliadau o'r fath:

a) fod yn gysylltiedig â model busnes y cwmni;
b) fod yn llawn gwybodaeth wirioneddol a chynnwys elfennau blaengar lle bydd hynny'n gwella dealltwriaeth;
c) disgrifio strategaeth a risgiau a chyfleoedd cysylltiedig y cwmni, ac egluro rôl y bwrdd wrth asesu a goruchwylio strategaeth a rheolaeth risgiau a chyfleoedd;
d) fod yn hygyrch a'u hintegreiddio'n briodol gyda gwybodaeth arall sy'n galluogi i gyfranddalwyr gael darlun o'r cwmni cyfan;
e) defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â strategaeth a hwyluso cymariaethau;
f) defnyddio matrics amcanion lle fyddant yn briodol ac amcangyfrifon yn seiliedig ar dystiolaeth

os na fyddant yn briodol; a

g) gael eu cryfhau ble bo'n bosib gan sicrwydd annibynnol a gynhelir bob blwyddyn gan roi sylw i safonau datgelu sefydledig.

### 7.6 Rheolaethau mewnol

Dylai'r bwrdd oruchwylio'r gwaith o sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaeth fewnol a ddylai gael ei mesur
yn erbyn safonau archwilio mewnol a dderbynnir yn rhyngwladol a'i phrofi am ei digonolrwydd o bryd i'w gilydd. Os na fydd swyddogaeth archwilio mewnol wedi cael ei sefydlu, dylid datgelu'r rhesymau llawn am hyn yn yr adroddiad blynyddol, yn ogystal ag egluro sut y cafwyd sicrwydd digonol o effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol.

### 7.7 Archwiliad allanol annibynnol

Dylai'r bwrdd gyhoeddi'r adroddiad gan archwilydd allanol a ddylai ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol p'un a yw'r
cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a pherfformiad y cwmni. Dylid enwi'r partner ymgysylltu yn yr adroddiad archwilio a dylai'r cwmni gyhoeddi ei bolisi ar gylchdro cwmnïau archwilio. Os fydd yr archwilydd yn ymddiswyddo, yna dylid cyhoeddi'r rhesymau dros yr ymddiswyddiad yn gyhoeddus gan yr archwilydd sy'n ymddiswyddo.

### 7.8 Ffioedd di-archwilio

Dylai'r pwyllgor archwilio, hyd y bo'n ymarferol, gymeradwyo unrhyw wasanaethau di-archwilio a ddarperir gan yr archwilydd allanol a ffioedd perthnasol i sicrhau nad ydynt yn tanseilio annibyniaeth yr archwilydd. Dylai'r ffioedd di-archwilio
gael eu datgelu yn yr adroddiad blynyddol gydag eglurhad lle bo'n briodol. Fel arfer, dylai ffioedd di-archwilio fod yn llai na'r ffi archwilio ac, os nad ydyw, dylid rhoi eglurhad clir pam ei fod yn angenrheidiol i'r archwilydd ddarparu'r gwasanaethau hyn a sut gafodd annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwiliad ei sicrhau.

### 7.9 Pwyllgor archwilio

Dylai'r bwrdd sefydlu pwyllgor archwilio sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn annibynnol. Dylai o leiaf un aelod o'r pwyllgor archwilio gael profiad ariannol diweddar a pherthnasol
. Ni ddylai cadeirydd y bwrdd fod yn gadeirydd y pwyllgor archwilio, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol y dylid eu hegluro yn yr adroddiad blynyddol. Dylai prif rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor archwilio gael eu disgrifio yng nghylch gorchwyl y pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys:

a) monitro uniondeb y cyfrifon ac unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol sy'n ymwneud â pherfformiad ariannol y cwmni, ac adolygu barn adrodd ariannol arwyddocaol a gynhwysir ynddynt;

b) cadw golwg ar brif bolisïau cyfrifeg a barn cyfrifeg a ddylai fod yn unol â safonau cyfrifeg a dderbynnir yn rhyngwladol, a datgelu polisïau o'r fath yn nodiadau cyfrifon y cwmni;

c) cytuno ar isafswm sgôp yr archwiliad fel y'i pennir gan gyfraith berthnasol ac unrhyw sicrwydd arall y mae'r cwmni ei angen. Dylai cyfranddalwyr (sy'n bodloni trothwy cyfranddaliad rhesymol) gael cyfle i ymestyn sgôp yr archwiliad sydd ar y gweill neu drafod canlyniadau'r archwiliad sydd wedi'i gwblhau os ydynt yn dymuno;

d) sicrhau ei hun o ansawdd yr archwiliad a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asesu effeithiolrwydd ac annibyniaeth
yr archwilydd bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio'r penodiad, yr ail-benodiad ac, os oes angen, diswyddiad yr archwilydd allanol a thalu'r archwilydd. Dylid cael tryloywder o flaen llaw pan fydd yr archwiliad yn cael ei dendro fel bod cyfranddalwyr yn gallu ymgysylltu â'r cwmni mewn perthynas â'r broses, os ydynt yn dymuno;

e) cael deialog briodol gyda'r archwilydd allanol heb bresenoldeb rheolwyr a goruchwylio'r rhyngweithiad rhwng rheolwyr a'r archwilydd allanol, gan gynnwys adolygu'r llythyr rheolwyr a ddarperir gan yr archwilwyr allanol a goruchwylio ymateb y rheolwyr; ac

f) adrodd ar ei waith a'i gasgliadau yn yr adroddiad blynyddol.

## 8.0 Cyfarfodydd cyffredinol

### 8.1 Adnabod cyfranddalwyr

Dylai'r bwrdd sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnod o berchnogion cofrestredig ei gyfranddaliadau neu'r rhai sydd â hawliau pleidleisio dros ei gyfranddaliadau. Dylai cyfranddalwyr cofrestredig, neu eu hasiantiaid, ddarparu manylion adnabod
perchnogion buddiol, neu'r sawl sydd â hawliau pleidleisio, i'r cwmni (lle nad yw rheolau anhysbysrwydd yn atal hyn) pan ofynnir amdanynt, yn amserol. Dylai cyfranddalwyr allu adolygu'r cofnod hwn o berchnogion cofrestredig cyfranddaliadau neu'r rhai sydd â hawliau pleidleisio dros gyfranddaliadau.

### 8.2 Rhybudd

Dylai'r bwrdd sicrhau bod rhaglen y cyfarfod cyffredinol yn cael ei bostio ar wefan y cwmni o leiaf unwaith y mis cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal. Dylai'r rhaglen gynnwys rhestr priodol o eitemau a dyddiad a lleoliad y cyfarfod ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r materion sydd angen eu penderfynu yn y cyfarfod.

### 8.3 Dyddiad cau pleidleisio

Dylai'r bwrdd gyhoeddi dyddiad clir erbyn pryd y dylai cyfranddalwyr bleidleisio. Dylid terfynu'r arfer o flocio cyfranddaliadau neu ofynion ar gyfer cyfranddaliadau hir.

### 8.4 Mecanweithiau pleidleisio

Dylai'r bwrdd hyrwyddo mecanweithiau pleidleisio effeithlon a hygyrch sy'n galluogi i gyfranddalwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyffredinol, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell, drwy ddulliau electroneg os yn bosib neu drwy'r post, ac ni ddylent greu rhwystrau diangen.

## 8.5 Datgelu pleidlais

Dylai'r bwrdd sicrhau bod gwerth cyfartal yn cael ei roi i bleidleisiau p'un a ydynt wedi'u bwrw wyneb yn wyneb neu'n absennol, a dylid cyfri pob pleidlais yn briodol a'u cofnodi drwy bleidlais. Dylai canlyniad y bleidlais, y gorchymyn pleidleisio (adrodd o blaid, yn erbyn neu ymatal ar wahân) a lefelau pleidleisio ar gyfer pob cynnig gael eu cyhoeddi'n ddiymdroi ar ôl y cyfarfod ar wefan y cwmni.

Os fydd cynnig a gefnogir gan y bwrdd wedi cael ei wrthwynebu gan gyfran sylweddol o bleidleisiau, yna dylai'r cwmni egluro pa gamau a gymerwyd i ddeall ac ymateb i'r pryderon a arweiniodd at gyfranddalwyr yn pleidleisio yn erbyn argymhelliad y bwrdd.

# 9.0 Hawliau cyfranddalwyr

## 9.1 Dosbarthiadau cyfranddaliadau

Dylai'r bwrdd ddatgelu digon o wybodaeth ynghylch nodweddion materol holl ddosbarthiadau'r cwmni ynghyd â chyfres o gyfranddaliadau yn amserol. Dylai cyfranddaliadau cyffredin fod ag un pleidlais ar gyfer pob cyfranddaliad. Dylid datgelu ac egluro'r gwahaniaeth o safon 'un cyfranddaliad, un bleidlais' sy'n rhoi pŵer anghyfartal i fuddion economaidd rhai cyfranddalwyr. Dylid parhau i adolygu strwythurau cyfranddaliadau dosbarth deuol a dylent fynd law yn llaw â mesurau diogelu cymesur ychwanegol i gyfranddalwyr lleiafrifol, yn enwedig yn achos cais i gymryd drosodd.

## 9.2 Penderfyniadau o bwys

Dylai'r bwrdd sicrhau bod gan gyfranddalwyr yr hawl i bleidleisio ar benderfyniadau o bwys a allai newid natur y cwmni y maent wedi buddsoddi ynddo. Dylid disgrifio hawliau o'r fath yn glir yn nogfennau llywodraethu'r cwmni ac maent yn cynnwys:

a) diwygiadau i ddogfennau llywodraethu'r cwmni megis erthyglau neu is-ddeddfau;
b) adbryniadau cyfranddaliadau'r cwmni (*buybacks*);
c) unrhyw faterion cyfranddaliadau newydd. Dylai'r bwrdd fod yn ofalus rhag gwanhau cyfranddalwyr presennol a darparu esboniadau llawn pan fydd hawliau rhagbrynu ddim yn cael eu cynnig;
d) cynlluniau hawliau cyfranddalwyr ('*poison pills*') neu strwythurau eraill sy'n gweithredu fel mecanweithiau atal i neb gymryd drosodd. Dim ond cyfranddalwyr nad ydynt yn cael eu tynnu ddwy ffordd fydd â'r hawl i bleidleisio ar gynlluniau o'r fath a dylai'r bleidlais fod yn orfodol. Dylai cynlluniau gael cyfyngiad amser a'u cyflwyno i gyfranddalwyr i gael eu hail-gymeradwyo o bryd i'w gilydd;
e) cynigion i newid hawliau pleidleisio gwahanol gyfresi a dosbarthiadau cyfranddaliadau; a
f) trafodion materol ac eithriadol megis cyfuniadau a chaffaeliadau.

## 9.3 Buddiannau sy'n gwrthdaro

Dylai'r bwrdd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar fuddiannau sy'n gwrthdaro wedi cael eu sefydlu, eu deall a'u gweithredu gan gyfarwyddwyr, rheolwyr, gweithwyr a phartïon perthnasol eraill. Os oes gan gyfarwyddwr fuddiant mewn mater dan ystyriaeth gan y bwrdd, yna dylai'r cyfarwyddwr ddatgan buddiant o'r fath yn ddiymdroi a chael ei atal rhag pleidleisio ar y pwnc neu ddylanwadu arno.

## 9.4 Trafodion partïon perthnasol

Dylai'r bwrdd ddatgelu'r broses ar gyfer adolygu a monitro trafodion partïon perthnasol sydd, ar gyfer trafodion sylweddol, yn cynnwys sefydlu pwyllgor o gyfarwyddwyr annibynnol. Gall hyn fod yn bwyllgor ar wahân neu'n bwyllgor presennol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr annibynnol, er enghraifft y pwyllgor archwilio. Dylai'r pwyllgor adolygu trafodion partïon perthnasol sylweddol i benderfynu p'un a ydynt er budd gorau'r cwmni ac, os felly, penderfynu pa delerau sy'n deg a rhesymol. Dylai casgliad trafodaethau'r pwyllgor ar drafodion partïon perthnasol sylweddol gael eu datgelu yn adroddiad blynyddol y cwmni i gyfranddalwyr.

## 9.5 Cymeradwyaeth cyfranddalwyr

Dylai cyfranddalwyr gael yr hawl i gymeradwyo trafodion partïon perthnasol sylweddol a dylai hyn fod yn seiliedig ar gymeradwyaeth mwyafrif y cyfranddalwyr diduedd. Dylai'r bwrdd gyflwyno'r trafodion i gael cymeradwyaeth gan gyfranddalwyr a datgelu (cyn casglu'r trafodion ac yn adroddiad blynyddol y cwmni):

a) pwy fyddai'r buddiolwyr yn y pen draw gan gynnwys, unrhyw berchennog sy'n rheoli ac unrhyw barti sy'n gysylltiedig â'r perchennog sy'n rheoli gydag unrhyw fudd perchnogaeth uniongyrchol / anuniongyrchol yn y cwmni;
b) busnesau eraill lle mae gan y cyfranddaliwr sy'n rheoli fudd sylweddol; a
c) cytundebau cyfranddalwyr (e.e. ymrwymiadau i daliadau partïon perthnasol megis ffioedd trwydded, cytundebau gwasanaeth a benthyciadau).

## 9.6 Cwestiynau cyfranddalwyr

Dylai'r bwrdd ganiatáu cyfle rhesymol i gyfranddalwyr mewn cyfarfod cyffredinol ofyn cwestiynau ynghylch neu wneud sylwadau ar reolaeth y cwmni, a gofyn cwestiynau yn ymwneud â'r archwiliad i'r archwilydd allanol.

## 9.7 Penderfyniadau cyfranddalwyr

Dylai'r bwrdd sicrhau bod gan gyfranddalwyr yr hawl i roi eitemau ar raglen cyfarfodydd cyffredinol, ac i gynnig datrysiadau yn amodol ar gyfyngiadau rhesymol. Dylid galluogi i gyfranddalwyr gydweithio i wneud cynnig o'r fath.

## 9.8 Cyfarfodydd cyfranddalwyr

Dylai'r bwrdd sicrhau bod hawl gan gyfranddalwyr, sydd â chyfran benodol o'i gyfranddaliadau neilltuol neu nifer penodol o gyfranddalwyr, i alw cyfarfod cyfranddalwyr er diben trafod busnes cyfreithlon y cwmni.

## 9.9 Trothwyon

Dylai unrhyw drothwy sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau cyfranddalwyr, cynigion neu gyfranogiad eraill o'r fath gan gyfranddalwyr, bwyso a mesur yr angen i sicrhau bod y mater dan ystyriaeth yn debygol o fod o bwysigrwydd i bob cyfranddaliwr ac nid lleiafrif bychan yn unig.

## 9.10 Cydraddoldeb ac unioni

Dylai'r bwrdd sicrhau bod cyfranddalwyr o'r un gyfres neu ddosbarth yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael eu diogelu yn erbyn ymddygiad camdriniol
neu ormesol gan y cwmni neu ei reolwyr, gan gynnwys camddefnyddio'r farchnad, gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, hepgoriadau materol a masnachu mewnol. Dylid diogelu cyfranddalwyr lleiafrifol rhag gweithrediadau camdriniol gan, neu er budd, cyfranddalwyr sy'n rheoli yn gweithredu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a dylent gael dulliau unioni effeithiol. Dylid rhoi camau unioni a rheolau gweithdrefnol priodol yn eu lle i sicrhau bod y diogelwch yn effeithiol a fforddiadwy. Os nad yw camau unioni cyfreithiol cenedlaethol yn fforddiadwy, anogir y bwrdd i sicrhau bod digon o fesurau diogelu cyfranddalwyr yn cael eu darparu yn is-ddeddfau'r cwmni.

# Gweithredu Pleidleisio drwy Ddirprwy

Mae'r broses bleidleisio drwy ddirprwy yn codi sawl mater ymarferol, a gaiff eu hystyried gan Robeco i benderfynu a yw bwrw pleidleisiau drwy ddirprwy er budd gorau'r perchennog buddiol. Trafodir yr ystyriaethau pwysicaf isod.

## 1.0 Costau sy'n gysylltiedig â phleidleisio drwy ddirprwy

Mae Robeca yn arfer ei hawliau pleidleisio ar gyfer ei holl gronfeydd rhestredig sydd â buddsoddiadau ecwiti uniongyrchol. Efallai na fydd pleidleisio drwy ddirprwy yn cael ei arfer os fydd costau pleidleisio drwy ddirprwy yn achosi costau sylweddol, a allai effeithio ar berfformiad portffolio. Costau uniongyrchol yw'r hyn a godir yn uniongyrchol ar gronfa fuddsoddi ac sy'n effeithio ar berfformiad y gronfa. I Robeca, mae amcangyfrifon cost cronfeydd rhestredig yn cael eu perfformio bob blwyddyn. Mae pwyllgor gweithredol RIAM yn cymeradwyo pa bleidleisiau cronfeydd y dylid eu gweithredu gan roi sylw i'r ystyriaethau cost. Ar gyfer
mandadau buddsoddi diamod, trafodir dewisiadau pleidleisiau gyda'r perchennog buddiol.

## 2.0 Marchnadoedd blocio cyfranddaliadau

Mae pleidleisio drwy ddirprwy angen blocio cyfranddaliadau mewn sawl marchnad. Mae hyn yn golygu bod masnachu cyfranddaliadau yn cael ei wahardd ar ôl anfon pleidlais dros safle ecwiti. Yn y marchnadoedd hyn, mae Robeca yn pleidleisio drwy ddirprwy pan fydd y rhaglen yn cynnwys eitem ddadleuol ac mae nifer y stoc yn cael effaith amlwg ar y canrannau cymeradwyo. Yn yr achosion hyn, ar sail gyffredinol, mae Robeco yn pleidleisio 80% o'r safle ecwiti. Mae'r 20% sy'n weddill yn hwyluso masnachu ad-hoc, os oes angen.

## 3.0 Benthyca gwarannau

Mae gan Robeca raglen fenthyca gwarannau ar gyfer sawl un o'i gronfeydd cydfuddiannol rhestredig. Pan fydd cyfranddaliadau'n cael eu benthyg, nid yw Robeco'n gyfamodol yn gallu arfer hawliau pleidleisio ar gyfer y cyfranddaliadau hyn.

Ar gyfer ein cronfeydd cyhoeddus, rydym yn adolygu os yw ein cyfranddaliadau wedi'u benthyg ar gyfer cyfarfodydd cyfranddalwyr sydd ar y gweill. Mae'r penderfyniad i alw cyfranddaliadau yn ôl yn dibynnu ar ddau brif ganllaw. 1) Mewn egwyddor, ein nod yw pleidleisio ar ein safle ecwiti i gyd, gyda'r mwyafrif o'r rhan honno o leiaf. 2) Mewn achosion penodol, ffafrir galw cyfranddaliadau yn ôl am ganran hyd yn oed yn uwch os yw

1. Y cwmni yw'r daliwr sylweddol
2. Y cwmni yn destun ein rhaglen ymgysylltu ac / neu bod ymgysylltiad wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma ac
3. Y rhaglen ar gyfer y cyfarfod cyfranddalwyr yn cynnwys cynnig dadleuol.

Mae rhaglen fenthyca gwarannau Robeco yn cael ei monitro gan ein hasiant benthyca ar gyfer camddefnyddio hawliau pleidleisio.

## 4.0 Defnyddio Ymgynghorwyr Dirprwy

Mae Robeco yn defnyddio platfform pleidleisio drwy ddirprwy ac argymhellion pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob cyfarfod lle'r ydym yn pleidleisio ynddynt. Mae ein hymgynghorydd pleidleisio drwy ddirprwy (Glass Lewis. Co) yn darparu argymhellion pleidleisio yn seiliedig ar bolisi arferion pleidleisio Robeco. Yna, mae tîm Robeco o ddadansoddwyr pleidleisio pwrpasol yn dadansoddi teilyngdod pob eitem ar y rhaglen. Mae'r dadansoddiad hwn, yn seiliedig ar bolisi pleidleisio Robeco, yn cymryd blaenoriaeth dros argymhellion yr ymgynghorydd pleidleisio drwy ddirprwy. Golyga hyn fod cyfarwyddiadau Robeco yn aml yn gwyro oddi wrth argymhellion y rheolwyr a'r ymgynghorydd pleidleisio drwy ddirprwy.

Ar sail blynyddol o leiaf, rydym yn gwerthuso ein hasiant pleidleisio drwy ddirprwy, ar ansawdd yr ymchwil llywodraethu ac aliniad argymhellion pleidleisio (wedi'u haddasu) a pholisi pleidleisio Robeco. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o fframwaith reoli Robeco ac yn cael ei sicrhau'n allanol.

ROBECO
The Investment Engineers

## Cyswllt


**Robeco Institutional Asset Management B.V.**
Carola van Lamoen
Head Governance and Active Ownership
Weena 850
3014 AD Rotterdam
The Netherlands

c.van.lamoen@robeco.nl
www.robeco.com


1174_01-2020

# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

**10 RHAGFYR 2020**

## CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**I:**

- **Cymeradwyo bod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelod o gynllun y bwrdd pensiwn (heb bleidlais) ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLl)**
- **Cymeradwyo bod gofyn i bob Awdurdod Cyfansoddol gadarnhau cynnwys cynrychiolydd aelodau cyfetholedig y cynllun ar y CBLl ac y gwneir y diwygiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau**
- **Cytuno bod y Gweithgor Swyddogion yn paratoi manyleb person a phroses ddethol i'w cyflwyno yn y CBLl yn y dyfodol i'w cymeradwyo'n ffurfiol**

**RHESYMAU:**

Mae trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas â chyfethol cynrychiolydd aelod y cynllun ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu fel aelod heb bleidlais, er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Byddai angen addasu'r IAA a byddai angen mynd â'r addasiadau i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol am gymeradwyaeth.


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
# 10 RHAGFYR 2020

## CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl) yn gydbwyllgor wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly mae'n rhaid i aelodau'r CBLl sydd â phleidlais fod yn aelodau etholedig. Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor (fel y nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA)) yn un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod yr aelod etholedig yn aelod o bwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw a bod pwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Cyhoeddwyd yr IAA ym mis Rhagfyr 2017 ac wedi hynny bu ymgysylltu â chadeiryddion y byrddau pensiwn ar ffurf cyfarfodydd bob chwe mis rhwng swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a Chadeiryddion y Byrddau Pensiwn (neu gynrychiolwyr) o bob awdurdod cyfansoddol.

Mae'r Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi codi proffil cynrychiolaeth aelodau yn ddiweddar ac mae aelodau'r CBLl wedi ystyried rhan aelod-gynrychiolwyr o'r cynllun i gynorthwyo â thryloywder PPC ac felly gryfhau trefniadau llywodraethu PPC. Byddai cynrychiolydd aelod y cynllun o un o'r wyth Bwrdd Pensiwn unigol yn gwella'r ymgysylltu ymhellach gyda'r Byrddau Pensiwn ac am ei fod yn aelod bwrdd presennol byddai ganddo'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ynghyd â bod yn gyfarwydd â rheoliadau llywodraethu a buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi codi proffil cynrychiolaeth aelodau yn ddiweddar ac mae aelodau'r JGC wedi ystyried cynnwys cynrychiolydd sy'n aelod o'r cynllun i helpu gyda thryloywder Cynllun Partneriaeth Cymru ac felly cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cynllun.

Mae'r CBLl yn gydbwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Adran 101 y Ddeddf honno yn caniatáu i Gynghorau greu cydbwyllgor i ryddhau ei swyddogaethau. Nodir er cyfanrwydd bod Adran 102(3) Deddf 1972 yn caniatáu ar gyfer penodi personau nad ydynt yn aelodau i bwyllgor, cyhyd nad ydynt yn rhan o reoleiddio neu reoli cyllid yr awdurdod lleol. Ni ystyrir bod yr eithriad hwn yn berthnasol yn yr achos hwn o ystyried bod pensiynau fel pwnc yn fater ariannol.

Gall Aelod-gynrychiolwyr ymuno â'r CBLl ond ddim ond fel aelodau cyfetholedig, heb bleidlais. Awgrymir newid y darpariaethau cyfetholedig yn hytrach na strwythur creiddiol y CBLl. Nid yw'r Aelod-gynrychiolwyr hyn yn 'aelodau' o'r CBLl cyhyd ag y mae pleidleisio ac ymarfer pwerau yn y cwestiwn; fodd bynnag, byddai hawl ganddynt i weld y papurau, mynychu cyfarfodydd a siarad mewn cyfarfodydd, gan gynnwys eitemau eithriedig.

Er mwyn i hyn fedru digwydd, byddai angen addasu'r IAA a byddai angen mynd â'r addasiadau i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol am gymeradwyaeth.

Bydd manylion y person yn cael ei ddrafftio i sicrhau bod gan y person enwebedig wybodaeth a phrofiad priodol i ymgymryd â'r rôl a bydd y tymor yn gyfnod o flwyddyn yn y lle cyntaf, gydag opsiwn i ymestyn am flwyddyn arall.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **NAC OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb | Cyfreithiol | Cyllid | Materion Rheoli Risg | Goblygiadau Staffio |
|---|---|---|---|---|
| **OES** | **DIM** | **DIM** | **DIM** | **DIM** |

**Cyfreithiol**

Byddai angen addasu'r IAA a byddai angen i bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol Cymreig ei gymeradwyo.

# YMGYNGORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma. |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**<br>**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**<br>**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |

**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**10 RHAGFYR 2020**

| **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** |
|---|
| **ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**<br><br>**Derbyn cyflwyniad gan y Gweithredwr ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru** |
| **RHESYMAU:**<br><br>Y gweithredwr i roi diweddariad ar y meysydd allweddol a ganlyn:<br>• Daliadau Presennol y Gronfa<br>• Cynnydd efo Lansiad y Cronfeydd<br>• Diweddariad ac Ymgysylltiad Corfforaethol |


| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif Ffôn: 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**
**CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

**10 RHAGFYR 2020**

| **DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR** |
|---|
| **CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**<br><br>Adroddiad gan y Gweithredwr yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a'r cerrig milltir dan yr Is-gronfeydd a ganlyn:<br><br>• Haen 1 – Ecwiti Byd-eang<br>• Haen 2 – Ecwiti y DU<br>• Haen 3 – Incwm Sefydlog<br>• Haen 4 – Marchnadoedd Datblygol<br>• Haen 5 – Marchnadoedd Preifat<br><br>Hefyd, diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu yn cynnwys y protocol ymgysylltu a dyddiadau cyfarfodydd allweddol. |

| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |
|---|---|

## GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**DIM** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## YMGYNGORIADAU

| |
|---|
